

## Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel a Sarah Beasley  
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: 21 Medi 2023 0300 200 6565  
Amser: 09.30 [SeneddIechyd@senedd.cymru](mailto:SeneddIechyd@senedd.cymru)

### Pecyn atodol – papurau i'w nodi

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

#### 6 Papurau i'w nodi

(12.45)

6.1 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch amserlen y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2024–25

(Tudalennau 1 – 3)

6.2 Ymateb gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid ynghylch amserlen y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2024–25

(Tudalennau 4 – 5)

6.3 Llythyr ar y cyd gan Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(Tudalennau 6 – 9)

6.4 Ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(Tudalennau 10 – 16)



- 
- 6.5 Llythyr gan y Cadeirydd at Brif Swyddog Nyrsio Cymru ynghylch ymchwiliad y pwyllgor i Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: craffu ar ôl deddfu  
(Tudalennau 17 – 18)
- 6.6 Llythyr gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru at y Cadeirydd ynghylch ymchwiliad y pwyllgor i Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: craffu ar ôl deddfu  
(Tudalennau 19 – 110)
- 6.7 Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch yr argymhellion yn adroddiad y pwyllgor ar ei ymchwiliad i ddeintyddiaeth  
(Tudalennau 111 – 113)
- 6.8 Ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Cadeirydd ynghylch yr argymhellion yn adroddiad y pwyllgor ar ei ymchwiliad i ddeintyddiaeth  
(Tudalennau 114 – 116)
- 6.9 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gohebiaeth a gafwyd gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru ynghylch cyflwyno'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig yng Nghymru  
(Tudalennau 117 – 119)
- 6.10 Ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Cadeirydd ynghylch y Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig yng Nghymru  
(Tudalennau 120 – 121)
- 6.11 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Weinidogion Llywodraeth Cymru ynghylch y Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig ym maes gofal sylfaenol  
(Tudalennau 122 – 123)
- 6.12 Llythyr ar y cyd gan Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014  
(Tudalennau 124 – 129)
- 6.13 Llythyr ar y cyd gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon

---

**Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch gwerthuso Deddf  
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

(Tudalen 130)

**6.14 Llythyr gan y Cadeirydd at yr Athro Dyfed Wyn Huws ynghylch cwestiynau  
dilydol o'r sesiwn dystiolaeth ar 29 Mehefin 2023 ynghylch canserau  
gynaecolegol**

(Tudalennau 131 – 132)

**6.15 Llythyr gan yr Athro Dyfed Wyn Huws at y Cadeirydd ynghylch cwestiynau  
dilydol o'r sesiwn dystiolaeth ar 29 Mehefin 2023 ynghylch canserau  
gynaecolegol**

(Tudalennau 133 – 137)

**6.16 Ymateb gan yr Athro Helen Thomas at y Cadeirydd ynghylch cwestiynau  
dilydol o'r sesiwn dystiolaeth ar 29 Mehefin 2023 ynghylch canserau  
gynaecolegol**

(Tudalen 138)

**6.17 Llythyr gan Cerebral Palsy Cymru at y Cadeirydd ynghylch Cofrestr Parlys yr  
Ymennydd i Gymru**

(Tudalennau 139 – 141)

**6.18 Llythyr gan y Cadeirydd at Cerebral Palsy Cymru ynghylch Cofrestr Parlys yr  
Ymennydd i Gymru**

(Tudalen 142)

**6.19 Llythyr gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y  
canllawiau rhyddhau cleifion cyndyn: rheoli rhyddhau cleifion cyndyn /  
trosglwyddo gofal i leoliad gofal mwy priodol**

(Tudalennau 143 – 144)

**6.20 Llythyr gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol at y Cadeirydd ynghylch ei  
Adroddiad Blynyddol a'i Gyfrifon ar gyfer 2022/23**

(Tudalennau 145 – 146)

---

6.21 Llythyr ar y cyd gan Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at Iechyd a Gofal Digidol Cymru ynghylch cyhoeddi adroddiad y pwyllgorau ar eu hymchwiliad: Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru

(Tudalen 147)

6.22 Ymateb gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru i'r llythyr ar y cyd gan Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch cyhoeddi adroddiad y pwyllgorau ar eu hymchwiliad: Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru

(Tudalennau 148 – 175)

6.23 Llythyr gan Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cyhoeddi adroddiad y pwyllgorau ar eu hymchwiliad: Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru

(Tudalen 176)

6.24 Ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r llythyr ar y cyd gan Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch cyhoeddi adroddiad y pwyllgorau ar eu hymchwiliad: Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru

(Tudalennau 177 – 184)

6.25 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch amseroedd aros y GIG

(Tudalennau 185 – 187)

6.26 Ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch amseroedd aros y GIG

(Tudalennau 188 – 190)

- 
- 6.27 Llythyr gan y Cadeirydd at Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd y GIG ynghylch amseroedd aros**  
(Tudalennau 191 – 195)
- 6.28 Ymateb gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro at y Cadeirydd ynghylch amseroedd aros y GIG**  
(Tudalennau 196 – 206)
- 6.29 Ymateb gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe at y Cadeirydd ynghylch amseroedd aros y GIG**  
(Tudalennau 207 – 222)
- 6.30 Llythyr gan Brif Weithredwr Interim Bwrdd Iechyd Addysgu Powys at y Cadeirydd ynghylch amseroedd aros y GIG**  
(Tudalennau 223 – 239)
- 6.31 Llythyr gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda at y Cadeirydd ynghylch amseroedd aros y GIG**  
(Tudalennau 240 – 256)
- 6.32 Llythyr gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf at y Cadeirydd ynghylch amseroedd aros y GIG**  
(Tudalennau 257 – 269)
- 6.33 Llythyr gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan at y Cadeirydd ynghylch amseroedd aros y GIG**  
(Tudalennau 270 – 286)
- 6.34 Llythyr ar y cyd gan Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at Gadeirydd Interim Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch y sefyllfa bresennol**  
(Tudalennau 287 – 289)

---

**6.35 Ymateb gan Brif Weithredwr Interim Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
at Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon  
Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch y sefyllfa bresennol**

(Tudalennau 290 – 291)

Rebecca Evans AS,  
Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

7 Gorffennaf 2023

## Amserlen Ddrafft Gyllideb 2024-25

Annwyl Rebecca,

Nododd y Pwyllgor eich amserlen arfaethedig ar gyfer cyllideb 2024-25 yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2023.

Rydym o'r farn bod y dull hwn yn hynod siomedig: Fel Pwyllgor rydym wedi galw'n rheolaidd am gael digon o amser i graffu ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru, ac i hynny fod yn unol â Protocol Proses y Gyllideb ('y Protocol'), y cytunwyd arno ar sail drawsbleidiol yn 2017.

Rydym wedi ysgrifennu atoch sawl gwaith ynghylch yr anawsterau ymarferol y mae byrhau amserlenni yn eu peri i Bwyllgorau wrth gyflawni eu swyddogaethau craffu, yn ogystal â'r pwysau y mae'n ei roi ar randdeiliaid sy'n dymuno cyflwyno tystiolaeth ac ymgysylltu â'n gwaith, yn enwedig pan fydd tair wythnos o'r cyfnod hwnnw yn disgyn dros doriad y Nadolig.

Yn fwyaf diweddar, ysgrifennais atoch ar 23 Mehefin 2023 yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan y mwyafrif helaeth o Gadeiryddion Pwyllgorau ynghylch amseroldeb y broses gyllidebol a'r diffyg amser sydd ar gael ar gyfer craffu priodol. Rydym felly wedi'n digalonni na chafodd y safbwyntiau hyn eu hadlewyrchu pan gynigiwyd yr amserlen hon. Ar ben hynny, er ein bod wedi trafod yn gryno amserlen y gyllideb tua diwedd ein cyfarfod ar 20 Mehefin, ni wnaethom drafod dyddiadau penodol, fel y nodwyd yn eich llythyr, ac nid oedd cyfle i mi godi pryderon o ystyried y diffyg gwybodaeth a rannwyd bryd hynny ynghylch eich cynigion.

Mae paragraff 11 o'r Protocol yn nodi "ni fydd cyllideb/blwyddyn ariannol yn "arferol" pan fydd ansicrwydd sylweddol o ran sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol". Mae'n ychwanegu:

*"Er nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol, byddai enghreifftiau'n cynnwys pan nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu ffigurau'r gyllideb ar gyfer y dyfodol; ceir digwyddiad cyllidol y DU fel yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant neu Gyllideb Frys; neu newid sylweddol yn y rhagolygon cyllidol cyffredinol fel sioc economaidd neu newidiadau'n effeithio ar bolisi treth y DU."*

Ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, rydym wedi derbyn y dadleuon bod lefelau sylweddol o ansicrwydd cyllido yn arwain at oedi cyn gosod y gyllideb ddrafft. Er ein bod yn cydnabod nad yw Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi dyddiad y digwyddiad cyllidol yn yr hydref eto, nid ydym yn ystyried hyn yn rheswm cryf ynddo'i hun i oedi rhag cyhoeddi cynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru ac nid ydym yn cytuno mai dyma'r unig ddewis doeth sydd ar gael i chi.

Fel y gwnaethoch nodi, mae dyraniadau cyllidebol dangosol eisoes ar gael i Lywodraeth Cymru, ac er ein bod yn derbyn bod pwysau chwyddiant yn parhau'n uchel, nid ydynt, yn anffodus, yn syndod ac nid ydynt, yn ein barn ni, yn creu "llawer o ansicrwydd" yn eich sefyllfa gyllido a bod angen gwyro oddi wrth y broses 'arferol' a amlinellir ym mhrotocol y gyllideb.

Nid ydym ychwaith yn derbyn bod yr oedi yn gyfan gwbl o ganlyniad i faterion sydd y tu allan i'ch rheolaeth. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y gyllideb, mae gennych ddisgresiwn sylweddol i benderfynu pryd y cyhoeddir cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru sydd, yn eu tro, yn pennu faint o amser sydd gan Bwyllgorau'r Senedd i wneud y gwaith craffu gofynnol.

Fel y gwyddoch, dyma'r bumed flwyddyn yn olynol nad yw'r broses dau gyfnod a nodir yn y Protocol wedi'i dilyn ac mae'r cais i ohirio proses y gyllideb eto eleni, yn awgrymu mai prin yw'r amgylchiadau y gellid eu hystyried yn flwyddyn "arferol".

Bwriad y protocol oedd caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid ymgymryd â rôl oruchwylio drwy ganiatáu rhagor o amser i bwyllgorau polisi wneud gwaith craffu a'u galluogi i gymryd rhagor o dystiolaeth gan randdeiliaid.

Mae eich parodrwydd i osgoi dilyn y broses hon unwaith eto yn cwestiynu eich ymrwymiad i'r arferion hyn y cytunwyd arnynt, o ystyried nad yw amseriad craffu ar y gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud hyn yn bosibl.



## Diffyg ymgynghori

Rydym hefyd yn nodi eich bod wedi **ymgynghori** â'r Pwyllgor ar eich penderfyniad i ohirio cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2023-24 y llynedd. Mae'n resyn felly na chafodd dull tebyg ei fabwysiadu eto.

Mewn blynyddoedd pan fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gohirio cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ac yn osgoi'r broses dau gyfnod a amlinellir yn y Protocol, mae'r Pwyllgor yn disgwyl trafodaeth aeddfed ac ymgynghoriad ystyrlon ar faterion o'r fath ac mae peidio â gwneud hynny yn bwrw amheuaeth ynghylch yr ymrwymadau a wnaethoch yn flaenorol i weithio'n adeiladol ac mewn partneriaeth i wella ein prosesau'r gyllideb.

## Y camau nesaf

Rwy'n croesawu eich parodrwydd i ailedrych ar ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft pe bai cyhoeddiad y Canghellor ynghylch dyddiadau digwyddiad cyllidol yr hydref yn ddigon cynnar i ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer ei pharatoi a chraffu arni.

Byddwn yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau hyn ac yn gobeithio y bydd eglurder pellach ynghylch amseru'r materion hyn yn arwain at ragor o amser i graffu ar eich cynigion cyllideb cyn gynted â phosibl yn nhymor yr hydref.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Trefnydd a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd, o ystyried ei effaith ar eu rhaglenni gwaith ac yn sgil y pryderon a'r sylwadau a fynegwyd yn flaenorol ar y materion hyn.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths MS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE-252-2023

Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Senedd Cymru/ Welsh Parliament  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA  
[SeneddCyllid@senedd.cymru](mailto:SeneddCyllid@senedd.cymru)

20 Gorffennaf 2023

Annwyl Peredur,

### Amserlen ar gyfer cyllideb 2024-25

Rwyf wedi nodi eich llythyr at Bwyllgor Busnes, dyddiedig 7 Gorffennaf, sy'n rhoi barn y Pwyllgor Cyllid ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyllideb 2024-25.

Roeddwn am ddechrau drwy ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu digon o graffu i'r Senedd, gan gydnabod bod angen cydbwysu hyn yn gyfrannol â'r amser y mae ei hangen ar Lywodraeth Cymru i lunio ei chyllideb. Mae'n anffodus iawn unwaith eto fod amseriad digwyddiad cyllidol hydref Llywodraeth y DU yn ein hamharchu ni'n dau a'i bod wedi gofyn am sbarduno amgylchiadau eithriadol ym mhrotocol y gyllideb gan effeithio ar ein gallu i gynhyrchu'r gyllideb a'r amser ar gyfer craffu.

Rwyf yn sylweddoli bod yr anawsterau sydd ynghlwm wrth lunio amserlen gyllidebol wrth ddysgu manylion ein setliad ar gyfer y gyllideb derfynol mor hwyr yn hysbys iawn. Nid wyf yn bwriadu ailadrodd y materion hyn yn fanwl, ond credaf y byddai'n ddefnyddiol pe bawn yn mynd i'r afael â rhai o'r materion penodol yn eich llythyr.

Yn glir, nid oes amser digonol ar gael yn dilyn digwyddiad cyllidol gan Lywodraeth y DU ar ddiwedd yr Hydref i sicrhau ein bod yn paratoi yn effeithiol ar gyfer y gyllideb a darparu lefel briodol o fanylder yn nogfennau'r gyllideb, gan sicrhau hefyd fod cymaint o amser â phosibl ar gael i'r Senedd graffu arnynt. Bwriedir i'r trefniadau yr ydym wedi'u cynnig ar gyfer cyllideb 2024-25, fel ar gyfer y blynyddoedd diwethaf, wneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael.

Mae gweithdrefnau eithriadol wedi dod yn arferol bellach, ac, o ganlyniad, mae'r ddau weinidog sy'n gyfrifol am baratoi cyllideb ar ran pobl Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am graffu ar ein cynlluniau gwariant wedi cael eu gorfodi i weithio o dan amserlenni cyfyngedig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 4**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni ddylid tanbrizio'r gydnabyddiaeth a roddir gan y Gweinidogion i werth y broses ymgysylltu a chraffu, sydd â rôl bwysig wrth lywio a phrofi ein cynlluniau gwariant. Unwaith eto, bydd amserlen cyllideb 2024-25 yn rhoi mwy o amser ar gyfer craffu nag i'r Gweinidogion baratoi cynlluniau gwariant manwl a gwybodaeth ategol ar gyfer cyllideb ddrafft gwerth cyfanswm o fwy na £25bn. Rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno y byddai'n fuddiol, pryd bynnag y bydd amgylchiadau'n caniatáu, i ganiatáu digon o amser i'r gyllideb ddrafft fod yn barod i sicrhau y gall ddarparu Gwerth am Arian yn y ffordd orau i bobl Cymru.

Rydych wedi awgrymu nad yw dod i wybod lefel setliad ein cyllideb tan yn hwyr yn yr Hydref yn rheswm cryf dros oedi cyn cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, nac ychwaith nad hwn yw'r unig ddewis doeth sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. At hynny, nid ydych yn credu bod effaith pwysau chwyddiant heb eu ffrwyno a'r argyfwng costau byw parhaus yn rhesymau digonol dros ohirio'r gyllideb ddrafft tan ar ôl digwyddiad cyllidol yr Hydref Llywodraeth y DU.

Ni allaf gytuno y byddai unrhyw lywodraeth o'r farn ei bod yn ddoeth cyhoeddi cyllideb ddrafft, ym mis Hydref, o dan amgylchiadau o'r fath. Byddai dyraniadau cyhoeddedig yn amherthnasol yn dilyn cyhoeddiad y Canghellor, yn nes ymlaen yn yr Hydref, a byddent yn destun tri mis pellach o bwysau chwyddiant. Byddai hyn yn ei gwneud yn amhosibl i weinidogion neu ein rhanddeiliaid a'n partneriaid cyflawni fod â digon o hyder yn y ffigurau drafft cyhoeddedig i unrhyw gynlluniau pendant gael eu gwneud. Yn yr un modd, bwriedir i waith craffu ar y gyllideb ddrafft helpu i lywio'r gyllideb derfynol a gyhoeddir ym mis Rhagfyr. Pe bai i ffigurau'r gyllideb ddrafft gael eu diwygio'n sylweddol adeg y gyllideb derfynol, sy'n debygol iawn yn y cyd-destun hwn, byddai'n cyfyngu ar allu'r Senedd i graffu ar y newidiadau hyn. Wrth ddewis dyddiad cyhoeddi diweddarach, rydym yn cynnig sicrwydd a thryloywder ar ein cynlluniau.

Rwyf wedi ymrwymo, wrth gwrs, i weithio gyda'r Pwyllgor cyn i'r Gyllideb gael ei chyhoeddi i ystyried pa sicrwydd y gallaf ei roi yn ysbryd ein trafodaethau adeiladol parhaus.

Hoffwn achub y cyfle hwn hefyd i egluro cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r broses gyllidebu dau gam a nodir yn y Protocol. Rwyf yn cydnabod ei bod o fudd i'r Pwyllgor Cyllid ganolbwyntio ar ddyraniadau trosfwaol y gyllideb strategol a'i ymgysylltiad â rhanddeiliaid, gyda phwyllgorau eraill yn canolbwyntio ar gynlluniau gwariant gweinidogion unigol. Edrychaf ymlaen at weld y broses hon yn ailddechrau os bydd llywodraeth y DU yn troi yn ôl at gadarnhau setliad ein cyllideb ar ddyddiad cynharach. Er hynny, mae un fantais fach i'r pwyllgorau portffolio gan fod y gyllideb ddrafft fanwl wedi'i chyhoeddi bron i dair wythnos yn gynharach nag y byddai fel arall, er bod toriad y Nadolig yn rhan o'r tair wythnos ychwanegol hynny.

I gloi, rwyf yn cadarnhau fy ymrwymiad i ailystyried dyddiadau cyhoeddi'r gyllideb ddrafft os bydd cyhoeddiad y Canghellor ynghylch dyddiadau digwyddiad cyllidol yr hydref yn rhoi digon o amser i ganiatáu amser ychwanegol i'w pharatoi a chraffu arni.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**  
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**  
**Minister for Finance and Local Government**

—  
**Health and Social Care**  
**Committee**

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a**  
**Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—  
**Public Accounts and Public**  
**Administration Committee**

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
Seneddlechyd@senedd.cymru  
senedd.cymru/Seneddlechyd  
SeneddCCGG@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddCCGG  
0300 200 6565

—  
**Senedd Cymru**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddHealth@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddHealth  
SeneddPAPA@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddPAPA  
0300 200 6565

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

7 Gorffennaf 2023

Annwyl Eluned

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Mai 2023 yn darparu gwybodaeth o ran Tîm Ymyrraeth a Chymorth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd), gwaith a chynnydd yn erbyn amcanion a nodwyd yn y gyfundrefn mesurau arbennig, a'r amserlenni ar gyfer gwaith i edrych ar wella atebolrwydd ac adolygu ac adnewyddu'r fframwaith ymyrraeth ac uwchgyfeirio. Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i ddarparu diweddariadau bob chwe mis ar y ddau bwynt olaf ac edrychwn ymlaen at dderbyn y diweddariadau cyntaf ym mis Tachwedd 2023.

Trafododd ein Pwyllgorau eich ymateb yn ein cyfarfod cydamserol ar 25 Mai 2023 wrth i ni ystyried a fyddem am ymgymryd â gwaith mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol yn y Bwrdd Iechyd, ac, os felly, sut.

Rydym wedi cytuno ar y nodau canlynol ar gyfer ein gwaith:

- Cydweithio lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.
- I waith craffu fod yn gymesur, gyda ffocws iddo ac wedi'i amseru'n briodol i ychwanegu gwerth yn hytrach na dyblygu neu wrthdaro â phrosesau eraill sy'n mynd rhagddynt.
- Sicrhau cydbwysedd rhwng craffu cyfreithlon a chydabod pan mae pethau'n gweithio'n dda.

Er mwyn gweithredu'r nodau hyn, rydym wedi cytuno i gynnal briff gwylio gweithredol o ran y sefyllfa yn y Bwrdd Iechyd. Fel cam cyntaf, rydym wedi cytuno i ofyn am ragor o wybodaeth gennych am y materion a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd dros dro y Bwrdd Iechyd i ofyn am ragor o wybodaeth. Pan fyddwn wedi cael y cyfle i ystyried y wybodaeth hon, byddwn yn ystyried a ydym am gynnal sesiynau tystiolaeth lafar a/neu ymweld â Gogledd Cymru i archwilio'r materion hyn ymhellach ac, os felly, pryd.

Byddem yn croesawu ymateb erbyn **18 Awst 2023**.

Yn gywir



Russell George AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal  
Cymdeithasol



Mark Isherwood AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a  
Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ar ôl i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ystyried y sefyllfa ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) ar 25 Mai 2023 a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithaso yn ei llythyr ar 10 Mai 2023, byddem yn croesawu gwybodaeth am y materion isod, Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb **erbyn 18 Awst 2023**.

Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru

---

1. Beth fydd strwythur a phroses Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru / Weinidogol o gynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn y Cynllun Ymateb Sefydliadol i Fesurau Arbennig.

Rôl y tîm Ymyrraeth a Chymorth

---

2. Pa rôl y bydd y Tîm Ymyrraeth a Chymorth yn ei chwarae wrth adrodd ar y cynnydd a gyflawnwyd.

Penodi aelodau i'r Bwrdd dros dro

---

Mae rôl aelodau'r Bwrdd annibynnol yn hanfodol wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Ymateb. Nodwn o bapurau Bwrdd y Bwrdd Iechyd o 25 Mai 2023 (papur 7) fod y chwe aelod annibynnol interim dros dro a benodwyd yn uniongyrchol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Chwefror 2023 wedi'u penodi tan 29 Chwefror 2024. Nodwn fod adroddiadau diweddar yn y cyfryngau wedi codi cwestiynau am benodiad ac ymddiswyddiad dilynol un aelod annibynnol dros dro, gan gynnwys cwestiynau ynghylch pryd y daeth cyflogaeth yr unigolyn hwnnw gyda'r Bwrdd Iechyd i ben.

3. Rhowch wybodaeth am y broses a ddefnyddiwyd i benodi'r aelodau annibynnol dros dro. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am:
  - Sut y canfu Llywodraeth Cymru ddarpar aelodau i'w penodi, a pha feini prawf a ddefnyddiwyd i ganfod addasrwydd y rhai a benodwyd i'r rolau.
  - Pa brosesau sydd ar waith i nodi unrhyw fuddiannau neu wrthdaro buddiannau perthnasol a allai effeithio ar benodiad aelodau annibynnol dros dro, eu gallu i gyflawni'r rôl, neu'r canfyddiad o'u gallu i gyflawni'r rôl. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw drefniadau sydd ar waith ar gyfer datrys unrhyw wrthdaro neu fuddiannau o'r fath sy'n anghydnaws â phenodiad, a/neu dryloywder wrth gofrestru gwrthdaro buddiannau nad ydynt yn atal y penodiad ond sydd, serch hynny, yn berthnasol i allu aelodau'r Bwrdd i gyflawni, neu'r canfyddiad o'u gallu i gyflawni, eu rôl.

- Pa gamau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cymhwysedd yn Atodlen 2 i Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009.
  - Pa adrannau o Lywodraeth Cymru oedd yn rhan o'r broses benodi.
  - Unrhyw wybodaeth arall rydych yn ei hystyried yn berthnasol neu rydych o'r farn fyddai'n ddefnyddiol i ni mewn perthynas â'r penodiadau hyn.
4. Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer monitro perfformiad aelodau dros dro y Bwrdd yn ystod cyfnod eu penodiad.
  5. Amlinellwch pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer sicrhau penodiadau parhaol i'r Bwrdd, gan gynnwys rolau'r Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd ac aelodau annibynnol y bwrdd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am yr amserlenni, dull recriwtio arfaethedig, ac unrhyw feini prawf penodol sy'n benodol i rôl neu feini prawf personol y disgwylir i ymgeiswyr eu dangos.

#### Penodiadau gweithredol

---

6. Byddai'r Pwyllgorau hefyd yn croesawu gwybodaeth am y broses a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer recriwtio penodiad o bwys i rôl y Prif Weithredwr yn y Bwrdd Iechyd.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf: MA/EM/2138/23

Russell George AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
[SeneddHealth@senedd.wales](mailto:SeneddHealth@senedd.wales)

Mark Isherwood AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus  
[SeneddPAPA@senedd.wales](mailto:SeneddPAPA@senedd.wales)

24 Awst 2023

Annwyl Russell a Mark,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf, ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r ddogfen amgaeedig yn cynnwys fy ymateb i bob un o'r pwyntiau.

Gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol i chi, ac rwy'n hapus i roi rhagor o wybodaeth i chi yn ôl yr angen.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



## **1. Beth fydd strwythur a phroses Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru / Weinidogol o gynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn y Cynllun Ymateb Sefydliadol i Fesurau Arbennig.**

### Ymateb

Mae'r fframwaith Mesurau Arbennig yn nodi'n glir y rhesymau dros uwchgyfeirio'r bwrdd iechyd a'r meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau. Bydd hyn yn arwain yr ymyrraeth Mesurau Arbennig ar gyfer gweddill 2023. Bydd yn cael ei adnewyddu ym mis Ionawr 2024 yn dilyn asesiad o'r cynnydd. Caiff blaenoriaethau a ffocws eu pennu ar gylch 90 diwrnod y cytunwyd arno fel yr amlinellir yn y Datganiad Ysgrifenedig ar 6 Gorffennaf 2023 [Datganiad Ysgrifenedig: Mesurau Arbennig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - adroddiad cynnydd chwarterol \(6 Gorffennaf 2023\) | LLYW. CYMRU.](#) Gellir gweld y Fframwaith Mesurau Arbennig drwy'r un ddolen.

Nid yw gosod bwrdd iechyd mewn Mesurau Arbennig yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cymryd drosodd y gwaith o redeg y bwrdd iechyd o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y bwrdd yw hynny o hyd. Rôl Llywodraeth Cymru yw darparu goruchwyliaeth, sicrwydd a her lle bo'n briodol i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol.

Mae Bwrdd Sicrwydd Mesurau Arbennig wedi'i sefydlu, sy'n cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn cefnogi'r bwrdd iechyd i benderfynu pa gamau sy'n angenrheidiol i lywio llwybr effeithiol a chynaliadwy allan o Fesurau Arbennig. Cyfarfu'r bwrdd sicrwydd am yr eildro ar 26 Mai a bydd yn cyfarfod eto ym mis Awst. Bydd y bwrdd sicrwydd hefyd yn fy hysbysu, drwy sianeli llywodraethiant y cytunwyd arnynt, a oes camau priodol yn cael eu cymryd.

Yn ogystal â'r bwrdd sicrwydd, mae'r bwrdd iechyd yn mynychu Bwrdd Perfformiad ac Ansawdd Integredig misol. Mae hyn yn cael ei gadeirio gan Ddirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru ac mae'n darparu asesiad parhaus o'r cynnydd sy'n cael ei wneud. Cydategir hyn gan gyfarfodydd sicrwydd ychwanegol ar feysydd sy'n peri pryder megis gwasanaethau fasnwlaid, offthalmoleg, gofal wedi'i gynllunio ac Ysbyty Glan Clwyd ymhlith eraill. Mae cyfarfodydd wythnosol rhwng swyddogion a staff y bwrdd iechyd. Fel gyda phob bwrdd iechyd, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfarfod JET (cyfarfod y Cyd-dîm Gweithredol) ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn.

Yn bersonol, rwyf yn cadeirio Fforwm Gwella Mesurau Arbennig; mae'r fforwm hwn wedi cyfarfod bedair gwaith. Bydd hwn yn parhau i gyfarfod bob deufis. Drwy'r cyfarfod hwn â Chadeirydd, Aelodau Annibynnol ac Aelodau Gweithredol y Bwrdd yr wyf yn cael sicrwydd, neu fel arall, fod cynnydd yn cael ei wneud. Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS) hefyd yn mynychu'r fforwm hwn, yn ogystal â swyddogion eraill Llywodraeth Cymru.

Rwyf hefyd yn cyfarfod yn fisol yn uniongyrchol â Chadeirydd y bwrdd iechyd lle'r wyf yn trafod cynnydd a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r bwrdd iechyd.

Ble bynnag y bo modd mae'r ddau ohonom yn ymweld â safleoedd amrywiol yn y rhanbarth. Yn fwyaf diweddar, roeddwn i yno rhwng 24 a 26 Gorffennaf 2023 ac ymwelais â'r tair Cymuned Gofal Iechyd Integredig. Ymwelodd y Dirprwy Weinidog â'r rhanbarth ar 2 Awst 2023.

## **2. Pa rôl y bydd y Tîm Ymyrraeth a Chymorth yn ei chwarae wrth adrodd ar y cynnydd a gyflawnwyd.**

### Ymateb

Mae nifer o unigolion yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd i gefnogi'r bwrdd yn ei daith wella. Mae rhai wedi cael eu penodi'n Gynghorwyr Annibynnol ac eraill fel cymorth gweithredol i'r sefydliad. Ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru, hwn yw'r tîm Ymyrraeth a Chymorth. Mae cyfarfodydd rheolaidd â'r bwrdd iechyd ac ar wahân â Llywodraeth Cymru i uwchgyfeirio materion sy'n peri pryder Mae pob aelod o'r tîm yn darparu adroddiad cryno ar ddiwedd pob mis. Mae pum aelod o'r tîm hwn wedi'u comisiynu tan ddiwedd Awst 2023, dau tan fis Medi 2023 a'r tri arall tan fis Mawrth 2024.

Caiff trafodaethau eu cynnal â'r bwrdd iechyd ynghylch y cymorth parhaus y mae arnynt ei angen o fis Medi 2023.

Yn anffodus, bu farw Geraint Evans, un o'r Cynghorwyr Annibynnol yn ddiweddar.

## **3. Rhowch wybodaeth am y broses a ddefnyddiwyd i benodi'r aelodau annibynnol dros dro. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am:**

- **Sut y canfu Llywodraeth Cymru ddarpar aelodau i'w penodi, a pha feini prawf a ddefnyddiwyd i ganfod addasrwydd y rhai a benodwyd i'r rolau.**

### Ymateb

Wrth ystyried gofynion bwrdd newydd posibl ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, roedd swyddogion yn glir ynghylch y priodoleddau a'r sgiliau y byddai angen i'r Cadeirydd newydd a'r Aelodau Annibynnol feddu arnynt. Un o'r prif ofynion oedd yr angen brys i newid y diwylliant ar draws y sefydliad ac roeddwn yn glir bod angen i hyn ddechrau ar frig y sefydliad.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r unigolion hynny a allai, yn seiliedig ar eu gwybodaeth am eu rolau a'u profiad presennol a blaenorol, fod yn addas ar gyfer rôl y Cadeirydd neu'r Aelodau Annibynnol.

Roedd y Cadeirydd Dros Dro eisoes wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer penodiad cyhoeddus ar y lefel hon yn dilyn ei gais i fod yn Is-gadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd ganddo swydd gyhoeddus yn Awdurdod Cyllid Cymru ac mae'n gyn Arweinydd Cyngor. Roedd ei brofiad fel Arweinydd Cyngor, ac fel un o drigolion Gogledd Cymru, yn dangos ei ddealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r bwrdd iechyd.

Y farn oedd ei bod yn bwysig bod pob un a gâi ei benodi yn gallu dangos eu profiad o wasanaethu fel aelodau bwrdd neu ymddiriedolwyr, ac os oes modd, i ddangos

cysylltiad â Gogledd Cymru am eu bod yn preswyllo yno ar hyn o bryd neu oherwydd cysylltiadau proffesiynol, teuluol neu ddiwylliannol blaenorol.

- **Pa brosesau sydd ar waith i nodi unrhyw fuddiannau neu wrthdaro buddiannau perthnasol a allai effeithio ar benodiad aelodau annibynnol dros dro, eu gallu i gyflawni'r rôl, neu'r canfyddiad o'u gallu i gyflawni'r rôl. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw drefniadau sydd ar waith ar gyfer datrys unrhyw wrthdaro neu fuddiannau o'r fath sy'n anghydnaws â phenodiad, a/neu dryloywder wrth gofrestru gwrthdaro buddiannau nad ydynt yn atal y penodiad ond sydd, serch hynny, yn berthnasol i allu aelodau'r Bwrdd i gyflawni, neu'r canfyddiad o'u gallu i gyflawni, eu rôl.**

### Ymateb

Gofynnir i bob penodai cyhoeddus gwblhau ffurflen fonitro wleidyddol a ffurflen gwrthdaro buddiannau wrth gael eu penodi gan yr Uned Penodiadau Cyhoeddus. Yn ogystal, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o'r bwrdd lenwi Ffurflen Datgan Buddiant yn unol â'u polisiâu a'u gweithdrefnau eu hunain. Cofnodir gwybodaeth a ddatgenir ar Gofrestr Datgan Buddiant a gynhelir gan y bwrdd iechyd.

Gellir gweld y Gofrestr Datgan Buddiant ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr drwy'r ddolen ganlynol:

[bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/dosbarth-chwech-rhestri-a-chofrestr/dosbarth-chwech-assets/cofrestr-datganiadau-yngghylch-buddiannau-gan-aelodau-bwrdd-bipbc-2023-24/](http://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/dosbarth-chwech-rhestri-a-chofrestr/dosbarth-chwech-assets/cofrestr-datganiadau-yngghylch-buddiannau-gan-aelodau-bwrdd-bipbc-2023-24/)

Lle y nodir gwrthdrawiad buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig, cymerir camau priodol i liniaru hyn. Yn achos y Cadeirydd dros dro, canfuwyd ei bod yn debygol y byddai gwrthdaro yngghylch ymrwymiad amser gofynnol rôl y Cadeirydd Dros Dro ac wedi hynny fe ymddiswyddodd o'i swydd gydag Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

Lle bo'r gwrthdrawiad gwirioneddol neu ganfyddedig yn ymwneud ag Aelod Annibynnol, mae'r Cadeirydd yn trafod hyn â'r unigolyn dan sylw cyn iddo gael ei benodi ac yn cytuno ar y camau gofynnol i sicrhau bod y bwrdd yn agored ac yn dryloyw yng ngweithrediad y bwrdd ac unrhyw swyddogaethau eraill y gallant eu cyflawni. Bydd y camau gofynnol yn dibynnu ar y gwrthdrawiad posibl a'r rôl sy'n cael ei chyflawni gan yr aelod annibynnol. Gallai hyn gynnwys ymatal rhag unrhyw drafodaethau lle y gallai fod gwrthdrawiad, sicrhau nad ydynt yn aelodau o bwyllgorau lle gall y gwrthdrawiad godi a pheidio ag ymweld â neu ymwneud â gwasanaethau/wardiau neu adrannau penodol.

Mae'r telerau a'r amodau yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gysylltu â'r Cadeirydd ar unwaith os bydd ei amgylchiadau'n newid yn ystod y penodiad. Felly, unwaith eto, yn achos y Cadeirydd dros dro, roedd yn ofynnol iddo gysylltu ag ACC i drafod gwrthdrawiad canfyddedig pan gafodd ei benodi i BIPBC.

- **Pa gamau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cymhwysedd yn Atodlen 2 i Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009.**

#### Ymateb

Roedd yr holl ymgeiswyr yn hysbys i swyddogion yn Llywodraeth Cymru a gofynnwyd iddynt ddarparu bywgraffiad yn manylu ar eu profiad blaenorol.

Yn dilyn penodiad, gwnaed gwiriadau pellach i sicrhau cymhwysedd ar gyfer y rolau. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwiriad adnabod
- Yr Hawl i Weithio
- Gwiriad DBS Sylfaenol
- Cofrestr Ansoffedd a Methdaliad
- Chwilio Rhestr Cyfarwyddwr Gwaharddedig Tŷ'r Cwmnïau

Gwnaed pob penodiad yn amodol ar wiriadau boddhaol a byddai methu â bodloni unrhyw un o'r meini prawf cymhwysedd wedi arwain at derfynu'r penodiad.

- **Pa adrannau o Lywodraeth Cymru oedd yn rhan o'r broses benodi.**

#### Ymateb

Roedd dwy adran yn rhan o'r broses benodi cyn cyflwyno argymhellion i'm swyddfa:

- Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Yr Uned Cyrff Cyhoeddus

- **Unrhyw wybodaeth arall rydych yn ei hystyried yn berthnasol neu rydych o'r farn fyddai'n ddefnyddiol i ni mewn perthynas â'r penodiadau hyn.**

#### Ymateb

Yn unol â'r broses Penodiadau Cyhoeddus, ymgynghorodd swyddogion Llywodraeth Cymru â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus mewn perthynas â'r angen i wneud nifer o benodiadau brys i sefydlogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nododd y swyddogion y byddai angen gwneud y penodiadau heb y gystadleuaeth arferol ac esboniodd y rhesymau dros hyn.

Roedd swyddogion yn cydnabod bod y Cadeirydd yn benodiad sylweddol a fyddai fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnal Gwrandawriad Craffu Cyn Penodi cyn i mi gadarnhau'r penderfyniad fel Gweinidog. Byddwn yn falch o fynychu sesiwn graffu os yw Cadeirydd y Pwyllgor o'r farn bod hyn yn briodol.

#### **4. Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer monitro perfformiad aelodau dros dro y Bwrdd yn ystod cyfnod eu penodiad.**

##### Ymateb

Mae'r broses safonol ar gyfer monitro perfformiad Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd yn cael ei chynnal gan Gadeirydd y bwrdd iechyd hwnnw gyda chefnogaeth gan y sefydliad (er enghraifft y tîm llywodraethiant corfforaethol neu swyddfa ysgrifennydd y bwrdd). Fy rôl i yw pennu amcanion ar gyfer y cadeirydd, cael gwybodaeth am ei berfformiad a chynnal yr arfarniadau perthnasol.

Gan fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn Mesurau Arbennig, mae'r broses ychydig yn wahanol, oherwydd y gwaith craffu ychwanegol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ddarostyngedig iddo.

Rwyf wedi tynnu sylw yn adran un, at y prosesau sydd ar waith i ddwyn y Bwrdd i gyfrif drwy'r Fforwm Gwella Mesurau Arbennig a'm cyfarfodydd misol â'r Cadeirydd dros dro. Drwy'r mecanwaith hwn y byddaf yn monitro perfformiad aelodau'r Bwrdd dros dro. Yn dilyn fy nghyfarfod diweddaraf â'r Cadeirydd dros dro, rwyf wrthi'n cytuno ar nifer o amcanion gydag ef.

#### **5. Amlinellwch pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer sicrhau penodiadau parhaol i'r Bwrdd, gan gynnwys rolau'r Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd ac aelodau annibynnol y bwrdd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am yr amserlenni, dull recriwtio arfaethedig, ac unrhyw feini prawf penodol sy'n benodol i rôl neu feini prawf personol y disgwylir i ymgeiswyr eu dangos**

##### Ymateb

Mae'r broses recriwtio ar gyfer swydd wag yr Is-gadeirydd a dau Aelod Annibynnol yn mynd rhagddi. Gellir dod o hyd i'r hysbysebion a'r pecynnau ymgeisio [yma](#) ac [yma](#). Bydd sesiwn i randdeiliaid ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer, a fydd yn cynnwys unigolion o'r bwrdd iechyd a sefydliadau partner. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan gyfweiliad. Disgwylir i'r ddau gael eu cynnal ym mis Medi er mwyn galluogi aelodau'r bwrdd sylweddol i ymgymryd â'u penodiadau ym mis Hydref.

Bydd ail ymgyrch recriwtio i benodi Cadeirydd sylweddol a thri Aelod Annibynnol yn dechrau yn yr Hydref a bydd aelodau llwyddiannus yn cael eu penodi ym mis Mawrth 2024 pan ddaw telerau'r aelodau dros dro presennol i ben. Nid ydym wedi gorffen penderfynu ar sgiliau a phrofiad gofynnol deiliaid y swydd ar hyn o bryd; bydd hyn yn dibynnu ar ddadansoddiad o'r bwch sgiliau yn dilyn y recriwtio ym mis Gorffennaf.

Mae'n bwysig nodi bod arweinyddiaeth dosturiol yn ofyniad allweddol ar gyfer y swyddi hyn.

Mae penodiadau parhaol am gyfnod o bedair blynedd eisoes wedi'u gwneud i ddwy o'r tair swydd lle mae angen proses enwebu. Aelodau Annibynnol y Brifysgol a'r

Awdurdod Lleol yw'r rhain. Mae penodiad Aelod Annibynnol yr Undebau Llafur hefyd ar fin digwydd.

**6. Byddai'r Pwyllgorau hefyd yn croesawu gwybodaeth am y broses a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer recriwtio penodiad o bwys i rôl y Prif Weithredwr yn y Bwrdd Iechyd.**

Ymateb

Rhoddodd Cadeirydd dros dro y bwrdd iechyd wybod i chi yn ystod ei sesiwn dystiolaeth ar 5 Gorffennaf 2023 y bydd Carol Shillabeer yn parhau yn ei swydd fel y Prif Weithredwr dros dro tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cytunodd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth y bwrdd iechyd ar hyn ym mis Gorffennaf 2023 a'i gyhoeddi i'r bwrdd iechyd ar 21 Gorffennaf 2023.

Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Cadeirydd dros dro i gytuno ar yr amser mwyaf priodol i ddechrau penodi'n barhaol i'r swydd hon.

Sue Tranka  
Prif Swyddog Nyrsio Cymru

31 Mai 2023

Annwyl Sue

### Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: craffu ar ôl deddfu

Mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yn cynnal ymchwiliad er mwyn gwneud gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Mae rhagor o fanylion am gylch gorchwyl yr ymchwiliad ar gael ar ein [gwefan](#).

Ar hyn o bryd, rydym yn casglu tystiolaeth ysgrifenedig, ac rydym yn bwriadu cynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid yn ddiweddarach eleni. Byddwn hefyd yn eich gwahodd chi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sesiwn dystiolaeth lafar maes o law.

Yn y cyfamser, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r eitemau a ganlyn:


1. Copïau o'r adnoddau cynllunio gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddisgrifir ym mharagraff 41 o'r [canllawiau statudol ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio \(Cymru\) 2016 \(fersiwn 2\)](#), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, neu lincs i'r adnoddau hynny.

Os nad oes modd darparu copïau o'r adnoddau hynny, neu lincs iddynt, dylech ddarparu sgrinluniau o'r adnoddau dan sylw a/neu ddisgrifiad llawn o sut maent yn gweithio.

2. Copi o'r canllawiau gweithredol ynghylch defnyddio'r adnoddau a ddisgrifir ym mharagraff 43 o'r canllawiau statudol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon yr eitemau hyn atom erbyn **dydd Gwener 15 Gorffennaf 2023**, a hynny er mwyn rhoi cyfle inni ystyried y wybodaeth dan sylw wrth baratoi i gymryd tystiolaeth gan randdeiliaid.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Russell George". The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke at the end.

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.





Cyf:

Russell George AS  
 Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal  
 Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru  
 Welsh Government

[seneddhealth@senedd.cymru](mailto:seneddhealth@senedd.cymru)

12 Gorffennaf 2023

Annwyl Gadeirydd,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 31 Mai at y Prif Swyddog Nyrsio ynglŷn ag ymchwiliad craffu ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, a gynhelir gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol maes o law. Mae'r Prif Swyddog Nyrsio i ffwrdd o'i gwaith am resymau personol ar hyn o bryd, felly dyma fi'n ymateb yn ei lle.

O ran eich pwynt cyntaf, gweler y dolenni isod at yr adnodd Lefelau Gofal Cymru gwreiddiol sy'n berthnasol i leoliadau meddygol a llawdriniaethau oedolion, a hefyd yr hyn a gafodd ei ddatblygu a'i dreialu ar gyfer lleoliadau pediatrig.

[aagic.gig.cymru/files/rhaglen-staff-nyrsio-cymru-gyfan/published-welsh-levels-of-care-edition-1-welsh-version-updated-july-2019-pdf/](http://aagic.gig.cymru/files/rhaglen-staff-nyrsio-cymru-gyfan/published-welsh-levels-of-care-edition-1-welsh-version-updated-july-2019-pdf/)

[aagic.gig.cymru/files/lefelau-gofal-cymru-pediatreg-drafft/](http://aagic.gig.cymru/files/lefelau-gofal-cymru-pediatreg-drafft/)

O ran eich ail bwynt, mae'r canllawiau gweithredol yr ydych wedi gofyn amdanynt ar gael ar fewnwyd y GIG yn hytrach nag ar y rhyngwyd, ond rwyf wedi eu cynnwys fel atodiadau pdf. Unwaith yn rhagor, mae un ar gyfer wardiau meddygol a llawdriniaethau oedolion sy'n gleifion mewnol, ac un arall ar gyfer pediatreg.

Rydym yn edrych ymlaen at weld y Pwyllgor eto yn yr hydref, gan nodi'r dyddiad 6 Rhagfyr a gynigiwyd yn ddiweddar ar gyfer presenoldeb y Gweinidog a'r Prif Swyddog Nyrsio yn y gwrandawriadau.

Yn gywir,

**Gill Knight**

Nursing Officer/Swyddog Nyrsio  
 Office of the Chief Nursing Officer/Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio  
 Nursing Directorate/Cyfarwyddiaeth Nyrsio  
 Health and Social Services/Y Grwp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
 Welsh Government/ Llywodraeth Cymru  
 E-bost/Email: [Gillian.Knight@llyw.cymru](mailto:Gillian.Knight@llyw.cymru)



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Staff Nyrsio  
Nurse Staffing

# **Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Canllawiau Gweithredol**



## Cynnwys

Rhagair .....	4
Crynodeb Gweithredol .....	5
Trosolwg .....	6
Cyflwyniad .....	6
Rhestr termau .....	6
Beth yw Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)? .....	9
Rolau a chyfrifoldebau .....	9
Bwrdd .....	9
Person neilltuol .....	10
Strwythur rheoli nyrsio .....	11
Nyrs ward /prif nyrs.....	12
Cyfrifo'r lefel staff nyrsio.....	12
Pa wardiau sydd wedi eu cynnwys o dan adran 25B ac adran 25C o'r Ddeddf?.....	12
Beth yw'r dull cyfrifo a ddefnyddir i bennu'r lefel staff nyrsio?.....	13
Pam defnyddio'r ymagwedd drionglog?.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Pa ffynhonnell wybodaeth o fewn y triongli sydd bwysicaf? .....	14
Sut rydym yn triongli'r dystiolaeth? .....	14
Beth yw'r offeryn cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth? .....	14
Beth yw safbwynt proffesiynol? .....	15
Beth yw'r dangosyddion ansawdd? .....	18
Sut wyf yn mesur lefelau tostrwydd cleifion? .....	18
Sut wyf yn defnyddio Lefelau Gofal Cymru?.....	18
Cymryd rhan yn yr archwiliad chwemisol.....	19
Sut mae cyfrifiad y lefel staff nyrsio'n cael ei gofnodi? .....	19
Pryd mae'r lefel staff nyrsio'n cael ei gyfrifo?.....	19
Beth yw'r rhesymau dros ystyried ail-gyfrifo'r Level Staff Nyrsio? .....	21
Cynnal y lefel staff nyrsio.....	21
Pa gamau a gymerir i gynnal y lefel staff nyrsio? .....	21
Beth ddylid ei gynnwys o fewn Fframwaith Gweithredu'r byrddau iechyd? .....	21
Pa gofnodion o'r lefel staff nyrsio sydd eu hangen? .....	22
Sut bydd staff yn gwybod eu bod yn gwneud yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gyfrannu at gynnal y lefel staff nyrsio? .....	22
Beth fydd yn digwydd os na fydd y lefel staff nyrsio'n cael ei gynnal?.....	23

Sut rydym yn hysbysu cleifion ynghylch y lefel staff nyrsio?.....	24
Atodiadau.....	25
Atodiad 1: Canllawiau statudol .....	25
Atodiad 2: Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.....	26
Atodiad 3: Lefelau Gofal Cymru (Rhifyn 1).....	27
Atodiad 4: Canllawiau sut i ddefnyddio System Monitro Gofal Iechyd.....	28
Atodiad 5: Ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried yn ystod y broses gyfrifo .....	29
Atodiad 6: Cofnodi ymagwedd drionglog tuag at adolygu lefel staff nyrsio .....	31
Atodiad 7: Gofynion o fewn y Fframwaith Gweithredol .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Atodiad 8: Cwestiynau cyffredin ar gyfer staff ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion .....	33
Atodiad 9: Templed ar gyfer hysbysu cleifion ynghylch y lefel staff nyrsio.....	36
Atodiad 10: Cwestiynau cyffredin ar gyfer cleifion .....	37
Atodiad 11: Cwestiynau hawdd eu darllen i gleifion.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>

## Gwybodaeth am y Ddogfen

**Teitl:** Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Canllawiau Gweithredol.

**Fersiwn:** Fersiwn 2

**Dyddiad:** Ebrill 2019

**Dyddiad adolygu:** Blynnyddol

**Adolygiad nesaf:** Medi 2020

## Rhagair



Ni yw'r wlad gyntaf yn Ewrop i gynnwys dyletswydd ar fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru i sicrhau bod lefelau staff nyrsio digonol i fodloni anghenion cleifion sydd yn derbyn gofal mewn cyfraith. Mae'r dystiolaeth yn dweud yn glir wrthym fod cael y nifer gywir o nyrsys cofrestredig a'r cymysgedd cywir o sgiliau yn lleihau marwolaethau cleifion ac yn gwella canlyniadau cleifion. Mae sicrhau bod cleifion yn cael safon gofal diogel, o safon uchel yn greiddiol i'r rheswm pam y gwnaethom gefnogi cyflwyno Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru).

Datblygwyd y canllawiau gweithredol anstatudol hyn fel llawlyfr ar gyfer staff yn y GIG o lefel ward i lefel bwrdd, gan atgyfnerthu cynnwys y canllawiau statudol (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017) mewn manylder mwy ymarferol. Mae ffocws y canllawiau ar adrannau 25B a C o'r Ddeddf (cyfrifo a chynnal lefel staff nyrsio), ond mae manylion ar adrannau 25A ac E (rhoi ystyriaeth i ddarparu digon o nyrsys ym mhob lleoliad ac adrodd ar lefelau staff nyrsio) wedi eu cynnwys os oes gorgyffwrdd. Bydd yn galluogi sefydliadau'r GIG i weithredu'r ddyletswydd benodol i gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio yn barhaus ar wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion fel y nodir yn Neddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

Mae hon yn ddogfen fyw fydd yn parhau i gael ei phrofi, ei hadolygu a'i mireinio yn flynyddol yn seiliedig ar eich profiadau chi, y nyrsys fydd yn defnyddio'r ddogfen o ddydd i ddydd.

**Yr Athro Jean White CBE**  
**Prif Swyddog Meddygol (Cymru)/Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru**

## Crynodeb Gweithredol

Ym mis Mawrth 2016, daeth Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn gyfraith, yn ei wneud yn ofynnol i sefydliadau ar draws y GIG gyfrifo a monitro faint o nyrsys sydd eu hangen i ofalu'n sensitif am gleifion. Lluniwyd y Ddeddf i'w galluogi i gael ei gweithredu mewn cyfnodau ac ym mis Awst 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r Ddeddf yn dod i rym ar gyfer Wardiau Meddygol a Llawfeddygol Aciwt ar gyfer Oedolion o fis Ebrill 2018.

Helpodd Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan i lywio'r gwaith o greu'r Ddeddf ar ôl arwain datblygiad y cydrannau angenrheidiol, y dulliau a'r offer oedd yn ofynnol i ragweld lefelau staff nyrsio, dros y 5 mlynedd blaenorol. Cafodd y gwaith sylfaenol pwysig ei ffurfioli yn 2016 trwy sefydlu Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan, a ddyluniwyd i gefnogi GIG Cymru i weithredu'r Ddeddf.

Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Canllawiau Statudol i roi gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddeddf hefyd. Mae'r Canllawiau hyn yn disgrifio'n fanylach y cysyniadau, y dulliau a'r offer a ddefnyddir i gyfrifo lefelau staff nyrsio. Mae'r Canllawiau hyn hefyd yn rhagnodi ymagwedd drionglog tuag at ddod â thair ffynhonnell wybodaeth hanfodol ynghyd y mae'n rhaid eu hystyried er mwyn rhoi sail dystiolaeth gadarn ar gyfer y cyfrifiad. Disgwylir i bob Ward sydd yn cymryd rhan gynnal y triongli bob 6 mis, adolygu lefelau staffio a chytuno ar y sefydlu sydd ei angen. Caiff y broses hon ei llywodraethu gan aelod neilltuol o'r Bwrdd fydd, yn eu tro, yn adrodd ynghylch cydymffurfio â'r Ddeddf i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd.

Cyrhaeddodd Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan garreg filltir ym mis Rhagfyr 2017 wrth gyhoeddi Rhifyn Cyntaf Lefelau Gofal Cymru. Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r dystiolaeth sy'n seiliedig ar ganllawiau clinigol er mwyn i staff adnabod lefel yr angen ar gyfer pob claf unigol. Defnyddir Lefelau Gofal Cymru fel rhan o Archwiliadau chwemisol Staff Nyrsio, sef y prif broses ar gyfer adolygu a chyfrifo lefelau staff nyrsio.

Datblygwyd a dyluniwyd y Canllawiau Gweithredol hyn i roi cyngor i sefydliadau sydd yn cymryd rhan ar ddefnyddio Lefelau Gofal Cymru, cymryd rhan yn yr archwiliadau chwemisol, dadansoddi'r canlyniadau a chynnal y triongli er mwyn cyfrifo ac adrodd ar lefelau staff nyrsio. Yn seiliedig ar adborth gan dimau gweithredol a rhanddeiliaid, diwygiwyd y ddogfen arweiniad hon ym mis Mawrth 2019. Dylid defnyddio'r ddogfen hon i gynorthwyo byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i adolygu eu fframwaith gweithredol a pharhau i gefnogi'r gwaith o'u gweithredu'n lleol.

Bydd canllawiau ar ofynion adrodd y byrddau iechyd o dan y Ddeddf yn cael eu cyhoeddi ar wahân.

### **Ruth Walker**

Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Trosolwg

### Cyflwyniad

Datblygwyd y canllawiau gweithredol hyn gan weithgor ar ran Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan. Roedd gan y gweithgor gynrychiolaeth aelodau o bob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth a chynhaliwyd ymgynghoriad gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio ac aelodau Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan wrth ei ddatblygu.

Diben y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i staff sydd yn gweithio yn sefydliadau GIG Cymru sydd â chyfrifoldebau yn unol ag adrannau 25B a 25C o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Fodd bynnag, wrth ymarfer eu cyfrifoldebau, mae'n rhaid i'r Bwrdd roi ystyriaeth ddyledus i'r ddyletswydd sydd arnynt yn unol ag adran 25A o'r Ddeddf i gael digon o nyrsys i roi digon o amser iddynt ofalu am gleifion yn sensitif pryd bynnag y bydd gwasanaethau nyrsio'n cael eu darparu.

Dylid darllen y llawlyfr hwn ar y cyd â'r dogfennau canlynol:

- Y Canllawiau Statudol (Atodiad 1) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (Atodiad 2);
- Lefelau Gofal Cymru – Argraffiad 1 (Atodiad 3);
- Canllawiau sut i ddefnyddio System Monitro Gofal Iechyd (Atodiad 4); a
- fframwaith gweithredol pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth.

Yn ogystal ag amlinellu a rhoi arweiniad ar gyfrifoldebau pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth – ac yn arbennig y datblygiad gweithredol, cyllid, gweithlu a sefydliadol a'r timau nyrsio – nod y llawlyfr hwn hefyd yw rhoi cymorth penodol i dimau nyrsio clinigol sydd yn cymryd rhan yn yr ymarfer archwilio tostrwydd cenedlaethol ar gyfer wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion. Dylid nodi, o hyn ymlaen, y cyfeirir at Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 fel y *Ddeddf*.

### Rhestr termau

Er mwyn cynorthwyo staff a sicrhau eglurder, mae rhestr termau wedi cael ei llunio. Mae'r geiriau a'r termau a geir yn y rhestr hon wedi eu tanlinellu trwy gydol gweddill y canllawiau gweithredol.

<b>Ward cleifion mewnol meddygol aciwt ar gyfer oedolion</b>	<p>Ardal lle mae cleifion 18 oed neu'n hŷn yn cael triniaeth weithredol ar gyfer anaf neu salwch aciwt sydd yn gofyn am ymyrraeth feddygol wedi ei chynllunio neu frys, a ddarperir gan neu o dan oruchwyliaeth meddyg ymgynghorol.</p> <p>Ystyrir bod cleifion yn derbyn <b>triniaeth weithredol</b> os ydynt yn cael ymyriadau a ragnodwyd gan yr ymgynghorydd a/neu eu tîm, a/neu ymarferwyr uwch ar gyfer eu hanaf neu salwch aciwt.</p>
<b>Ward cleifion mewnol llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion</b>	<p>Ardal lle mae cleifion 18 oed neu'n hŷn yn cael triniaeth weithredol am anaf neu salwch aciwt sydd yn gofyn am ymyrraeth llawfeddygol a gynlluniwyd neu frys, a ddarperir gan neu o dan oruchwyliaeth llawfeddyg ymgynghorol.</p>

	Ystyrir bod cleifion yn cael <b>triniaeth aciwt</b> os ydynt yn cael ymyriadau a ragnodwyd gan yr ymgynghorydd a/neu eu tîm, a/neu ymarferwyr uwch ar gyfer eu hanaf neu salwch aciwt.
<b>Rhestr ddyletswyddau a ddefnyddir</b>	Mae'n cyfeirio at nifer wirioneddol a chymysgedd sgiliau staff ar ddyletswydd, wedi eu rhestru i ddarparu gofal i gleifion. Ni ddylid cynnwys personau ychwanegol fel myfyrwyr a nyrsys ward/prif nyrsys/rheolwyr yn y rhif hwn.
<b>Person neilltuol</b>	Person a neilltuwyd gan y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am gyfrifo lefelau staff nyrsio ar ran y Prif Swyddog Gweithredol/Bwrdd. Dylai'r person neilltuol fod wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ac yn ddigon uchel yn y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth fel Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ar gyfer y Bwrdd.
<b>Hebrwng oddi ar y safle</b>	Y nifer o weithiau y mae'n ofynnol i nyrs a'r staff hynny sydd yn gwneud dyletswyddau nyrsio o dan oruchwyliaeth neu gyfarwyddyd nyrs gofrestredig hebrwng claf i ysbyty/safle arall.
<b>Hebrwng ar y safle</b>	Y nifer o weithiau y mae'n ofynnol i nyrs a'r staff hynny sydd yn gwneud dyletswyddau nyrsio o dan oruchwyliaeth neu gyfarwyddyd nyrs gofrestredig i hebrwng claf i adran arall yn yr ysbyty e.e. apwyntiad OPD neu fynd â'r claf i'r theatr.
<b>Offeryn cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar dystiolaeth</b>	<i>Gweler diffiniad y rhestr termau o Lefelau Gofal Cymru.</i>
<b>Nyrs</b>	Mae hyn yn cyfeirio at nyrs gofrestredig â chofrestriad gweithredol ar isrannau 1 neu 2 o gofrestr NMC.
<b>Lefel staff nyrsio</b>	Mae'r lefel staff nyrsio yn cyfeirio at gyfanswm y nyrsys cofrestredig a'r personau sy'n darparu gofal o dan oruchwyliaeth, neu'n cyflawni dyletswyddau a neilltuwyd iddynt gan nyrs gofrestredig, e.e. gweithiwr cymorth gofal iechyd (HCSW). Mae'r lefel staff nyrsio'n cyfeirio at y sefydliad gofynnol a'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd.
<b>Strwythur rheolaeth nyrsio</b>	Mae hyn yn cyfeirio at yr holl swyddi nyrsio hynny yn y strwythur rheoli sydd rhwng y nyrs ward/prif nyrs a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.
<b>Tostrwydd cleifion</b>	<p>Yn unol â Lefelau Gofal Cymru, diffinnir tostrwydd fel y mesur o ddwyter y gofal nyrsio sy'n ofynnol ar glaf. At ddiben y gwaith hwn, rydym yn defnyddio'r term <i>tostrwydd</i> fel term cyffredinol sy'n cwmpasu termau eraill fel dibyniaeth, dwyster a chymhlethdod i ddisgrifio rhychwant y gofal sydd ei angen ar glaf yn seiliedig ar eu hanghenion holistaidd.</p> <p>Mae 2 brif nodwedd i'r term <i>tostrwydd</i>:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Difrifoldeb, sydd yn dynodi statws corfforol a seicolegol y claf; a</li> <li>2. Dwyster, sydd yn dynodi anghenion nyrsio, cymhlethdod gofal a'r baich gwaith cyfatebol sydd ei angen ar glaf, neu grŵp o gleifion.</li> </ol>
<b>Rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd</b>	<p>Mae'n cyfeirio at nifer a chymysgedd sgiliau staff ar ddyletswydd ar unrhyw adeg sy'n ofynnol i alluogi nyrsys i ddarparu gofal i fodloni'r holl ofynion rhesymol. Ni ddylid cynnwys personau ychwanegol fel myfyrwyr a nyrsys ward/prif nyrsys yn y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd.</p> <p>Cytunir ar y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wrth sefydlu'r lefel staff nyrsio ar gyfer y ward ac mae'n cael ei lofnodi gan y person neilltuol.</p>





<b>Safbwynt proffesiynol</b>	<p>Mae safbwynt proffesiynol yn cyfeirio at gymhwyso gwybodaeth, sgiliau a phrofiad mewn ffordd sydd yn cael ei lywio gan safonau proffesiynol, y gyfraith ac egwyddorion moesegol er mwyn dod i benderfyniad ar y ffactorau sydd yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau clinigol mewn perthynas â diogelwch cleifion.</p>
<b>Dangosyddion ansawdd</b>	<p>Mae'n ofynnol ar fyrddau iechyd/ymddiriedolaethau i ystyried dangosyddion ansawdd sydd yn fesur cadarn o'r ffactorau hynny yr ystyrir eu bod yn arddangos y canlyniadau ar gyfer cleifion a staff. Mae dangosyddion ansawdd yn adlewyrchu canlyniadau cleifion yr ystyrir eu bod yn sensitif i nyrsio.</p>
<b>Gofynion rhesymol</b>	<p>Mae hyn yn cyfeirio at anghenion nyrsio'r claf a'u gweithgareddau byw bob dydd fel yr aseswyd gan dîm nyrsio'r ward, gan ystyried anghenion holistaidd y claf, yn cynnwys gofynion cymdeithasol, seicolegol, ieithyddol, ysbrydol a chorfforol.</p> <p>Mae'r nyrs ward/prif nyrs yn gyfrifol am sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu nodi, eu hasesu a'u dosbarthu gan ddefnyddio disgrifwyr Lefelau Gofal Cymru.</p>
<b>Pob cam rhesymol</b>	<p>Cyfes o gamau cenedlaethol, strategol a gweithredol y mae angen eu cymryd i gynnal y lefel staff nyrsio. Dylid cynnwys y camau hyn o fewn fframwaith gweithredol pob bwrdd iechyd.</p>
<b>Sefydliad gofynnol</b>	<p>Nifer y staff i ddarparu adnoddau digonol i ddefnyddio rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd fydd yn bodloni'r baich gwaith disgwylidig i ddarparu gofal er mwyn bodloni anghenion nyrsio'r cleifion ar gyfer yr ardal. Mae hyn yn cynnwys adnodd o 26.9% i gynnwys holl absenoldebau'r staff a swyddogaethau eraill sydd yn lleihau eu hamser i ofalu am gleifion.</p> <p>Ni ddylid cynnwys personau ychwanegol fel myfyrwyr a nyrsys ward/prif nyrsys yn y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd.</p>
<b>Sensitif</b>	<p>Mae hyn yn cyfeirio at nyrsys yn bod yn ymatebol ac yn sensitif i newid mewn anghenion gofal. Mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth bod llesiant a gofal nyrsio holistaidd y cleifion yn cael eu dylanwadu'n benodol gan y gofal a ddarperir gan nyrs.</p>
<b>Digwyddiad difrifol</b>	<p>Mae digwyddiad difrifol yn ddigwyddiad sydd yn arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• farwolaeth annisgwyl neu y gellir ei hosgoi neu niwed difrifol i un neu fwy o'r cleifion; a/neu</li><li>• digwyddiad byth.</li></ul>
<b>Ychwanegol</b>	<p>Mae hyn yn cyfeirio at yr aelodau hynny o staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr arfaethedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi na ddylid cynnwys pobl fel myfyrwyr, prif nyrsys ward / rheolwyr arwystlon yn y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd.</p>
<b>Triongli/ymagwedd drionglog</b>	<p>Mae hyn yn cyfeirio at y dull a ddefnyddir wrth gyfrifo'r lefel staff nyrsio. Mae triongli yn dechneg sydd yn hwyluso dilysu gwybodaeth o'r tair ffynhonnell ddata canlynol trwy broses o draws-ddilysu:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• tostrwydd cleifion;</li><li>• safbwynt proffesiynol; a</li><li>• dangosyddion ansawdd.</li></ul> <p>Ystyrir data o bob un o'r tair ffynhonnell yma wrth gyfrifo lefel staff nyrsio.</p>

<b>Mynychwyr ward</b>	Cleifion sydd yn mynychu ward ar gyfer gofal nyrsio neu fynychu yn bennaf at ddibenion archwilio neu driniaeth sydd yn cynnwys amser nyrsio. Ni fyddai achosion dydd a chleifion mewnol yn cael eu dosbarthu fel mynychwyr ward (DS gall y diffiniad hwn amrywio o'r diffiniad a ddefnyddir ar gyfer systemau gweinyddu bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth).
<b>Lefelau Gofal Cymru</b>	Offeryn a ddatblygir yn GIG Cymru sydd wedi ei ddilysu i'w ddefnyddio trwy sefydlu sail dystiolaeth ei ddefnyddioldeb mewn lleoliadau clinigol yng Nghymru, a'i bennu gan y Prif Swyddog Nyrsio i fod yn addas ar gyfer ei ddefnyddio.  Linc - <a href="#">Dogfen Lefelau Gofal Cymru</a>

### Beth yw Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru)?

Daeth Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn gyfraith yng Nghymru ym mis Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn gofyn i gyrrff gwasanaeth iechyd wneud darpariaeth ar gyfer lefel staff nyrsio briodol pryd bynnag y mae gwasanaethau nyrsio'n cael eu darparu, ac i sicrhau eu bod yn darparu digon o nyrsys i roi amser iddynt ofalu am gleifion yn sensitif. Mae'r gofyniad hwn yn ymestyn i unrhyw le y mae GIG Cymru'n darparu neu'n comisiynu trydydd parti i ddarparu nyrsys.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys y 5 adran:

- mae 25A yn cyfeirio at gyfrifoldeb trosfwaol y byrddau iechyd/ymddiriedolaethau i ystyried bod digon o nyrsys ym mhob lleoliad;
- mae 25B yn gofyn i fyrddau iechyd/ymddiriedolaethau gyfrifo a chymryd pob cam rhesymol i gynnal y lefel staff nyrsio ym mhob ward feddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion. Mae'n ofynnol ar fyrddau iechyd/ymddiriedolaethau i hysbysu cleifion ynghylch y lefel staff nyrsio ar y wardiau hynny hefyd;
- mae 25C yn gofyn i fyrddau iechyd/ymddiriedolaethau ddefnyddio dull penodol o gyfrifo'r lefel staff nyrsio ym mhob ward feddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion;
- mae 25D yn ymwneud â'r canllawiau statudol sy'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru (Atodiad 1); ac
- mae 25E yn gofyn i fyrddau iechyd/ymddiriedolaethau adrodd ar eu cydymffurfiaeth yn cynnal y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward feddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion.

### Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r cyfrifoldeb ar gyfer bodloni gofynion y Ddeddf yn berthnasol i staff ar bob lefel o'r ward i'r Bwrdd, gyda'r Bwrdd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod y byrddau iechyd/ymddiriedolaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf.

### Bwrdd

Wrth ymarfer eu cyfrifoldebau, mae'n rhaid i'r Bwrdd ystyried a rhoi ystyriaeth ddyledus i'r ddyletswydd arnynt yn unol ag adran 25A o'r Ddeddf i gael digon o nyrsys i roi'r amser i nyrsys ofalu am gleifion yn sensitif ble bynnag y caiff gwasanaethau nyrsio eu darparu.

Yn ogystal, mae'n ofynnol ar aelodau penodol o'r Bwrdd – y Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Cyllid a Gweithredu – yn unol ag adrannau 25B a 25C o'r Ddeddf i roi tystiolaeth a safbwynt proffesiynol i'r Bwrdd i gynorthwyo gyda'i system o wneud penderfyniadau mewn perthynas â chyfrifo a chynnal y lefel staff nyrsio mewn wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion.

Mae'n ofynnol ar y Bwrdd i:

- ddynodi person (neu ddisgrifiad o berson) i fod yn gyfrifol am gyfrifo'r lefel staff nyrsio mewn lleoliadau lle mae adran 25B o'r Ddeddf yn berthnasol;
- pennu pa ardaloedd o'r ward sy'n bodloni diffiniadau o ward cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion;

### Person neilltuol

Mae'r person neilltuol wedi ei awdurdodi o fewn fframwaith llywodraethu'r bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth i gyfrifo'r lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion yn y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth ar ran y Prif Swyddog Gweithredol.

Bydd y person neilltuol yn gofrestredig gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; yn deall cymhlethdodau gosod lefelau staff nyrsio; ac yn ddigon uchel yn y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth.

Mae'r person neilltuol yn gyfrifol am:

- sefydlu'r prosesau a'r amserlen ar gyfer y cylch blynyddol sy'n ofynnol yn eu bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth, gyda chymorth personél nyrsio, cyllid, gweithredol a'r gweithlu priodol, i hwyluso (ail)gyfrifo'r lefel staff nyrsio yn flynyddol;
- cyfrifo nifer y nyrsys cofrestredig – a'r staff hynny sydd yn gwneud dyletswyddau nyrsio o dan oruchwyliaeth neu wedi eu neilltuo iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n briodol i ddarparu gofal sydd yn canolbwyntio ar y person sy'n bodloni'r holl ofynion rhesymol ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy ymarfer safbwynt proffesiynol wrth gymhwyso'r ymagwedd driongllog;
- cynnal a chofnodi'r rhesymeg dros y cyfrifiad. Gwneir hyn bob 6 mis o leiaf neu'n amlach os oes newid yn y defnydd/gwasanaeth sy'n debygol o newid y lefel staff nyrsio, neu os ydynt yn ystyried ei fod yn angenrheidiol; a
- chyflwyno yn ffurfiol y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward i'w Bwrdd yn flynyddol ac yn ogystal, rhoi diweddariad ysgrifenedig i'r Bwrdd yn dilyn ail-gyfrifo'r lefel staff nyrsio ddwywaith y flwyddyn ac ar unrhyw adeg arall ystyrir bod ailgyfrifiad yn angenrheidiol.

Yn ogystal â'r cyfrifoldebau statudol uchod, bydd y person dynodedig yn darparu adroddiad blynyddol ar lefelau staff nyrsio i'r Bwrdd. Bydd hyn yn llywio'r gofyniad statudol o dan adran 25E o'r Ddeddf i adrodd i Lywodraeth Cymru bob 3 blynedd.

### Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Mae'n ofynnol ar Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i sicrhau bod:

- system effeithiol o gynllunio'r gweithlu, yn seiliedig ar System Gynllunio Cymru, wedi ei sefydlu er mwyn darparu cyflenwad parhaus o'r niferoedd gofynnol o staff;

- ceir systemau i sicrhau recriwtio staff yn weithredol ac yn amserol (ar lefel leol, ranbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol); a
- bod strategaethau llesiant a chadw staff effeithiol wedi eu sefydlu sydd yn ystyried Arolwg Staff Cymru y GIG.

### Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Mae'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu ac adolygu fframwaith gweithredol y sefydliad y bydd angen iddo ddisgrifio'r prosesau sy'n ofynnol i:

- alluogi'r defnydd o nyrsio dros dro (banc neu asiantaeth) sydd â'r sgiliau priodol;
- rheoli'r defnydd effeithiol o staff o feysydd eraill yn y sefydliad yn effeithiol;
- rheoli'r broses o gau gwelyau dros dro; a
- rhoi arweiniad ynghylch pryd y gallai newidiadau i lwybr y claf fel ffordd o gynnal lefelau staff nyrsio gael ei ystyried yn briodol.

Yn ogystal â chael eu disgrifio yn fframwaith gweithredu'r bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth, dylid hefyd adlewyrchu'r prosesau hyn ym mholisi cynyddu a chynlluniau parhad busnes y Bwrdd.

### Cyfarwyddwr Cyllid

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn gyfrifol am:

- sicrhau bod y lefel staff nyrsio yn cael ei ariannu o ddyraniad refeniw'r bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth a'i fod yn ystyried pwyntiau cyflog gwirioneddol y staff a gyflogir ar y wardiau lle mae adran 25B yn berthnasol.

### Strwythur rheoli nyrsio

Dylai safbwyntiau'r strwythur rheoli nyrsio ar gyfer pob ward cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol gael eu hystyried gan y person neilltuol pan fyddant yn cyfrifo'r lefel staff nyrsio. Dylai hyn gynnwys rhoi'r wybodaeth iddynt i alluogi'r person neilltuol i ymarfer eu safbwynt proffesiynol wrth gyfrifo'r lefel staff nyrsio.

Ar yr achlysuron prin pan fydd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd yn amrywio mewn ymateb i'r sefyllfa glinigol ar draws y system, dylai'r nyrs ward/prif nyrs – ynghyd ag aelodau eraill a nodwyd o'r strwythur rheoli nyrsio - asesu'r sefyllfa'n barhaus a pharhau i arfarnu'r person neilltuol.

Bydd rolau neilltuol o fewn strwythur rheoli nyrsio'r bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth yn gyfrifol am sicrhau defnydd parhaus o'r system sy'n cael ei sefydlu i adolygu a chofnodi pob achlysur pan fydd nifer y nyrsys sy'n cael eu neilltuo yn amrywio o'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd.

Dylai'r system gofnodi gynnwys mecanwaith ar gyfer cofnodi'r defnydd o staff dros dro, yn cynnwys staff banc ac asiantaeth; a hefyd yr adegau pan fydd staff nyrsio'n cael eu symud dros dro o ardaloedd/dyletswyddau clinigol eraill yn y sefydliad er mwyn cefnogi'r lefel staff nyrsio ar ward.

Bydd rolau neilltuol o fewn strwythur rheoli nyrsio pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth yn gyfrifol am ddilysu a chadarnhau'r data tostrwydd fydd yn cael ei gasglu yn chwemisol neu'n fwy aml os oes angen.

Dylid amlinellu cyfrifoldebau penodol rolau neilltuol yn strwythur rheoli nyrsio pob bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth yn fframwaith gweithredu'r bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth.

### Nyrs ward/prif nyrs

Mae'r nyrs ward/prif nyrs yn gyfrifol am asesu anghenion gofal nyrsio holistaidd y cleifion o dan ddisgrifwyr Lefelau Gofal Cymru fel rhan o broses offeryn cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar dystiolaeth.

Dylent hefyd roi eu safbwynt proffesiynol yn ymwneud â'r lefelau staff nyrsio i'r person neilltuol pan fyddant yn cyfrifo'r lefel staff nyrsio.

Dylai'r nyrs ward/prif nyrs sicrhau eu bod yn defnyddio'r system sydd wedi ei neilltuo gan y bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth i adolygu a chofnodi pob achlysur pan fydd nifer y nyrsys sy'n cael eu defnyddio yn amrywio o'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd, a chynnal y system ar gyfer hysbysu cleifion ynghylch y lefel staff nyrsio.

### Cyfrifo'r lefel staff nyrsio

#### Pa wardiau sydd wedi eu cynnwys o dan adran 25B ac adran 25C o'r Ddeddf?

O Ebrill 2018, mae adran 5B o'r Ddeddf yn berthnasol i wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol ar gyfer oedolion. Mae gan Lywodraeth Cymru'r grym i wneud rheoliadau i ymestyn y ddyletswydd i gyfrifo lefelau staff nyrsio i feysydd eraill yn y dyfodol.

Mae'r canllawiau statudol yn rhoi diffiniadau eang o ward cleifion mewnol meddygol aciwt ar gyfer oedolion a wardiau llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Mae ward cleifion mewnol meddygol aciwt ar gyfer oedolion yn golygu ardal lle mae cleifion 18 oed neu'n hŷn yn derbyn triniaeth weithredol am anaf aciwt neu salwch sydd yn gofyn am ymyrraeth wedi ei gynllunio neu frys, wedi ei ddarparu gan neu o dan oruchwyliaeth meddyg ymgynghorol;
- Mae ward cleifion mewnol llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion yn golygu ardal lle mae cleifion 18 oed neu'n hŷn yn derbyn triniaeth weithredol am anaf neu salwch aciwt sydd yn gofyn naill ai am lawdriniaeth wedi ei chynllunio neu frys, wedi ei darparu gan neu o dan oruchwyliaeth llawfeddyg ymgynghorol.

Mae rhestr o'r mathau o wardiau sydd wedi eu heithrio ar gael yn y canllawiau statudol (Atodiad 1).

Bydd strwythur rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan yn darparu fforwm i alluogi adolygu gan gymheiriaid yn ymwneud â nodweddion wardiau lle mae ansicrwydd ynghylch a yw adran 25B yn berthnasol. Mae trafodaethau cychwynnol yn y fforwm hwn wedi dynodi, os oes ansicrwydd o'r fath yn bodoli, bod canolbwyntio ar '**ddiben sylfaenol**' y ward yn rhoi ymagwedd ddefnyddiol tuag at bennu a yw ward yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant. Mae'n debygol y bydd rhifynnau o'r llawlyfr hwn yn y dyfodol yn gallu rhoi mwy o eglurder wrth fynd trwy'r materion hyn yn fanylach. Fodd bynnag, y bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth unigol sy'n gyfrifol yn y pen draw am bennu pa wardiau sy'n bodloni'r diffiniadau hyn a dylid

cyflwyno'r penderfyniadau yn ymwneud â pha wardiau sy'n cael eu cynnwys a'u heithrio i'r Bwrdd.


### Beth yw'r dull cyfrifo a ddefnyddir i bennu'r lefel staff nyrsio?

Mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth yng Nghymru gyfrifo nifer y nyrsys – a'r staff hynny sydd yn gwneud dyletswyddau nyrsio o dan oruchwyliaeth neu a ddirprwyir iddynt gan nyrs gofrestrdedig – sy'n ofynnol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf ac i fodloni anghenion holistaidd cleifion, ar bob ward feddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion.

Defnyddir ymagwedd drionglog ar gyfer y cyfrifiad hwn, gan ddefnyddio tair ffynhonnell wybodaeth i bennu'r lefel staff nyrsio sy'n ofynnol. Yn y sefyllfa hon, mae'r wybodaeth sydd wedi ei throngli yn ansoddol ac yn feintiol o ran natur (gweler Ffigur 1). Dylai'r ymagwedd drionglog gynnwys:

- safbwynt proffesiynol;
- tostrwydd cleifion – defnyddio'r offeryn cynllunio gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bennu'r lefel staff nyrsio fydd yn bodloni'r ofynion gofal rhesymol; a
- dangosyddion ansawdd - ystyried y graddau y mae'n hysbys bod llesiant cleifion yn sensitif i ddarparu gofal gan nyrs (h.y. gwallau yn gweinyddu meddyginiaeth, cleifion yn cwmpo, briwiau gwasgedd, cwynion am ofal nyrsio). Yn ogystal â'r dangosyddion hyn, gallai'r person dynodedig ystyried unrhyw ddangosydd arall sydd yn sensitif i'r lefel staff nyrsio y maent yn ei ystyried yn briodol ar gyfer y ward lle mae'r cyfrifiad yn cael ei gynnal.

### **Ffigur 1 – Ymagwedd drionglog tuag at gyfrifo lefelau staff nyrsio ar wardiau meddygol a llawfeddygol.**



Mae'n ofynnol ar y person neilltuol ddefnyddio tystiolaeth, gan ddefnyddio ymagwedd drionglog, i bennu'r lefel staff nyrsio.

Bydd y person dynodedig yn cyfrifo'r lefel staff nyrsio bob 6 mis o leiaf ac yn amlach os bydd y defnydd o'r ward yn newid y lefel staff nyrsio, neu os yw'r person neilltuol o'r farn ei fod yn angenrheidiol. Mae'n rhaid cofnodi'r dystiolaeth a'r rhesymeg a ddefnyddir i bennu'r lefel staff nyrsio. Bydd y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn flynyddol, ynghyd ag adroddiad blynyddol yn amlinellu safle'r Bwrdd/y camau a gynllunnir mewn perthynas â'r Ddeddf. Bydd canllawiau mewn perthynas â'r broses adrodd gan

gynnwys templedi y cytunwyd arnynt yn genedlaethol yn cael eu cyhoeddi fel dogfen ar wahân.

Darperir adroddiadau ysgrifenedig os oes newid i'r defnydd/gwasanaeth sydd wedi arwain at newid i'r lefel staff nyrsio ar gyfer y ward.

### Pa ffynhonnell wybodaeth yn y triongli sydd bwysicaf?

Yn unol â'r graff ar yr ymagwedd drionglog (Ffigur 1), rhoddir pwysoliad cyfartal i'r holl wybodaeth sydd yn llywio'r broses. Mae'r canllawiau yn glir nad oes unrhyw hierarchaeth wedi ei bennu ymlaen llaw yn ystod y broses gyfrifo o ran y dystiolaeth. Bydd y person neilltuo! yn penderfynu ar hynny yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r holl wybodaeth sy'n cael ei chasglu am y ward. Er enghraifft, gallai'r data tostrwydd awgrymu bod ward wedi ei gorsefydlu ond bod gan y ward lawer o ystafelloedd unigol a phoblogaeth o gleifion agored i niwed sydd mewn perygl o syrthio fel y nodir gan adolygiad o'r data ansawdd. Byddai'n rhesymol yn yr enghraifft hon i'r safbwynt proffesiynol a'r dangosyddion ansawdd fod yn ffactorau pennu o ran sefydlu'r lefel staff nyrsio.

### Sut rydym yn triongli'r dystiolaeth?

Dylid adolygu'r holl wybodaeth a gesglir yn annibynnol ac yna'i dehongli gyda'i gilydd er mwyn dod i benderfyniad gwybodus am y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward.

- I ddechrau, cymhwyswch wiriad synnwyr i'r wybodaeth a amlinellir yn y triongli.
  - A oes unrhyw anghywirdeb neu hepgoriadau amlwg?
  - A yw'n rhoi darlun cywir o'r ward y mae'n berthnasol iddi?
- Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud?
  - Edrychwch ar y wybodaeth ansoddol a meintioli a gofynnwch gwestiynau allweddol. Er enghraifft, beth mae'r data'n ei ddweud wrthym am faich gwaith y ward a chymysgedd sgiliau'r staff sydd ei angen?
- Beth yw arwyddocâd y canlyniadau?
  - Ar ôl penderfynu a yw'r wybodaeth yn ddibynadwy ac edrych ar yr hyn y mae'n ei wneud, bydd angen i ni benderfynu faint o bwysau i'w roi i'r wybodaeth honno wrth wneud penderfyniad. Hynny yw, pa mor bwysig yw'r wybodaeth honno wrth helpu i bennu niferoedd staff? Er enghraifft, gallai ward lle mae mynychwyr ward bob dydd fod yn fwy arwyddocaol na nifer isel o friwiau gwasgedd a ddatblygwyd yn yr ysbyty.
- Dylid pennu'r lefel staff nyrsio gan ddefnyddio tair ffynhonnell wybodaeth: safbwynt proffesiynol; tostrwydd cleifion; a dangosyddion ansawdd.
- Dylai'r cyfrifiad gael ei lywio gan y nyrsys cofrestredig ar y ward ynghyd â staff yn y strwythur rheoli nyrsio ar gyfer y ward.
- Mae'n rhaid i'r person neilltuo! gael gwybod y rhesymeg y tu ôl i'r cyfrifiad, mae'n rhaid iddynt gadarnhau'r cyfrifiad yn seiliedig ar y flaenoriaeth a roddwyd i'r wybodaeth honno, a gwneud argymhelliad i'r Bwrdd yn ymwneud â'r lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward feddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion.

### Beth yw'r offeryn cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar dystiolaeth?

Mae offer cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar dystiolaeth yn helpu rheolwyr i bennu pa alw fydd am wasanaethau. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrifo pa lefel o staff sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Mewn gofal iechyd, mae'n anodd rhagweld y galw, ond

mae offer wedi cael eu datblygu i fesur lefelau tostrwydd cleifion sydd yn rhoi arwydd o raddau'r gofal sydd ei angen i fodloni eu gofynion gofal rhesymol. Bydd y wybodaeth hon yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth a ddefnyddir i gyfrifo'r lefel staff nyrzio. Yn unol â'r cyfrifoldebau a amlinellir yn y Ddeddf, mae pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth wedi cael ei hysbysu gan swyddfa'r Prif Swyddog Nyrzio (CNO) mai'r offeryn cynllunio'r gweithlu yn seiliedig ar dystiolaeth i gael ei ddefnyddio yw Lefelau Gofal Cymru. Er 2014, mae gwaith wedi cael ei wneud i ddatblygu a phrofi Lefelau Gofal Cymru i'w alluogi i gael ei ddefnyddio ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion i asesu tostrwydd cleifion (Atodiad 3).

Mae cipio data tostrwydd ar draws pob ward cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion yn GIG Cymru yn digwydd yn chwemisol ym mis Ionawr a Mehefin yn unol â chyfarwyddyd Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrzio'r GIG. Rhagwelir y bydd y mesuriad tostrwydd hwn yn nodi tueddiadau tymhorol mewn ymateb i ddemograffeg ac anghenion gofal iechyd newidiol. Bydd y wybodaeth hon, pan gaiff ei defnyddio fel rhan o ymagwedd drionglog ynghyd â defnyddio dangosyddion ansawdd a safbwynt proffesiynol yn pennu'r lefel staff nyrzio ar gyfer y ward.

### **Beth yw safbwynt proffesiynol?**

Mae'n ofynnol ar y person neilltuol ymarfer safbwynt proffesiynol wrth gyfrifo'r lefel staff nyrzio ar gyfer unrhyw ardal ward.

Mae'r canllawiau statudol yn disgrifio rhai o'r ystyriaethau y gellir eu hystyried wrth ymarfer eu safbwynt proffesiynol, fel y rhestrir isod. Yn ogystal, mae'n ofynnol ar y person neilltuol i ystyried canllawiau, egwyddorion, ymchwil a safonau arfer gorau presennol staff nyrzio proffesiynol arbenigol perthnasol er mwyn llywio eu penderfyniadau.

#### **1) Cymwysterau, cymwyseddau, sgiliau a phrofiad nyrsys sy'n darparu gofal i gleifion.**

Mae hon yn gydran hanfodol sydd yn dylanwadu ar niferoedd staffio. Gall sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau o'r fath yn eu tro gael eu llywio gan safonau arfer gorau fel yr esbonnir uchod, gyda'r nod o'r nyrsys yn y sefydliad yn gymwys gyda'r sgiliau gofynnol i ofalu am gleifion yn sensitif a bodloni anghenion gofal clinigol penodol eu cleifion. Dylai cynllunio'r gweithlu a sefydliadau gofynnol ystyried yr angen i ddarparu lefel briodol o sgiliau a gwybodaeth broffesiynol ac ymarferol gyda ffocws clinigol ar gyfer y gweithlu. Mae'r canllawiau hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y sefydliadau gofynnol yn galluogi'r gweithlu i gyflawni lefelau gorfodol o ofynion hyfforddiant. Mae hyn yn golygu y dylid ystyried cynllunio'r gweithlu yn fanwl a strwythuredig a chyfrifo'r adnodd angenrheidiol i gyflawni lefelau gofynnol y cymwyseddau, yn ogystal â chydymffurfio â hyfforddiant gofodol a statudol.

#### **2) Effaith staff dros dro ar y lefel staff nyrzio.**

Gall pa mor gyfarwydd yw aelodau o'r staff â systemau a phrosesau ward/sefydliadol effeithio ar lefel eu heffeithlonrwydd yn cyflawni eu gwaith ac yn cyflenwi gofal parhaus i gleifion. Bydd angen felly ystyried lefelau swyddi gwag a phatrymau hanesyddol diweddar yn ymwneud â defnyddio staff dros dro wrth gyfrifo'r lefel staff nyrzio. Gan fod hyn yn sefyllfa sydd yn gallu newid, dylai hyn hefyd fod yn ystyriaeth ar gyfer ysgogi sefydlu adolygiadau y tu hwnt i'r cylch chwemisol arferol.



### 3) **Effaith ystyriaethau nyrs ynghylch anghenion diwylliannol claf.**

Gall ymateb i arferion diwylliannol a chrefyddol penodol (e.e. wrth ddarparu gofal diwedd oes) gymryd cryn amser. Os oes niferoedd sylweddol o gleifion â lefelau uwch o anghenion nyrsio holistaidd yn cael gofal ar ward benodol, bydd angen i'r person neilltuol ddangos sut y maent wedi ystyried yr anghenion penodol hyn wrth gyfrifo'r lefel staff nyrsio er mwyn i'r tîm allu darparu gofal sensitif i'w holl gleifion.

### 4) **Amodau deinameg tîm aml-broffesiynol.**

Gall anghenion gofal cymhleth, sydd yn gofyn am ymagwedd tîm amlddisgyblaethol, ei wneud yn ofynnol i dîm nyrsio fod yn gysylltiedig â gwaith cydlynu gofal anuniongyrchol sylweddol. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod nodau a rennir; a darpariaeth gofal effeithiol a sensitif gan bob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol, wedi ei gyflenwi'n brydlon. Gall y gwaith cydlynu gofal anuniongyrchol hwn fod yn heriol i'w feintoli ond mae'n aml yn gofyn am wneud penderfyniadau medrus ac arbenigol a gall gymryd amser. Yn hynny o beth, bydd angen iddo gael ei ystyried yn ofalus gan y person neilltuol.

### 5) **Effaith bosibl cyflwr a chynllun ffisegol ward ar ofal nyrsio.**

Bydd y cynllun a nodweddion ffisegol eraill ardal glinigol yn effeithio ar effeithlonrwydd y defnydd o'r oriau nyrsio sydd ar gael ar unrhyw adeg. Er enghraifft, gall y ffaith fod cleifion yn cael gofal mewn ystafelloedd unigol neu ardaloedd gyda sawl gwely ddylanwadu ar faint o gleifion y gellir eu harsylwi a'u cadw'n ddiogel gan un aelod o staff; a gall lleoliad y driniaeth, meddyginiaeth, storio a golchfeydd yn yr ardal glinigol effeithio ar yr amser nad yw'n gynhyrchiol os oes yn rhaid i aelodau o'r staff gerdded pellteroedd mawr dro ar ôl tro i gael cyflenwadau hanfodol neu baratoi meddyginiaethau.

### 6) **Trosiant cleifion sydd yn derbyn gofal a deiliadaeth gyffredinol gwelyau.**

Mae'r rhan fwyaf o wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion yn darparu gofal cleifion mewnol i grŵp o gleifion sydd yn newid yn aml. Gall lefel yr amrywiaeth o ran natur a'r math o weithgaredd sydd yn ychwanegol i ddarparu gofal yn sensitif i'r cleifion sydd yn y gwely fod yn sylweddol ac yn aml yn ddibynnol ar natur yr arbenigedd. Bydd gan rai wardiau niferoedd uchel o gleifion sy'n dychwelyd i'r ward i gael archwiliad ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, gan felly osgoi aros am amser hir yn yr ysbyty tra'n cadw cyswllt clinigol/drws agored ar gyfer y claf am gyfnod byr ar ôl eu rhyddhau. Bydd rhai yn cynnal gweithdrefnau ar y ward fel ymagwedd fwy effeithlon tuag at ofal na threfnu derbyn i'r ysbyty. Mewn geiriau eraill, gall nifer y cleifion sydd yn cael eu derbyn a'u rhyddhau mewn un diwrnod - sydd yn cynrychioli cyfnod o reoli gofal a chyfathrebu dwys gyda'r claf ac yn aml, rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol - fod yn arbennig o uchel.

Er eu bod yn cael eu hadlewyrchu i raddau trwy ganfyddiadau archwiliad tostrwydd Lefelau Gofal Cymru, efallai nad yw amrywiadau o'r fath yn natur a'r math o weithgaredd yn cael ei gyfleu'n llawn ac felly gall fod angen ei adlewyrchu yn y safbwynt proffesiynol a roddir gan y person neilltuol.

**7) Gofal a ddarperir i gleifion gan staff eraill neu weithwyr iechyd proffesiynol, fel gweithwyr cymorth gofal iechyd.**

Bydd natur anghenion gofal y cleifion ym mhob maes clinigol yn dylanwadu ar y niferoedd a'r cymysgedd o sgiliau – yn cynnwys gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau - y lefel staff nyrzio. Yn ogystal, gall cyfrifoldebau rôl staff o dimau eraill yng ngweithlu'r ysbyty (e.e. cyfleusterau gwesty, porthorion, cofnodion meddygol) effeithio ar y dyletswyddau y mae'n ofynnol ar dîm nyrzio'r ward ei wneud er mwyn sicrhau darpariaeth gofal sensitif. Gall hyn wedyn effeithio hefyd ar y lefel staff nyrzio y bydd y person neilltuol yn ei gyfrifo.

**8) Unrhyw ofynion a nodir gan reoleiddiwr i gefnogi myfyrwyr a dysgwyr.**

Mae sicrhau amgylchedd dysgu cadarn ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd proffesiynol wedi eu comisiynu yn flaenoriaeth i'r GIG yng Nghymru. Trwy'r llwybr hwn y bydd y gofal a ddarperir yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno gan nyrsys sydd wedi cael yr hyfforddiant, yr addysg a'r sgiliau priodol fydd ar gael mewn niferoedd digonol i fodloni gofynion gweithlu GIG Cymru. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd creu amgylchedd dysgu lle gellir neilltuo amser i addysgu, goruchwyllo a mentora myfyrwyr. Dylai nifer y lleoliadau myfyrwyr sydd wedi eu neilltuo ym mhob maes clinigol fod yn ystyriaeth bwysig wrth gyfrifo'r lefelau staff nyrzio, er mwyn sicrhau y gellir cefnogi pob myfyrwr yn ddigonol yn ymarferol.

**9) Y graddau y mae'n ofynnol ar nyrsys sy'n darparu gofal wneud swyddogaethau gweinyddol.**

Yn yr un modd ag Adran 7 uchod, bydd cwmpas y cyfrifoldebau sydd gan y tîm nyrzio yn dylanwadu ar nifer a chymysgedd sgiliau'r sefydliad gofynnol. Yn bwysig iawn, bydd y person neilltuol yn ystyried cymysgedd sgiliau ac egwyddorion cyflwyno gofal iechyd gofalus wrth gyfrifo'r rolau sydd eu hangen ar dîm yn eu sefydliad gofynnol.

**10) Cymhlethdod anghenion cleifion yn ogystal â'u hanghenion nyrzio meddygol neu lawfeddygol, fel cleifion ag anableddau dysgu.**

Mae'n rhaid i'r person neilltuol ystyried anghenion holistaidd unigol cleifion yn ogystal â'r hyn y mae eu cyflwr meddygol neu lawfeddygol yn ei ddangos. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i anghenion gofal ychwanegol penodol cleifion, er enghraifft, anawsterau symudedd, nam gwybyddol neu anawsterau dysgu, gael eu hystyried wrth gyfrifo'r lefel staff nyrzio.

**11) Cyflwyno'r cynnig gweithredol o ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.**

Wrth gyfrifo'r lefel staff nyrzio, bydd angen i'r person neilltuol ddangos bod ystyriaeth benodol wedi cael ei roi i ddarparu gofal a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg, fel rhan o ofynion fframwaith strategol *Mwy na Geiriau* Llywodraeth Cymru. Gallai hyn effeithio'n arbennig ar ddefnyddio staff y sefydliad i sicrhau bod argaeledd sgiliau Cymraeg ymysg y staff ar ddyletswydd ar unrhyw adeg yn gallu adlewyrchu anghenion cleifion mewn maes clinigol penodol.

Mae rhan o'r ymagwedd driongli yn cynnwys ystyried y data sydd ar gael sydd yn cysylltu ag agweddau uchod safbwynt proffesiynol. Er enghraifft, cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol, swyddi gwag a chyfraddau salwch, defnydd o staff dros dro, defnydd o welyau a/neu adborth myfyrwyr.

### Beth yw'r dangosyddion ansawdd?

Mae rhan o'r ymagwedd driongli yn cynnwys ystyried y dangosyddion ansawdd hynny sydd yn arbennig o sensitif i ofal a ddarperir gan nyrs. Er mwyn lleihau baich mesur, dylid defnyddio dangosyddion ansawdd sydd â ffynhonnell ddata wedi ei sefydlu ac mae'r Ddeddf yn cynghori bod y person neilltuol yn ystyried y dangosyddion ansawdd canlynol gan ei fod wedi ei ganfod bod gan y rhain gysylltiad â lefelau staffio isel:

- **Cleifion yn cwmpo** – unrhyw gwmp y mae claf wedi ei brofi yn ystod eu cyfnod ar y ward;
- **Briwiau gwasgedd** - cyfanswm y briwiau gwasgedd a gafwyd yn yr ysbyty y credir eu bod wedi datblygu tra bod claf ar y ward; a
- **Gwallau meddyginiaeth** – unrhyw wall wrth baratoi, gweinyddu neu hepgor meddyginiaeth gan staff nyrsio (mae hyn yn cynnwys meddyginiaeth yn ymwneud â digwyddiadau byth).
- **Cwynion** - yn gyfan gwbl neu'n rhannol am ofal a ddarperir i gleifion gan nyrsys a wneir yn unol â'r rheoliadau cwynion.

Yn ogystal â'r dangosyddion ansawdd a restrwyd uchod, gellir ystyried dangosyddion ansawdd eraill sydd yn sensitif i'r lefel staff nyrsio yn briodol. Mae'r canllawiau statudol yn awgrymu y gellir ystyried: adborth cleifion, anghenion gofal heb eu bodloni; methiant i ymateb i ddirywiad claf; llesiant staff; gallu staff i gymryd gwyliau blynyddol; staff yn cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol; a staff yn cydymffurfio ag adolygiadau datblygu perfformiad i gyd gael eu hystyried i fod yn berthnasol.

### Sut wyf yn mesur lefelau tostrwydd cleifion?

Mae'r nyrs ward/prif nyrs yn gyfrifol am sicrhau bod yr anghenion cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol a gofal corfforol yn cael eu hasesu a'u dosbarthu gan ddefnyddio disgrifwyr Lefelau Gofal Cymru.

Mae Lefelau Gofal Cymru yn cynnwys 5 lefel tostrwydd yn amrywio o Lefel 1 lle mae cyflwr y claf yn sefydlog ac yn rhagweladwy ac angen gofal nyrsio arferol, i Lefel 5 lle mae claf yn ansefydlog iawn ac mewn perygl o fod angen lefel ddwys o ofal nyrsio parhaus ar sail 1:1.

Mae Lefelau Gofal Cymru wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

<b>Lefel 5</b>	<b>Gofal un i un</b> – mae angen arsylwi a goruchwyliaeth nyrsio un i un parhaus o leiaf, 24 awr y dydd.
<b>Lefel 4</b>	<b>Gofal brys</b> – mae'r claf mewn cyflwr ansefydlog ac anrhagweladwy iawn naill ai'n ymwneud â'u problem sylfaenol neu ffactorau cysylltiedig eraill sy'n gwaethygu.
<b>Lefel 3</b>	<b>Gofal cymhleth</b> – gall fod gan y claf nifer o broblemau a nodwyd, rhai sydd yn rhyngweithio, sy'n ei wneud yn fwy anodd rhagweld canlyniad unrhyw driniaeth unigol.
<b>Lefel 2</b>	<b>Llwybrau gofal</b> – mae gan y claf broblem wedi ei diffinio'n glir ond gall fod nifer fach o ffactorau ychwanegol sy'n effeithio ar y ffordd y caiff triniaeth ei darparu.
<b>Lefel 1</b>	<b>Gofal arferol</b> – mae gan y claf broblem wedi ei nodi'n glir, heb lawer o ffactorau eraill sy'n cymhlethu'r sefyllfa.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i fesur tostrwydd cleifion a dibyniaeth gan ddefnyddio'r Lefelau Gofal yng Nghymru ar gael yn y dogfen Lefelau Gofal Cymru – Argraffiad 1 (Atodiad 3).

### Cymryd rhan yn yr archwiliad chwemisol

At ddiben yr archwiliad chwemisol, mae'n rhaid i'r data gael ei gasglu yn ystod misoedd Ionawr a Mehefin am 15:00 awr bob dydd yn ystod misoedd yr archwiliad fel y nodir gan y Prif Swyddog Meddygol. Po fwyaf o ddata sy'n cael ei gasglu, ceir darlun mwy cadarn a dibynadwy o faich achos ward.

Mae'n rhaid cofnodi data ar bob claf, 7 diwrnod yr wythnos, ar gyfer y mis calendr llawn ar gyfer cyfnod yr archwiliad tostrwydd.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i fewnbynnu a sicrhau ansawdd y data aciwtedd fel rhan o'r archwiliad dwywaith y flwyddyn ar gael yn y canllawiau sut i ddefnyddio System Monitro Gofal Iechyd (Atodiad 4).

### Sut mae cyfrifiad y lefel staff nyrsio'n cael ei gofnodi?

Dylai pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth ddatblygu systemau ar gyfer cofnodi'r dystiolaeth a ddefnyddir a'r rhesymeg a ddefnyddir wrth gyfrifo'r lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion.

Mae Atodiad 5 yn darparu rhestr wirio o'r ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried ac mae atodiad 6 yn darparu templed ar gyfer cofnodi'r cyfrifiad a'r broses gwneud penderfyniadau a gynhaliwyd yn ystod y broses gyfrifo.

### Pryd mae'r lefel staff nyrsio'n cael ei gyfrifo?

Dylai cyfrifiad chwemisol arferol y lefel staff nyrsio ddigwydd tua Mawrth/Ebrill ac Awst/Medi bob blwyddyn. Mae'r amserlen hon yn ystyried y data tostrwydd chwemisol ar draws pob ward cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion a gynhelir ym mis Ionawr a Mehefin yn ôl cyfarwyddyd Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio'r GIG a'r amser y mae'n ei gymryd i brosesu a chyhoeddi'r data.

Mae'r amserlen ganlynol yn rhoi canllaw ar gyfer cynorthwyo pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth i bennu cylch blynyddol y camau sy'n ofynnol o dan Ddeddf Lefelau Staff Nyrso (Cymru).

<b>Ionawr</b>	- Archwiliad tostrwydd yn cael ei gynnal.	<p>Cyfleu a monitro data perthnasol yn ymwneud â'r dangosyddion ansawdd a'r meini prawf safbwynt proffesiynol y cytunwyd arnynt. Hefyd, adolygiad parhaus a chofnodi unrhyw amrywiaeth o'r rhestrau dyletswyddau a gynlluniwyd.</p> <p>Yn ogystal, dylai Bwrdd y bwrdd iechyd (neu'r ymddiriedolaeth) dderbyn diweddariad ysgrifenedig o lefel staff nyrso pob ward feddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion unigol pan fo newid defnydd / gwasanaeth wedi arwain at newid lefel staff nyrso, neu os yw'r person neilltuol yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol.</p> <p>(Gellir darparu'r diweddariadau i'r Bwrdd trwy is-bwyllgor dirprwyedig ffurfiol)</p>
<b>Chwefror</b>	- Dilysu a chymeradwyo data archwiliad tostrwydd mis Ionawr.	
<b>Mawrth</b>	- Data archwiliad tostrwydd Ionawr ar gael i'r byrddau lechyd.  - Byrddau lechyd i ddechrau'r broses o ail-gyfrifo'r lefel staff nyrso gan ddefnyddio'r dull triongli.	
<b>Ebrill</b>	- Byrddau iechyd i gwblhau'r lefel staff nyrso.  - Byrddau iechyd i gymryd yr adroddiad blynyddol i'r bwrdd datblygu a/neu'r pwyllgor cytunedig.  - Byrddau iechyd i gymryd yr ailgyfrifiad dwywaith y flwyddyn o'r lefel staff nyrso i'r bwrdd datblygu a/neu'r pwyllgor cytunedig.	
<b>Mai</b>	- Cyflwyniad ffurfiol o'r adroddiad blynyddol i'r Bwrdd (25E).  - Diweddariad ffurfiol o'r ailgyfrifiad dwywaith y flwyddyn o'r lefel staff nyrso yn uniongyrchol i'r Bwrdd neu drwy bwyllgor cytunedig.	
<b>Mehefin</b>	- Archwiliad tostrwydd yn cael ei gynnal.	
<b>Gorffennaf</b>	- Dilysu a chymeradwyo data archwiliad tostrwydd Mehefin.	
<b>Awst</b>	- Data archwiliad tostrwydd Mehefin ar gael i'r byrddau lechyd.  - Byrddau lechyd i ddechrau'r broses o ail-gyfrifo'r lefel staff nyrso gan ddefnyddio'r dull triongli.	
<b>Medi</b>	- Byrddau iechyd i gwblhau'r lefel staff nyrso.	
<b>Hydref</b>	- Byrddau iechyd i gyflwyno'r ailgyfrifiad dwywaith y flwyddyn o'r lefel staff nyrso i'r Bwrdd datblygiadol a/neu'r pwyllgor y cytunwyd arno.	
<b>Tachwedd</b>	- Cyflwyniad ffurfiol blynyddol gan y person neilltuol o lefel staff nyrso pob ward oedolyn aciwt meddygol a llawfeddygol i Fwrdd y bwrdd iechyd (neu'r Ymddiriedolaeth).	
<b>Rhagfyr</b>		

NODYN: Mae'r amserlen yn nodi'r camau i'w cymryd gan bob bwrdd iechyd a bydd yn cael ei adolygu.

## Beth yw'r rhesymau dros ystyried ail-gyfrifo'r Lefel Staff Nyrsio?

Cytunwyd ar y rhestr ganlynol o ffactorau gan Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan fel rhesymau i annog byrddau / ymddiriedolaethau iechyd i ystyried a ddylid ail-gyfrifo lefelau staff nyrsio y tu allan i'r broses gyfrifo ddwywaith y flwyddyn. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a gellir ystyried ffactorau eraill hefyd:

- Adrodd eithriadol gan brif nyrs y ward;
- Anallu hirdymor i gynnal y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd;
- Newid pwrpas a/neu broffil y ward (e.e. cynnydd mewn gwelyau, newid i'r amgylchedd, newid o lawdriniaeth orthopedig i lawfeddygaeth gyffredinol);
- Newid proffil y cleifion (e.e. lefelau tostrwydd, arbenigedd clinigol);
- Newid sylweddol yn sgil a/neu brofiad staff nyrsio;
- Pryderon yn codi o adolygu dangosyddion ansawdd, cwynion a/neu ddigwyddiadau diogelu;
- Defnydd uchel a/neu gyson o staff/gweithwyr banc/asiantaeth/dros dro;
- Defnydd cyson o brif nyrs ward o fewn y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd;
- Digwyddiad/ymchwiliad difrifol;
- Pryderon staff nyrsio wedi'u codi gan yr Ombwdsmon/Crwner/HIW; a
- Profiad/adborth negyddol gan gleifion yn gyson.

## Cynnal y lefel staff nyrsio.

### Pa gamau a gymerir i gynnal y lefel staff nyrsio?

Dylai byrddau iechyd/ymddiriedolaethau sicrhau bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i gynnal y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion ar sail sifft a hirdymor.

Mae'r camau rhesymol y dylid eu cymryd ar lefelau corfforaethol, strategol (Bwrdd Iechyd / GIG) a lefelau gweithredol i gynnal lefelau staff nyrsio fel a ganlyn:

### Camau cenedlaethol

- Rhannu a meincnodi data corfforaethol;

### Camau corfforaethol strategol

- Cynllunio'r gweithlu ar gyfer cyflenwad parhaus o staff gofynnol a aseswyd gan ddefnyddio System Gynllunio Cymru;
- Recriwtio gweithredol yn brydlon ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol;
- Strategaethau cadw staff sy'n cynnwys ystyried canlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru;
- Strategaethau lles yn y gwaith sy'n cefnogi nyrsys i gyflawni eu rolau;
- Sicrhau bod gofynion strategol y Ddeddf yn cael eu hymgorffori ym mhroses IMTP/cynllunio blynyddol y sefydliad;
- Polisiâu a gweithdrefnau'r gweithlu sy'n cefnogi rheoli staff yn effeithiol
- Fframwaith rheoli risg sefydliadol cadarn;

### Camau gweithredol

- Defnyddio staff dros dro o fanc nyrsio sy'n briodol i'r gymysgedd sgiliau a nodir yn y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd;
- Defnyddio staff dros dro o asiantaeth nyrsio sy'n briodol i'r gymysgedd sgiliau a nodir yn y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd;
- Defnyddio staff o ardaloedd eraill yn y sefydliad dros dro;

- Cau gwelyau dros dro;
- Ystyried newidiadau i lwybr y claf.

Cydnabyddir bod ar adegau, gellir amrywio'n briodol ar y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd mewn ymateb i asesiad o dostrwydd cleifion ar draws y bwrdd iechyd/y mddiriedolaeth. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r nyrs ward/prif nyrs a'r uwch nyrs asesu'r sefyllfa'n barhaus a dylai pob bwrdd iechyd/y mddiriedolaeth ddatblygu system ar gyfer cadw'r person neilltuol wedi ei arfarnu'n ffurfiol. Bydd hyn yn galluogi'r person neilltuol i ystyried a oes angen ailgyfrifo'r lefel staff nyrsio. Yn y sefyllfa hon, dylid gwneud cofnod ac adolygu'r amgylchiadau.

Yn olaf, dylid nodi, o dan adran 25A o'r Ddeddf, bod dyletswydd ar fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i ddarparu digon o nyrsys i ganiatáu amser iddynt ofalu am gleifion mewn modd sensitif lle bynnag mae gwasanaethau nyrsio yn cael eu darparu neu eu comisiynu. Felly, dylai'r cyfrifoldeb holl-gyffredinol hwn arwain penderfyniadau ar ddyrannu staff nyrsio ar draws yr holl wasanaethau nyrsio yn y sefydliad.

### **Beth ddylid ei gynnwys o fewn Fframwaith Gweithredu'r byrddau iechyd?**

Mae Atodiad 7 yn rhoi arweiniad i fyrddau/y mddiriedolaethau iechyd ar y wybodaeth y gellid ei chynnwys o fewn fframweithiau gweithredu'r sefydliad. Dylai'r fframwaith hwn gynnwys yr holl gamau rhesymol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol y dylid cyfeirio atynt hefyd o fewn polisi cynyddol y Bwrdd a chynlluniau wrth gefn busnes.

### **Pa gofnodion o'r lefel staff nyrsio sydd eu hangen?**

Dylai pob bwrdd iechyd/y mddiriedolaeth sefydlu systemau lle gallant adolygu a chofnodi bob tro y mae nifer y staff nyrsio a ddefnyddir yn amrywio o'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd. Dylai'r systemau hyn gynnwys y camau rhesymol a gymerir i gynnal y lefel staff nyrsio a mecanwaith ar gyfer cofnodi'r defnydd o staff dros dro, yn cynnwys staff banc ac asiantaeth; a'r adegau pan fydd staff nyrsio'n cael eu symud dros dro o feysydd clinigol/dyletswyddau eraill yn y sefydliad er mwyn cefnogi'r lefel staff nyrsio ar ward.

Ar adegau, gallai'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd fod wedi ei hamrywio'n briodol mewn ymateb i asesiad o dostrwydd cleifion ar draws y system a safbwynt broffesiynol y nyrs ward/prif nyrs. Fel rhan o'r cofnod, mae angen rhesymeg i bennu a yw'r amrywiaeth hwn wedi effeithio, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, er enghraifft, ar brofiad y claf neu'r defnydd gofalus o adnoddau.

Dylid defnyddio'r cofnod fel rhan o'r dystiolaeth i gefnogi ailgyfrifiad chwemisol arferol y lefel staff nyrsio, a bydd hefyd yn rhoi tystiolaeth i gefnogi'r angen i ailgyfrifo'r lefel staff nyrsio ar adegau eraill os oes angen. Yn ogystal, bydd y casgliadau a ddaw o'r cofnodion hyn yn llywio'r adroddiadau i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru.

### **Sut bydd staff yn gwybod eu bod yn gwneud yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gyfrannu at gynnal y lefel staff nyrsio?**

Ar lefel unigol, dylai pob person nyrsio cofrestredig sydd yn gysylltiedig â gwaith yn ymwneud â'r Ddeddf sicrhau, trwy'r gwaith hwn, eu bod yn cynnal gofynion Côd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015) sy'n gofyn i'r holl gofrestrwyr bob amser flaenoriaethu pob, ymarfer yn effeithiol, cynnal diogelwch a hyrwyddo proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth.

Fodd bynnag, mae'r canllawiau gweithredol yn ei wneud yn glir bod y systemau i gael eu defnyddio ar gyfer cyfrifo a chynnal y lefel staff nyrsio yn gymhleth ac yn amlweddol. Mae hefyd yn dangos yn glir bod yr atebolrwydd ar gyfer y systemau hyn gyda swyddogion a staff ar sawl lefel ym mhob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth.

Mae'r Ddeddf yn gofyn i bob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth fod wedi sefydlu systemau i hysbysu cleifion am y lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward. Yn ogystal, cynghorir bod pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth yn sefydlu systemau i hysbysu ei holl staff am y Ddeddf a'r camau y mae'r timau sy'n gyfrifol am y wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion yn eu cymryd i sicrhau bod y lefel staff nyrsio'n cael ei gynnal.

Yn ogystal, anogir pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth yn benodol i sefydlu systemau ar gyfer sicrhau bod staff pob ward cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion yn cael eu hysbysu ynghylch, ac yn cael cymorth i ddeall y gwaith i sicrhau cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf yn fras yn y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth, ac yn benodol yn eu ward. Dylai'r systemau hyn gynnwys sut y caiff y wybodaeth ganlynol ei rhannu:

- Yr hyn y mae data (archwiliad tostrwydd) Lefelau Gofal Cymru yn ei ddangos am dostrwydd cleifion ar bob ward;
- Yr hyn y mae'r data dangosydd ansawdd yn ei ddangos am ofal sensitif o gleifion ar bob ward; ac
- Unrhyw ddata arall e.e. cyfraddau absenoldeb salwch neu gyfraddau defnyddio banc neu asiantaeth a ddefnyddir i lywio safbwynt proffesiynol y person neilltuol.

Bydd angen i hyn egluro'r hyn y mae'r data yn ei adlewyrchu am y ward y mae'n cyfeirio ati.

Dylai'r systemau hyn hefyd gynnwys ystyriaeth o'r ffordd y mae gwybodaeth ynghylch pa mor dda y mae tîm y ward yn ei wneud yn cynnal y lefel staff nyrsio yn cael ei rannu gyda'r tîm.

Dylid disgrifio systemau'r bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth i gefnogi'r cyfathrebiadau a anogir uchod yn fframwaith gweithredol y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth.

Mae gwaith cenedlaethol wedi cael ei wneud i gefnogi pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth i fabwysiadu ymagwedd unwaith ar gyfer Cymru trwy ddyfeisio taflen wybodaeth yn rhestru cwestiynau cyffredin ar gyfer staff (Atodiad 8).

### **Beth fydd yn digwydd os na fydd y lefel staff nyrsio'n cael ei gynnal?**

Y byrddau iechyd/ymddiriedolaethau ar lefel weithredol sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Ddeddf. Bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn cael ei ystyried yn unol â'r *Trefniadau Dwysau ac Ymyrryd ar y Cyd* sydd wedi bod mewn bodolaeth er 2014. Yn unol â'r trefniadau hyn, mae Llywodraeth Cymru'n cyfarfod â Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddwywaith y flwyddyn i drafod sefyllfa gyffredinol pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth. Ystyrir ystod eang o wybodaeth a deallusrwydd er mwyn cynghori ar y statws dwysau, unrhyw faterion a sicrhau eu bod yn cael eu datrys yn effeithiol. Byddai diffyg cydymffurfio â darn o ddeddfwriaeth fel Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn cael eu hystyried yn unol â'r trefniadau hyn.



## Sut rydym yn hysbysu cleifion ynghylch y lefel staff nyrzio?

Yn unol â gofynion y Ddeddf a'r canllawiau statudol, mae'n ofynnol ar bob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth hysbysu cleifion ynghylch y lefel staff nyrzio trwy ddangos y lefel staff nyrzio ar gyfer y ward a dylent hefyd hysbysu cleifion ynghylch y dyddiad y cyflwynwyd y lefel at eu Bwrdd.

Mae gwaith cenedlaethol wedi cael ei wneud i ddatblygu templed (Atodiad 9) a fyddai, os caiff ei ddefnyddio i ddangos y wybodaeth sy'n benodol i bob ward cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol, yn galluogi pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth i fodloni gofynion paragraffau 20-25 o'r canllawiau statudol. Disgwylir i bob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth bennu sut caiff y wybodaeth a ddangosir ar y templed ei diweddarau'n lleol a byddai'n briodol i'r broses a gyfunwyd gael ei chynnwys yn y fframwaith weithredu. Yn ogystal, mae'n ofynnol ar bob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth sicrhau bod y wybodaeth a roddir i gleifion hefyd ar gael yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae gwaith cenedlaethol hefyd wedi cael ei wneud i gefnogi pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth i fabwysiadu ymagwedd unwaith ar gyfer Cymru trwy ddyfeisio taflen wybodaeth yn rhestru cwestiynau cyffredin i gynorthwyo staff i roi gwybodaeth gywir i gleifion am y Ddeddf (Atodiadau 10 ac 11).

Gall rhai wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol ar gyfer oedolion ddewis darparu gwybodaeth ychwanegol am y lefel staff nyrzio, uwchlaw'r gofynion gwybodaeth craidd a nodir yn y Ddeddf a'r canllawiau statudol. Gallai hyn fod yn arbennig o briodol, er enghraifft, pan fydd o gymorth i gleifion ac ymwelwyr ddeall natur amlddisgyblaethol ehangach y tîm gofal iechyd.

## Atodiadau

### Atodiad 1: Canllawiau statudol



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# Deddf Lefelau Staff Nyrzio (Cymru) 2016

## Canllawiau Statudol

## Atodiad 2: Deddf Lefelau Staff Nyrso (Cymru) 2016

*Deddf Lefelau Staff Nyrso (Cymru) 2016*

---

i

# Deddf Lefelau Staff Nyrso (Cymru) 2016

## CYNNWYS

- 1 Lefelau staff nyrso
- 2 Cychwyn
- 3 Enw byr




# **Lefelau Gofal Cymru Argraffiad 1**

Atodiad 4: Canllawiau sut i ddefnyddio System Monitro Gofal Iechyd



# System Monitro Gofal Iechyd

## Canllawiau ar sut i ddefnyddio'r modiwl nyrso



Fersiwn 1.1 (Hydref 2018)

## Atodiad 5: Ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried yn ystod y broses gyfrifo.

### **Cyffredinol**

- Adnabod wardiau
- Y cyfnod a archwiliwyd
- Naratif gweithredol
- Cymysgedd y baich achosion
- Rhestr ddyletswyddau cyffredol - oriau targed y dydd, gwir ddefnydd, sefydliad mewn WTE
- Cyfradd cyflawniad dyddiol y rhestr
- Cyflawniad cyffredinol

### **Tostrwydd y cleifion**

- Tostrwydd cleifion yn defnyddio offeryn Lefelau Gofal Cymru
- Oriau gofal fesul claf y dydd (cyfartaledd)

### **Dangosyddion Ansawdd**

- Cwyn - os yw'r defnydd yn cael ei sbarduno bydd angen naratif cyffredinol ynghylch a oedd unrhyw effeithiau ar gleifion yn ymwneud ag argaeledd staff e.e. efallai fydd ddim.
- Gwallau meddyginiaeth
- Cwympiadau
- Ardaloedd o pwysedd

### **Dyfarniad Proffesiynol**

- Llif Cleifion - disgrifiad cyffredinol o weithgaredd gan gynnwys cleifion, asesu, hebryngwyr, mynychwyr wardiau ac ati.
- Amgylchedd - nifer y gwelyau, ciwbiclau, baeau, gosodiad cyffredinol ac offer.
- Cymysgedd o arbenigeddau ac achosion - naratif cyffredinol i ddisgrifio'r arbenigedd clinigol a'r baich achosion.
- Pwysau gweithredol - disgrifiad cyffredinol o'r pwysau yn ystod y cyfnod archwilio, newidiadau yn y llwyth gwaith, cleifion sylweddol e.e. anghenion clinigol, cymdeithasol, diwylliannol unigryw.
- Llwyth gwaith
- Cymorth i fyfyrwyr
- Mynediad at MDT
- Cymysgedd sgiliau staff - cymwysterau, cymwyseddau, sgiliau a phrofiad y nyrsys sy'n darparu gofal i gleifion.
- Trosiant staff - swyddi gwag cyffredol
- Defnyddio staff atodol - effaith defnyddio staff dros dro ar lefel staff nyrsio
- Hyfforddiant a datblygiad - gofynion hyfforddi gorfodol a galluogi staff nyrsio i gael yr amser i dderbyn yr hyfforddiant priodol

### **Crynodeb**

Argymhelliad - i ystyried:

- 1) Unrhyw ddeunyddiau cyfeirio gan gynnwys gofynion technegol neu reoleiddiol sy'n ymwneud ag arbenigedd a defnydd staff.
  - 2) yr angen am gynllun gweithredu - disgrifiad amlinellol o'r cynllun a chyfeiriad at ddogfen ar wahân (rhan o dystiolaeth)
- Amserlen ddiwygiedig - oriau targed y dydd
  - Cyfranogiad a chytundeb yn y broses gyfrifo - rheolwr ward, uwch nyrs, person dynodedig.
  - Dyddiad cyfrifiad y person dynodedig.

- Dyddiad adolygu - rhagosodiad mewn cyfnodau archwilio cenedlaethol neu gallai fod yn gynt os bydd materion yn cael eu nodi

## Atodiad 6: Cofnodi ymagwedd driongllog tuag at adolygu lefel staff nyrso

Cyfnod a Adolygwyd

o

o

Rhestr Ddytswyddau a Gynlluniwyd (cynigiwyd ar ôl yr adolygiad)

	SUL	LLUN	MAW	MER	IAU	GWE	SAD
Nifer y gweilyau							
RN							
HCSW							
RN							
HCSW							
RN							
HCSW							

Bore (LD)

Prynhawn

Nos (LN)

Nifer y bobl fesul sifft

Rhestr Ddytswyddau a Gynlluniwyd WTE

Rhestr Ddytswyddau a Gynlluniwyd WTE

Cyfrifod

26.9%

Uwch / Prif Nyr

Goruchwyliol

1WTE

=

WTE

Crynodeb o'r Canlyniad

Dyddiad

Dyddiad

Dyddiad

Cynrychiolydd Ariannol

Cynrychiolydd y Gweithlu

Cyfarwyddwr Cyllid

Cyfarwyddwr y Gweithlu

Bwrdd Iechyd/ymddiriedolaeth

Enw'r Ward

Sefle

Rhestr Ddytswyddau a Gynlluniwyd (Cyfredol)

	SUL	LLUN	MAW	MER	IAU	GWE	SAD
Nifer y gweilyau							
RN							
HCSW							
RN							
HCSW							
RN							
HCSW							

Bore (LD)

Prynhawn

Nos (LN)

Nifer y bobl fesul sifft

offeryn cynllunio'r gweithlu

Dangosyddion Ansawdd

safbwynt profesiynol

Awdurdod

Ward / Gwasanaeth

Cyf./Adran

Bwrdd/Gwe

Uwch / Prif nyr

Rheolwr Gweithredol

Person neilltuo

Uwch nyr

Rheolwr Gweithredol

Cyfarwyddwr Gweithredol





## Atodiad 7: Gofynion o fewn y Fframwaith Gweithredol

Bwriad y fframwaith hwn yw: cefnogi'r cyfrifo a chynnal lefelau staffio nyrsio; amlinellu'r rolau a chyfrifoldebau'r gweithwyr proffesiynol allweddol; ac enwi'r camau y bwriedir eu cymryd i adolygu, cofnodi, adrodd ac uwch-gyfeirio lle nad yw lefelau staff nyrsio yn cael eu cynnal.

<b>Gwybodaeth</b>
Dyddiad cynhyrchu a llofnodi'r ddogfen
Dyddiad / amllder y ddogfen i'w hadolygu
Pwrpas y ddogfen
Cyfeiriad at y gweithwyr proffesiynol sy'n dod o dan y ddogfen (Gweithlu, Gweithrediadau a Chynllunio, nyrsio, cyllid), eu rolau a'u cyfrifoldebau
Proses ar gyfer cyfrifo'r lefel staff nyrsio (triongli)
Systemau i adolygu a chofnodi gwyriad oddi wrth y rhestr arfaethedig
Camau i gymryd pob cam rhesymol er mwyn cynnal lefel staff nyrsio (gan gynnwys camau gweithredol, strategol a chenedlaethol)
Camau i'w cymryd, a chan bwy, i sicrhau bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i gynnal lefel staff nyrsio ar sail tymor hir a sifft fesul sifft
Cofnodi ac uwch-gyfeirio pryderon pan na allant gynnal lefel staff nyrsio
Cyfeiriad at ddogfennau allweddol (Canllawiau Statudol, Canllawiau Gweithredol)
Camau a gymerwyd o dan adran 25A
Polisi dwysâd
Fframwaith gweithredol wedi'i gynnwys ym mholisi dwysáu a chynlluniau busnes y Bwrdd.
Trefniadau i hysbysu cleifion am lefel staff nyrsio

## Atodiad 8: Cwestiynau cyffredin ar gyfer staff ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion.

**Beth mae Deddf Lefel Staff Nyrzio (Cymru) 2016 yn ei olygu i fi fel aelod o staff ar ward feddygol neu lawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion?**

### Cwestiynau Cyffredin

#### **Beth yw'r Ddeddf Lefel Staff Nyrzio (Cymru) 2016?**

Daeth Deddf Lefel Staff Nyrzio (Cymru) 2016 i rym ym Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn golygu bod gan y byrddau iechyd/ymddiriedolaeth:

- ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau lefel briodol o staff nyrzio ym mhob lleoliad;
- dyletswydd gyfreithiol i gyfrifo a chynnal y lefel briodol o staff nyrzio ar wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion; a
- dyletswydd gyfreithiol i adrodd ar gydymffurfio â gofynion staffio a gweithredu os nad yw lefelau staff nyrzio'n cael eu cynnal.

#### **Beth mae lefel staff nyrzio'n ei olygu?**

Y lefel staff nyrzio yw nifer y staff sydd eu hangen gan ward i alluogi'r tîm i ddarparu gofal i'r cleifion mewn ffordd sydd yn ystyried anghenion nyrzio hollataidd y cleifion i gyd. Mae hyn yn cynnwys y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd a'r sefydliad gofynnol.

#### **Sut mae'r lefel staff nyrzio ar gyfer ward yn cael ei benderfynu?**

Yng Nghymru rydym yn defnyddio nifer o offer i asesu'r hyn y dylai'r lefel staff nyrzio fod ar gyfer wardiau gwahanol.

Mae'r lefel staff nyrzio'n amrywio o ward i ward, yn dibynnu ar nifer y cleifion a'r math o nyrzio sydd ei angen ar y cleifion hynny. Er enghraifft: gallai wardiau llawfeddygol gael mwy o gleifion ar y ward sydd yn cael llawdriniaeth rhwng Dydd Llun a Dydd Gwener ac felly mae mwy o staff ar ddyletswydd yn ystod yr wythnos o'i gymharu â'r penwythnos; neu gallai fod gan rai wardiau fwy o staff ar ddyletswydd lle mae ymgynghorwyr yn dod o gwmpas.

Mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth yng Nghymru gyfrifo nifer y nyrsys sydd eu hangen i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf trwy ddefnyddio ymagwedd drionglog sydd yn dod â thair ffynhonnell wybodaeth ynghyd. Yng Nghymru, rydym yn gwneud hyn trwy:



- ddefnyddio offeryn o'r enw "Lefelau Gofal Cymru", sydd yn cynnwys 5 lefel tostrwydd yn amrywio o Lefel 1 lle mae cyflwr y claf yn sefydlog ac y gellir ei

ragweld, sydd yn gofyn am ofal nyrsio arferol, i Lefel 5 lle mae'r claf yn gwbl ansefydlog ac mewn perygl, sydd yn gofyn am lefel ddwys o ofal nyrsio parhaus ar sail 1:1. Mae'r brif nyrs yn gyfrifol am sicrhau bod yr anghenion gofal cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol a chorfforol yn cael eu hasesu a'u dosbarthu gan ddefnyddio'r disgrifwyr yn Lefelau Gofal Cymru;

- edrych ar y dangosyddion ansawdd sydd yn arbennig o sensitif i ofal a ddarperir gan nyrs. Dylai hyn gynnwys: cleifion yn cwmpo; briwiau gwasgedd a gafwyd yn yr ysbyty; gwallau meddyginiaeth; a chwynion. Yn ogystal â'r rhain, gellir ystyried unrhyw ddangosyddion ansawdd eraill yr ystyrir yn briodol ar gyfer ward; a
- cymhwyso safbwynt proffesiynol yr uwch nyrsys sydd yn adnabod y wardiau a lefelau angen cleifion. Rydym yn ystyried nifer y nyrsys cofrestredig ar ddyletswydd ar bob ward yn ogystal â lefel y sgiliau nyrsio, cymwyseddau a phrofiad y nyrsys; effaith staff dros dro; trosiant a deiliadaeth gyffredinol gwelyau; cyflwr ffisegol a threfn y ward; gofynion myfyrwyr a dysgwyr; unrhyw swyddogaethau gweinyddol a wneir gan y tîm; cymhlethdod anghenion y cleifion yn cynnwys anghenion diwylliannol a chyfranogiad amlddisgyblaethol yn y gofal; a darpariaeth gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Pa mor aml bydd y lefel staff nyrsio'n cael ei adolygu?**

Bydd pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth yn adolygu'r lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward:

- bob chwe mis;
- os bydd rhywbeth yn newid ar y ward, er enghraifft, os oes newid yn y grŵp o gleifion sydd yn derbyn gofal ar y ward neu nifer y gwelyau sy'n cael eu defnyddio ar y ward; neu
- os yw'r tîm nyrsio o'r farn bod angen cynnal adolygiad am unrhyw reswm.

Cyflwynir y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward i'r Bwrdd yn flynyddol, a rhoddir diweddariad ysgrifenedig ar unrhyw achlysur pan ystyrir hynny'n angenrheidiol i newid y lefel staff nyrsio am unrhyw reswm.

### **Pwy sy'n gyfrifol am benderfynu beth ddylai'r lefel staff nyrsio fod ar gyfer pob ward?**

Gwneir y penderfyniad ynghylch y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward gan y person neilltuol yn y pen draw (y Cyfarwyddwr Nyrsio fel arfer) ar ran y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth, ond gwneir y penderfyniad yn dilyn trafodaethau gyda'r tîm nyrsio sy'n gyfrifol am y ward, yn cynnwys y nyrsys ar y ward a rheolwr y ward.

### **Sut mae byrddau iechyd/ymddiriedolaeth yn sicrhau bod y lefel staff nyrsio ar gyfer ward yn cael ei gynnal?**

Bydd y brif nyrs yn sicrhau bod nifer y staff ar ddyletswydd yn adlewyrchu'r hyn y dylai'r lefel staff nyrsio fod ar gyfer bob dydd ar gyfer y ward honno a byddant yn hysbysu'r uwch nyrs os oes unrhyw fylchau.

Caiff gwybodaeth am nifer y nyrsys a'r staff gofal a ddylai fod yn gweithio ar bob sifft ei harddangos ar bob ward.

Mae'r tîm nyrsio'n adolygu ac yn cofnodi'r amserau y gwnaeth nifer y nyrsys oedd ar ddyletswydd amrywio o'r lefel staff nyrsio a pha gamau a gymerwyd mewn ymateb i hyn. Bydd y tîm nyrsio hefyd yn ystyried a oedd peidio cynnal y lefel staff nyrsio wedi cael unrhyw effaith ar y gofal a ddarparwyd i'r cleifion ar y ward ar y pryd.

Os oes digwyddiadau neu chwynion am ofal a ddarperir gan nyrs yn cael eu cofnodi trwy systemau adrodd ynghylch digwyddiadau'r byrddau iechyd/ymddiriedolaeth, bydd a wnaeth peidio cynnal y lefel staff nyrsio gyfrannu at y digwyddiad/cwyn yn cael ei ystyried.

### **Beth sy'n digwydd ar y ward pan fydd bwllch o ran staffio?**

Ceir adegau pan fydd y rhestr ddyletswyddau a ddefnyddir yn amrywio o'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd fel y nodir yn y lefel staff nyrsio oherwydd salwch annisgwyl staff neu resymau eraill y tu hwnt i'n rheolaeth ni.

Dylai byrddau iechyd/ymddiriedolaethau sicrhau bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i gynnal y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion ar sail sifft ac yn yr hirdymor.

Ar adegau, gall y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd gael ei amrywio'n briodol mewn ymateb i asesiad o dostrwydd cleifion ar draws y system a safbwynt proffesiynol y strwythur rheoli nyrsys. Yn y tymor byr, efallai fydd yn rhaid i nyrsys ar y ward flaenoriaethu gofal cleifion er mwyn cynnal diogelwch cleifion.

### **Beth mae'n ei olygu os oes mwy o staff nag sy'n ofynnol yn unol â'r lefel staff nyrsio ar ddyletswydd ar sifft?**

Mae'r nyrs sy'n gyfrifol, rheolwr y ward a'r nyrs uwch yn asesu anghenion y cleifion ar y ward yn barhaus, a gall mwy o staff ar ddyletswydd ar y ward fod oherwydd cynnydd yn anghenion gofal cleifion, er enghraifft, lle gall fod angen gofal nyrsio un i un ar glaf, lle mae grŵp o gleifion angen cymorth uwch, neu lle mae cyflwr claf wedi gwaethygu.

### **Beth sy'n digwydd os nad yw'r lefel staff nyrsio'n cael ei gynnal?**

Y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth ar lefel weithredol sy'n atebol am gydymffurfio â'r Ddeddf. Byddai peidio cydymffurfio â darn o ddeddfwriaeth fel Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn cael ei ystyried yn unol â'r Trefniadau Dwysau ac Ymyriad ar y Cyd sydd wedi bodoli er 2014.

### **Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y byrddau iechyd. Fframwaith gweithredol ac o fewn y Canllawiau Gweithredol a'r Canllawiau Statudol sydd ar gael ar wefan y byrddau iechyd neu drwy wefan 1000 Bywydau. O fewn pob bwrdd iechyd mae arweinydd gweithredol a fydd yn rhoi arweiniad a chefnogaeth i staff.

## Atodiad 9: Tabled ar gyfer hysbysu cleifion ynghylch y lefel staff nyrsio



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

# Staff Nyrsio Nurse Staffing

## Enw'r Ward

Mae'n ofynnol ar y bwrdd iechyd i sicrhau bod cleifion yn cael gwybod beth yw'r lefel staff nyrsio ar bob ward feddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion a'r dyddiad cafodd y lefel staff nyrsio ei gyflwyno i'r Bwrdd.

### SEFYDLIAD GOFYNNOL

(Nifer y staff nyrsio sydd eu hangen)

Dyddiad cyflwyno'r lefel  
staff nyrsio i'r Bwrdd

Nifer y staff (nyrsys cofrestredig [RN] a gweithwyr cymorth gofal iechyd [HCSW]) sy'n ofynnol ar bob shift i gyflawni'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd.

		Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen	Sad	Sul
Cynnar	RN							
	HCSW							
Hwyr	RN							
	HCSW							
Nos	RN							
	HCSW							

Yn ogystal â'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd, efallai y gwelwch staff gofal iechyd eraill ar y ward sy'n ymgymryd â thasgau penodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal cleifion. Er enghraifft, ffisiotherapydd neu gynorthwydd adsefydlu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth, cysylltwch â phrif nyrs y ward. Mae taflen wybodaeth o Gwestiynau Cyffredin ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Atodiad 10: Cwestiynau cyffredin ar gyfer cleifion

### Beth mae Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ei olygu i mi fel claf?

#### Cwestiynau Cyffredin

##### 1) Beth yw'r Ddeddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016?

Daeth y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio yn gyfraith yng Nghymru ym mis Mawrth 2016 ac mae'n gosod dyletswydd ar fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd Cymru i sicrhau bod nyrsys yn cael digon o amser i ofalu am gleifion. Mae dyletswydd gyntaf y Ddeddf yn berthnasol i unrhyw leoliadau lle mae gofal nyrsio yn cael ei ddarparu neu ei gomisiynu. Dim ond i wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt oedolion y mae'r ail ddyletswydd yn berthnasol; fodd bynnag, mae gan Weinidogion Cymru bwerau o fewn y Ddeddf i gymhwyso'r ddyletswydd i leoliadau eraill pan sefydlir offer cynllunio gweithlu seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer yr ardaloedd hynny.

##### 2) Beth mae lefel staff nyrsio'n ei olygu?

Nifer y staff nyrsio sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel a phriodol i gleifion. Yn ogystal â'r staff nyrsio, efallai y gwelwch staff gofal iechyd eraill ar y ward sy'n ymgymryd â thasgau penodol i gefnogi cyflwyno gofal i gleifion. Er enghraifft, ffisiotherapydd neu gynorthwydd adsefydlu.

##### 3) Sut mae'r lefel staff nyrsio ar gyfer ward yn cael ei benderfynu?

Mae lefel staff nyrsio yn amrywio o ward i ward, yn dibynnu ar nifer y cleifion a'r math o nyrsio sydd ei angen ar gleifion. Rydym yn dwyn ynghyd dair ffynhonnell o wybodaeth: barn broffesiynol y nyrsys; pa mor sâl neu ddibynnol yw'r cleifion; a diogelwch ac ansawdd y gofal a ddarperir gan bob ward.

##### 4) Pwy sy'n gyfrifol am benderfynu beth ddylai'r lefel staff nyrsio fod ar gyfer pob ward?

Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio sy'n gyfrifol am benderfynu ar lefel staff nyrsio yn dilyn trafodaethau gyda'r tîm nyrsio sy'n gyfrifol am bob ward.

##### 5) Pa mor aml y bydd lefel staff nyrsio yn cael ei hadolygu?

Dylid adolygu lefel staff nyrsio pob ward digwydd bob 6 mis; os bydd rhywbeth yn newid ar y ward (e.e. - nifer y gwelyau sy'n cael eu defnyddio); neu os yw'r tîm nyrsio yn meddwl bod angen cynnal adolygiad.

##### 6) Sut mae'r lefel staff nyrsio yn cael ei gynnal?

Bydd y nyrs â gofal yn cynllunio rhestr staffio sy'n ceisio sicrhau bod nifer y staff ar ddyletswydd yn adlewyrchu'r lefel staff nyrsio ofynnol a bydd yn cysylltu â'r rheolwr nyrsio pan fydd bwlch yn y lefel staffio. Weithiau, gellir newid y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd o ganlyniad i asesiad o anghenion cleifion; byddai hyn yn seiliedig ar farn broffesiynol y tîm nyrsio.

Os oes bylchau yn y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd neu os oes angen staff nyrsio ychwanegol gellid cyflogi gweithwyr dros dro o fanc neu asiantaeth nyrsio os oes angen i gynnal lefel staff nyrsio i sicrhau y darperir gofal diogel a phriodol.

##### 7) Sut ydw i'n cael rhagor o wybodaeth?

Mae'r Lefel Staffio Nyrsio ar gyfer pob ward feddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion yn cael ei harddangos ar y ward. Lluniwyd taflen wybodaeth ar gyfer cleifion. Os oes gennych unrhyw gwestiynau a/neu bryderon ynghylch lefelau staff nyrsio ar y ward hon, gofynnwch am gael siarad â Rheolwr y Ward neu'r Brif Nyrs.

## Atodiad 11: Cwestiynau hawdd eu darllen i gleifion

Hawdd ei Ddeall



# Am lefelau staff nyrso

**Beth mae Deddf Lefelau Staff Nyrso (Cymru) 2016 yn ei feddwl imi?**



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o '**Beth mae Deddf Lefelau Staff Nyrso (Cymru) 2016 yn ei olygu imi fel claf ar ward Feddygol neu Lawfeddygol Dwys i Oedolion? – Cwestiynau Cyffredin**' GIG Cymru.

Ionawr 2019

## Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w deall a'u darllen



Efallai y byddwch angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n eu hadnabod i'ch helpu chi.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni** mae hyn yn meddwl **GIG Cymru**.



Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

**Tudalen 2**

Tudalen y pecyn 58



## Beth mae lefelau staff nyrso yn ei feddwl?



**Lefelau staff nyrso** ydy'r nifer o nyrsys sydd eu hangen i edrych ar ôl cleifion yn gywir ac yn ddiogel..



Efallai y byddwch yn gweld staff gofal iechyd eraill yn gweithio yn y wardiau Er enghraifft, ffisiotherapyddion sydd yn helpu pobl i symud o gwmpas.

## Beth ydy Deddf Lefelau Staff Nyrso (Cymru) 2016?



Daeth y **Ddeddf Lefelau Staff Nyrso (Cymru) 2016** yn gyfraith yng Nghymru ym mis Mawrth 2016.



Mae'n meddwl bod **rhaid** i fyrddau iechyd wneud yn siŵr bod yna ddigon o nyrsys mewn wardiau ysbytai i edrych ar ôl cleifion yn ddiogel.

Tudalen 3

## Sut mae'r lefelau staff nyrzio ar gyfer pob ward yn cael ei benderfynu?



Efallai bod lefelau staff nyrzio ar gyfer pob ward yn wahanol. Mae'n dibynnu ar nifer y cleifion ym mhob ward.



Mae hefyd yn dibynnu ar anghenion y cleifion. Er enghaifft, pa fath o ofal nyrzio maen nhw ei angen.

Er mwyn ein helpu ni i benderfynu faint o nyrsys sydd eu hangen ar gyfer pob ward, rydyn ni'n edrych ar 3 peth:



- beth mae'r nyrsys yn ei feddwl
- pa mor sâl ydy'r cleifion a faint o ofal maen nhw ei angen
- pa mor dda a diogel ydy'r gofal ym mhob ward.

### Tudalen 4

## Pwy sydd yn penderfynu beth ydy lefelau staff nyrzio ar gyfer pob ward?




**Y Cyfarwyddwr/wraig Gweithredol Nyrzio** sydd yn edrych ar ôl y lefelau staff nyrzio ar gyfer pob ward.



Maen nhw'n siarad gyda'r fîm nyrzio ym mhob ward cyn gwneud penderfyniad.

## Pa mor aml fydd rhywun yn edrych ar y lefelau staff nyrzio?

Fe ddylid edrych ar y lefelau staff nyrzio ar gyfer pob ward:



- pob **6 mis**.



- pan mae rhywbeth yn newid yn y ward. Er enghraifft os ydy'r nifer o welyau sydd yn cael eu defnyddio yn y ward yn newid.



- os ydy'r fîm nyrzio yn meddwl bod angen edrych arno eto am rhyw reswm.

### Tudalen 5

## Sut fydd wardiau yn gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw'r lefelau staff nyrsio cywir?



Fe fydd y **nyrs mewn gofal** yn gwneud cynllun staffio yn ôl y nifer o staff nyrsio sydd angen bod ar y ward.



Os nad oes digon o nyrsys, fe fydd y nyrs mewn gofal yn siarad gyda'r **uwch nyrs**. Efallai bydd rhaid iddyn nhw dalu i nyrsys ychwanegol weithio yn y ward i wneud yn siŵr bod ganddyn nhw ddigon o nyrsys.



Weithiau mae'r cynllun staff yn gallu cael ei newid oherwydd bod anghenion y cleifion wedi newid. Y fîm nyrsio sydd yn penderfynu os ydy hyn yn digwydd.

## Sut yw i'n gallu dysgu rhagor?

Os oes gennych gwestiynau am y lefelau staff nyrsio ar y ward yma, siaradwch os gwelwch yn dda gyda:

- Rheolwr/wraig y ward
- Prif Nyrs neu'r
- Nyrs mewn Gofal.



### Tudalen 6



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Staff Nyrsio  
Nurse Staffing



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

# **Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Canllawiau Gweithredol Wardiau Pediatrig i Gleifion Mewnol**

**Cynnwys**

<b>Rhagair</b> .....	4
Crynodeb Gweithredol .....	5
Trosolwg .....	6
Cyflwyniad .....	6
Rhestr Termau.....	6
Beth yw Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)? .....	9
Rolau a chyfrifoldebau.....	10
Bwrdd .....	10
Person dynodedig.....	10
Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.....	11
Cyfarwyddwr Gweithrediadau.....	11
Cyfarwyddwr Cyllid .....	11
Strwythur rheoli nyrsio .....	11
Prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward .....	12
Nyrs gofrestredig .....	12
Cyfrifo lefel staff nyrsio.....	12
Pa wardiau sy'n cael eu cynnwys o dan adran 25B ac adran 25C o'r Ddeddf?.....	12
Beth yw'r dull cyfrifo a ddefnyddir i bennu lefel y staff nyrsio? .....	13
Pa ffynhonnell o wybodaeth o fewn y triongli sydd bwysicaf? .....	14
Sut rydym yn triongli'r dystiolaeth? .....	14
Beth yw'r adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth? .....	15
Beth yw barn broffesiynol? .....	15
Beth yw'r dangosyddion ansawdd? .....	18
Sut rydw i'n mesur lefelau aciwtedd cleifion? .....	19
Cymryd rhan yn yr archwiliad ddwywaith y flwyddyn .....	20
Sut mae cyfrifiad lefel y staff nyrsio yn cael ei gofnodi? .....	20
Pryd mae cyfrifo lefel y staff nyrsio yn cael ei wneud? .....	20
Beth yw'r rhesymau dros ystyried ail-gyfrifo Lefel y Staff Nyrsio?.....	21
Cynnal lefel y staff nyrsio .....	22
Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gynnal lefel y staff nyrsio?.....	22
Camau cenedlaethol.....	22
Camau corfforaethol strategol.....	22
Camau gweithredol.....	22
Beth ddylid ei gynnwys yn Fframwaith Gweithredu'r byrddau iechyd? .....	23



Pa gofnodion sy'n gysylltiedig â chynnal lefel y staff nyrsio sydd eu hangen? .....	23
Sut bydd staff yn gwybod eu bod yn gwneud yr hyn sydd angen ei wneud i gyfrannu at gynnal lefel y staff nyrsio? .....	23
Beth sy'n digwydd os nad yw lefel y staff nyrsio yn cael ei chynnal?.....	24
Sut rydym yn hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio?.....	25
Atodiadau.....	26
Atodiad 1: Canllawiau statudol (Fersiwn 2) .....	26
Atodiad 2: Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.....	27
Atodiad 3: Lefelau Gofal Pediatrig Cymru (Rhifyn 1) .....	28
Atodiad 4: System Monitro Gofal Iechyd - Canllaw 'Sut i' .....	29
Atodiad 5: Ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried yn ystod y broses gyfrifo .....	30
Atodiad 6: Cofnod o ddull trionglog o adolygu lefel y staff nyrsio – templed cyfrifo .....	32
Atodiad 7: Gofynion o fewn y Fframwaith Gweithredu.....	33
Atodiad 8: Cwestiynau cyffredin i staff mewn wardiau pediatrig i gleifion mewnol.....	34
Atodiad 9: Templed i hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio.....	37
Atodiad 10: Cwestiynau cyffredin i Blant a Phobl Ifanc.....	38
Atodiad 11: Cwestiynau cyffredin i Rieni a Gofalwyr .....	39
Atodiad 12: Cwestiynau cyffredin hawdd eu darllen i gleifion .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>

## Gwybodaeth am y ddogfen

<b>Teitl</b>	Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Canllawiau Gweithredol Pediatrig
<b>Fersiwn:</b>	Fersiwn 1
<b>Dyddiad:</b>	Mehefin 2021
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	Mai 2022

## Rhagair



Mae wedi bod yn bum mlynedd ers i Gymru ddod y wlad gyntaf yn Ewrop i ddeddfu ar lefelau staff nyrsio. Mae ein nyrsys wedi cael tair blynedd o roi *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* ar waith ar ein wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion. Mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym, heb os, fod cael y nifer cywir o nyrsys cofrestredig a'r gymysgedd iawn o sgiliau yn lleihau marwolaethau ymhlith cleifion ac yn gwella canlyniadau i gleifion. Mae sicrhau bod cleifion yn cael gofal diogel o ansawdd uchel wrth wraidd pam ein bod wedi cefnogi cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Wrth ymestyn yr ymrwymiad hwnnw, pasiwyd *Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021* yn Senedd Cymru ym mis Chwefror, sy'n golygu, o fis Hydref 2021, bydd wardiau pediatrig i gleifion mewnol yng Nghymru yn dod o dan yr un dyletswyddau â wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion.

Mae'r canllaw gweithredol anstatudol hwn wedi'i ddatblygu fel llawlyfr i staff y GIG o lefel ward i lefel bwrdd, gan atgyfnerthu cynnwys y canllawiau statudol (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017) yn fwy manwl. Mae pwyslais y canllawiau ar adrannau 25B a C o'r Ddeddf (cyfrifo a chynnal lefel y staff nyrsio), fodd bynnag, mae manylion ar adrannau 25A ac E (ystyried darparu nyrsys digonol ym mhob lleoliad ac adrodd ar lefel y staff nyrsio) yn cael eu cynnwys lle maen nhw'n gorgyffwrdd. Bydd yn caniatáu i sefydliadau'r GIG weithredu'r ddyletswydd benodol i gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio mewn wardiau pediatrig i gleifion fel y nodir yn *Neddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*.

Mae hon yn ddogfen fyw a fydd yn parhau i gael ei phrofi, ei hadolygu a'i mireinio bob blwyddyn yn seiliedig ar eich profiadau chi, y nyrsys a fydd yn defnyddio'r ddogfen o ddydd i ddydd.

**Gareth Howells**

**Prif Swyddog Nyrsio Dros Dro (Cymru)/Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru  
Mehafin 2021**





## Crynodeb Gweithredol

Daeth Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) i rym ym mis Mawrth 2016, a'i gwneud yn ofynnol i sefydliadau ledled GIG Cymru gyfrifo a monitro nifer y nyrsys sy'n ofynnol i ofalu am gleifion yn sensitif. Cynlluniwyd y Ddeddf er mwyn gallu ei gweithredu fesul cam, gan ddechrau gyda Wardiau Meddygol a Llawfeddygol Acíwt i Oedolion ym mis Ebrill 2018. Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddwyd y bydd ail ddyletswydd y Ddeddf yn cwmpasu wardiau pediatrig i gleifion mewnol ym mis Hydref 2021.

Helpodd Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan i lywio'r broses o gynhyrchu'r Ddeddf ar ôl arwain datblygiad y cysyniadau, y dulliau a'r adnoddau angenrheidiol i ragweld lefelau staff nyrsio yn ystod y 5 mlynedd flaenorol. Cafodd y gwaith paratoi pwysig hwn ei ffurfioli yn 2016 wrth sefydlu Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan, a gynlluniwyd i gefnogi GIG Cymru i weithredu'r Ddeddf.

Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Canllawiau Statudol gofynnol i roi gwybodaeth ychwanegol i helpu i gefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf. Cafodd y Canllawiau eu hadolygu a'u cyhoeddi ym mis Mawrth 2021 i gynnwys wardiau Pediatrig i Gleifion Mewnol. Mae'r Canllawiau hyn yn disgrifio'n fanylach y cysyniadau, y dulliau a'r adnoddau i'w defnyddio wrth gyfrifo lefelau staff nyrsio. Mae'r Canllawiau hefyd yn rhagnodi dull trionglog i ddod â thair ffynhonnell wybodaeth hanfodol at ei gilydd y mae'n rhaid eu hystyried i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer cyfrifo. Disgwylir i bob ward sy'n cymryd rhan gynnal y broses driongli bob 6 mis, adolygu lefel y staffio a chytuno ar y drefn sydd ei hangen. Mae'r broses hon yn cael ei llywodraethu gan aelod dynodedig o'r Bwrdd a fydd yn ei dro yn adrodd am gydymffurfiaeth â'r Ddeddf i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd.

Cyrhaeddodd Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan garreg filltir ym mis Tachwedd 2020 gyda chyhoeddi'r Rhifyn Cyntaf o Lefelau Gofal Pediatrig Cymru. Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn i staff nodi lefelau anghenion pob claf unigol. Defnyddir Lefelau Gofal Pediatrig Cymru fel rhan o Archwiliadau Staff Nyrsio ddwywaith y flwyddyn, sef y brif broses o adolygu a chyfrifo lefelau staff nyrsio.

Mae'r Canllawiau Gweithredol hyn wedi'u datblygu a'u cynllunio i roi cyngor i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan ar ddefnyddio Lefelau Gofal Pediatrig Cymru yn yr archwiliadau ddwywaith y flwyddyn, dadansoddi'r canlyniadau ac ymgymryd â'r triongli i gyfrifo ac adrodd ar lefelau staff nyrsio. Dylid defnyddio'r ddogfen hon i helpu byrddau iechyd wrth adolygu eu fframwaith gweithredu a pharhau i gefnogi gweithredu'n lleol.

Bydd canllawiau ar ofynion adrodd byrddau iechyd o dan y Ddeddf yn cael eu cyhoeddi ar wahân.

**Greg Dix**  
**Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio**  
**Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg**

## Trosolwg

### Cyflwyniad

Datblygwyd y canllaw gweithredol hwn gan weithgor ar ran Grŵp Staff Nyrso Cymru Gyfan. Wrth ei ddatblygu, roedd aelodau'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o bob bwrdd/ymdiriedolaeth iechyd drwy ymgynghori â Chyfarwyddwyr Gweithredol Nyrso ac aelodau Grŵp Staff Nyrso Cymru Gyfan.

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu canllawiau i'r holl staff sy'n gweithio o fewn GIG Cymru sydd â chyfrifoldebau o dan adrannau 25B a 25C o Ddeddf Lefelau Staff Nyrso (Cymru) 2016. Fodd bynnag, wrth arfer eu cyfrifoldebau, rhaid i'r Bwrdd ystyried a rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd arnynt o dan adran 25A o'r Ddeddf i gael nyrsys digonol i ganiatáu amser i'r nyrsys ofalu am gleifion yn sensitif, ble bynnag mae gwasanaethau nyrsio yn cael eu darparu.

Dylid darllen y llawlyfr hwn ar y cyd â'r dogfennau canlynol:

- Canllawiau statudol F2 (Atodiad 1) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Deddf Lefelau Staff Nyrso (Cymru) 2016 (Atodiad 2);
- Lefelau Gofal Pediatrig Cymru - Rhifyn 1 (Atodiad 3);
- System Monitro Iechyd Gofal - Canllaw 'Sut i' (Atodiad 4); a
- Fframwaith gweithredu unigol pob bwrdd iechyd.

Yn ogystal ag amlinellu a darparu canllawiau ar gyfrifoldebau pob bwrdd iechyd – yn benodol timau gweithredol, cyllid, gweithlu a sefydliadol a thimau nyrsio - bwriad y llawlyfr hwn hefyd yw cynnig cymorth penodol i dimau nyrsio clinigol sy'n cymryd rhan yn yr ymarfer archwiliad aciwtedd cenedlaethol ar gyfer wardiau pediatrig i gleifion mewmol. O hyn allan, dylid nodi y cyfeirir at Ddeddf Lefelau Staff Nyrso (Cymru) 2016 fel y *Ddeddf*.

Gan fod Cymru yn gweithredu system TG genedlaethol i alluogi byrddau iechyd/ymdiriedolaethau'r GIG i fodloni gofynion y Ddeddf, bydd y defnydd o System Rheoli Gofal Iechyd yn cael ei disodli gan system TG newydd maes o law, a bydd canllawiau pellach ynglŷn â sut i ddefnyddio'r system newydd yn cael eu hanfon ar wahân.

### Rhestr Termau

I helpu staff ac i sicrhau eglurder, lluniwyd rhestr termau. Mae'r geiriau a'r termau a welir yn yr rhestr hon wedi'u tanlinellu drwy weddill y canllawiau gweithredu.

<p><b>Ward Pediatrig i Gleifion Mewmol</b></p>	<p>Ardal lle mae cleifion yn derbyn triniaeth weithredol am anaf neu salwch sy'n golygu bod angen naill ai ymyrraeth feddygol neu lawfeddygol brys neu ymyrraeth feddygol neu lawfeddygol a drefnwyd ymlaen llaw gan feddyg ymgynghorol neu o dan oruchwyliaeth meddyg ymgynghorol.</p> <p>Bydd cleifion ar y wardiau hyn rhwng 0-17, serch hynny, gall unigolion dderbyn triniaeth hyd at eu pen-blwydd yn 18 oed mewn ward i</p>
--	--

	<p>oedolion sy'n gleifion allanol ar adegau pan fydd barn broffesiynol yn barnu ei fod yn briodol yn seiliedig ar anghenion clinigol tra'n ystyried hefyd y protocolau asesu risg cyfredol yn ogystal â hawl y plentyn / gwarcheidwad i gymryd rhan yn y penderfyniad.</p> <p>Bernir bod cleifion yn derbyn triniaeth weithredol os ydynt yn wynebu ymyriad(au) ar gyfer eu hanaf neu salwch a ragnodir gan y meddyg ymgynghorol a/neu eu tîm, a/neu uwch ymarferwyr.</p>
<b>Rhestr staff ar ddyletswydd</b>	Yn cyfeirio at union nifer a chymysgedd sgiliau staff a oedd ar ddyletswydd, a drefnwyd i ddarparu gofal i gleifion. Ni ddylai personau ychwanegol fel myfyrwyr a phrif nyrsys wardiau/prif nyrsys/rheolwyr gael eu cynnwys yn y rhif hwn.
<b>Person dynodedig</b>	Person sy'n cael ei ddynodi gan y bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am gyfrifo lefelau staff nyrsio ar ran y Prif Swyddog Gweithredol/Bwrdd. Dylai'r person dynodedig fod wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac o statws digon uchel o fewn y bwrdd / ymddiriedolaeth iechyd, fel Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ar gyfer y Bwrdd.
<b>Hebrwng oddi ar y safle</b>	Sawl gwaith y bydd nyrs a'r staff hynny sy'n ymgymryd â dyletswyddau nyrsio o dan oruchwyliaeth nyrs gofrestredig, neu a ddirprwywyd iddynt, yn gorfod hebrwng claf i ysbyty/safle arall.
<b>Hebrwng ar y safle</b>	Sawl gwaith y bydd nyrs a'r staff hynny sy'n ymgymryd â dyletswyddau nyrsio o dan oruchwyliaeth nyrs gofrestredig, neu a ddirprwywyd iddynt, yn gorfod hebrwng claf i adran arall o fewn yr ysbyty e.e. apwyntiad OPD neu fynd â'r claf i'r theatr.
<b>Adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth</b>	<i>Cyfeiriwch at ddiffiniad y rhestr termau ar gyfer Lefelau Gofal Pediatrig Cymru.</i>
<b>Nyrs</b>	Mae'n cyfeirio at nyrs gofrestredig sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd yn is-rannau 1 neu 2 o Gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
<b>Lefel y staff nyrsio</b>	Mae lefel y staff nyrsio yn cyfeirio at gyfanswm y nyrsys gofrestredig yn ogystal â nifer y personau sy'n darparu gofal o dan oruchwyliaeth, neu gyflawni dyletswyddau a ddirprwywyd iddynt gan nyrs gofrestredig, e.e. gweithiwr cymorth gofal iechyd (HCSW). Mae lefel y staff nyrsio yn cyfeirio at y drefn sydd ei hangen a'r rhestr staff a gynlluniwyd.
<b>Lefel y staff nyrsio</b>	Mae hyn yn cyfeirio at y swyddi nyrsio hynny o fewn y strwythur rheoli sydd rhwng prif nyrs y ward/prif nyrs a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.
<b>Aciwtedd cleifion</b>	<p>Yn unol â Lefelau Gofal Pediatrig Cymru, diffinnir aciwtedd fel mesur arddwysedd y gofal nyrsio sydd ei angen ar glaf. Ar gyfer y gwaith hwn, defnyddiwn y term <i>aciwtedd</i> fel term cyffredinol sy'n cwmpasu termau eraill fel dibyniaeth, arddwysedd a chymhlethdod i ddisgrifio ehangder y gofal sydd ei angen ar glaf yn seiliedig ar ei anghenion holistig.</p> <p>Mae gan y term <i>aciwtedd</i> 2 brif elfen:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Difrifoldeb, sy'n nodi statws corfforol a seicolegol y claf; ac</li> <li>2. Arddwysedd, sy'n nodi'r anghenion nyrsio, cymhlethdod gofal a'r llwyth gwaith cyfatebol sy'n ofynnol gan glaf, neu grŵp o gleifion.</li> </ol>
<b>Rhestr staff a gynlluniwyd</b>	Yn cyfeirio at nifer a chymysgedd sgiliau staff ar ddyletswydd ar unrhyw adeg sydd ei angen i alluogi nyrsys i ddarparu gofal i fodloni'r holl

	<p>ofynion rhesymol. Ni ddylai personau ychwanegol fel myfyrwyr a phrif nyrsys ymarfer dan oruchwyliaeth a phrif nyrsys y ward/prif nyrsys / rheolwyr wardiau gael eu cynnwys yn y rhestr staff a gynlluniwyd. Cytunir ar y rhestr staff a gynlluniwyd adeg pennu lefel y staff nyrsio ar gyfer y ward a'i gymeradwyo gan y person dynodedig.</p>
<b>Barn broffesiynol</b>	<p>Mae barn broffesiynol yn cyfeirio at gymhwyso gwybodaeth, sgiliau a phrofiad mewn ffordd sy'n cael ei llywio gan safonau proffesiynol, y gyfraith ac egwyddorion moesegol i ddatblygu penderfyniad ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau clinigol mewn perthynas â diogelwch cleifion.</p>
<b>Dangosyddion ansawdd</b>	<p>Mae gofyn i fyrdau iechyd ystyried dangosyddion ansawdd sy'n ffordd gadarn o fesur y ffactorau hynny yr ystyrir eu bod yn dangos y canlyniadau ar gyfer cleifion a staff. Mae dangosyddion ansawdd yn adlewyrchu canlyniadau cleifion y bernir eu bod yn sensitif o ran nyrsio.</p>
<b>Gofynion rhesymol</b>	<p>Mae hyn yn cyfeirio at anghenion nyrsio cleifion a'u gweithgareddau beunyddiol fel yr aseswyd gan dîm nyrsio'r ward, gan ystyried anghenion holistig y claf, gan gynnwys gofynion cymdeithasol, seicolegol, ieithyddol, ysbrydol a chorfforol.</p> <p>Prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu nodi, eu hasesu a'u dosbarthu drwy ddefnyddio disgrifyddion Lefelau Gofal Pediatrig Cymru.</p>
<b>Pob Cam Rhesymol</b>	<p>Cyfres o gamau cenedlaethol, strategol a gweithredol sydd angen eu gwneud i gynnal lefel y staff nyrsio. Dylid cynnwys y camau hyn o fewn fframwaith gweithredu pob bwrdd iechyd.</p>
<b>Y drefn sydd ei hangen</b>	<p>Nifer y staff i ddarparu adnoddau digonol i ddefnyddio rhestr staff a gynlluniwyd a fydd yn bodloni'r llwyth gwaith disgwylidig i ddarparu gofal i ddiwallu anghenion nyrsio cleifion ar gyfer yr ardal. Mae hyn yn cynnwys adnodd o 26.9% i gwmpasu holl absenoldebau staff a swyddogaethau eraill sy'n lleihau eu hamser i ofalu am gleifion.</p> <p>Ni ddylai personau ychwanegol fel myfyrwyr a phrif nyrsys wardiau/prif nyrsys/rheolwyr wardiau gael eu cynnwys yn y rhestr staff a gynlluniwyd .</p>
<b>Yn sensitif</b>	<p>Mae hyn yn cyfeirio at nyrsys yn ymatebol ac yn sensitif i newid mewn anghenion gofal. Mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth bod llesiant ac anghenion gofal nyrsio holistig cleifion wedi'u dylanwadu i raddau helaeth gan y gofal a ddarperir gan nyrs sy'n dangos ymwybyddiaeth o deimladau ac anghenion pobl eraill.</p>
<b>Digwyddiad difrifol</b>	<p>Digwyddiad difrifol yw digwyddiad sy'n arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• farwolaeth annisgwyl neu farwolaeth y gellir ei hosgoi neu niwed difrifol i un neu fwy o gleifion; a/neu</li> <li>• ddigwyddiad "byth".</li> </ul>
<b>Pobl ychwanegol</b>	<p>Mae hyn yn cyfeirio at yr aelodau hynny o staff nad ydyn nhw wedi'u cynnwys yn y rhestr staff a gynlluniwyd . Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi na ddylid cynnwys personau fel myfyrwyr, prif nyrsys wardiau/prif nyrsys/rheolwyr ar y rhestr staff a gynlluniwyd.</p>
<b>Triongliant/ Dull triongli</b>	<p>Mae hyn yn cyfeirio at y dull a ddefnyddir wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio. Triongli yw'r dechneg sy'n hwyluso'r broses o ddilysu gwybodaeth o'r tair ffynhonnell ddata ganlynol drwy broses groeswiro:</p>

	<ul style="list-style-type: none"><li>• aciwtedd cleifion;</li><li>• barn broffesiynol; a</li><li>• dangosyddion ansawdd.</li></ul> <p>Ystyrir data o bob un o'r tair ffynhonnell hyn wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio.</p>
<b>Mynychwyr Ward</b>	Cleifion sy'n mynychu ward am ofal nyrsio neu'n mynychu'n bennaf at ddibenion cael archwiliad neu driniaeth sy'n cynnwys amser nyrsio. Ni fyddai achosion allanol neu gleifion mewnol yn cael eu dosbarthu fel mynychwyr ward (sylwer: gall y diffiniad hwn amrywio o'r diffiniad a ddefnyddir gan systemau gweinyddu cleifion byrddau iechyd).
<b>Lefelau Gofal Pediatreg Cymru</b>	<p>Adnodd a ddatblygwyd o fewn GIG Cymru sydd wedi'i ddilysu i'w ddefnyddio drwy sefydlu sylfaen dystiolaeth o'i gymhwysedd mewn lleoliadau clinigol yng Nghymru ac sydd wedi'i farnu i fod yn addas i'w ddefnyddio gan y Prif Swyddog Nyrsio.</p> <p>Dolen – Lefelau Gofal Pediatrig Cymru</p>

### Beth yw Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)?

Daeth Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i rym yng Nghymru ym mis Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff gwasanaethau iechyd wneud darpariaeth am lefel briodol y staff nyrsio ble bynnag y caiff gwasanaethau nyrsio eu darparu, ac i sicrhau eu bod yn darparu nyrsys digonol i ganiatáu amser iddynt i ofalu am gleifion yn sensitif. Mae'r gofyniad hwn yn ymestyn i unrhyw le y mae GIG Cymru yn darparu neu'n comisiynu trydydd parti i ddarparu nyrsys.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys 5 adran:

- Mae 25A yn cyfeirio at gyfrifoldeb cyffredinol byrddau/ymddiriedolaethau iechyd i ystyried darparu nyrsys digonol ym mhob lleoliad;
- Mae 25B yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd gyfrifo a chymryd pob cam rhesymol i gynnal lefel y staff nyrsio ym mhob ward meddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion, ac o 1af Hydref 2021, wardiau pediatrig i gleifion mewnol. Mae angen i fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd hefyd hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio ar y wardiau hynny;
- Mae 25C yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd ddefnyddio dull penodol i gyfrifo lefel y staff nyrsio ym mhob ward meddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion a wardiau pediatrig i gleifion mewnol;
- Mae 25D yn berthnasol i F2 o'r canllawiau statudol a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru (Atodiad 1); ac
- Mae 25E yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd adrodd ar eu cydymffurfiaeth wrth gynnal lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward meddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion a wardiau pediatrig i gleifion mewnol.

## Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r cyfrifoldeb am fodloni gofynion y Ddeddf yn berthnasol i staff ar bob lefel o'r ward i'r bwrdd, gyda'r Bwrdd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod byrddau iechyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

### Bwrdd

Wrth arfer eu cyfrifoldebau, rhaid i'r Bwrdd ystyried a rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd arnynt o dan adran 25A o'r Ddeddf i gael nyrsys digonol i ganiatáu amser i'r nyrsys ofalu am gleifion yn sensitif, ble bynnag mae gwasanaethau nyrsio yn cael eu darparu.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i aelodau penodol o'r Bwrdd – y Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a Chyllid a Gweithrediadau – o dan adrannau 25B a 25C o'r Ddeddf ddarparu tystiolaeth a barn broffesiynol i'r Bwrdd i gynorthwyo gyda'i benderfyniadau mewn perthynas â chyfrifo a chynnal lefel y staff nyrsio mewn wardiau pediatrig i gleifion mewnol.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd:

- ddynodi person (neu ddisgrifiad o berson) i fod yn gyfrifol am gyfrifo lefel y staff nyrsio mewn lleoliadau lle mae adran 25B o'r Ddeddf yn gymwys;
- pennu pa wardiau sy'n bodloni diffiniadau ward pediatrig i gleifion mewnol.

### Person dynodedig

Mae'r person dynodedig wedi'i awdurdodi o fewn fframwaith llywodraethu'r bwrdd iechyd i gyfrifo lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol o fewn y bwrdd iechyd ar ran y Prif Swyddog Gweithredol.

Bydd y person dynodedig wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; yn deall cymhlethdodau pennu lefelau staff nyrsio clinigol; ac o statws digon uchel o fewn y bwrdd iechyd.

Mae'r person dynodedig yn gyfrifol am:

- sefydlu'r prosesau a'r amserlen ar gyfer y cylch blynyddol sy'n ofynnol o fewn eu bwrdd iechyd, gyda chefnogaeth personél nyrsio, cyllid, gweithredol a gweithlu proffesiynol priodol, i hwyluso'r broses o (ail)gyfrifo lefel y staff nyrsio ddwywaith y flwyddyn;
- cyfrifo nifer y nyrsys cofrestredig - a'r staff hynny sy'n cyflawni dyletswyddau nyrsio o dan oruchwyliaeth neu a dirprwywyd iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n briodol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n bodloni holl ofynion rhesymol wardiau pediatrig i gleifion mewnol. Gwneir hyn drwy arfer barn broffesiynol wrth gymhwyso'r dull trionglog.
- ymgymryd a chofnodi'r rhesymeg dros y cyfrifiad. Gwneir hyn bob 6 mis o leiaf neu'n amlach os bydd newid yn y defnydd/gwasanaeth sy'n debygol o newid lefel y staff nyrsio neu os ydynt o'r farn bod hynny'n angenrheidiol; a
- chyflwyno'n ffurfiol lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward i'w Bwrdd yn flynyddol yn ogystal â sicrhau bod diweddariad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd yn



dilyn ail-gyfrif lefel y staff nyrsio ddwywaith y flwyddyn ac ar unrhyw adeg arall y bernir bod ail-gyfrif yn angenrheidiol.

Yn ogystal â'r cyfrifoldebau statudol uchod, bydd y person dynodedig yn darparu adroddiad blynyddol am lefelau staff nyrsio i'r Bwrdd. Bydd hyn yn llywio'r gofyniad statudol o dan adran 25E o'r Ddeddf i adrodd i Lywodraeth Cymru bob 3 blynedd.

### Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol sicrhau bod:

- system effeithiol o gynllunio'r gweithlu ar waith, yn seiliedig ar System Gynllunio Cymru, er mwyn darparu cyflenwad parhaus o'r niferoedd gofynnol o staff;
- bod systemau i sicrhau proses recriwtio staff gweithredol ac amserol (ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol); a
- bod strategaethau effeithiol ar waith ynglŷn â llesiant a chadw staff sy'n ystyried Arolwg Staff GIG Cymru.

### Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu ac adolygu fframwaith gweithredu'r sefydliad y bydd ei angen i ddisgrifio'r prosesau sy'n ofynnol i:

- alluogi'r defnydd o nyrsio dros dro (banc neu asiantaeth) sydd â'r sgiliau priodol;
- rheoli'r defnydd dros dro o staff o feysydd eraill o fewn y sefydliad yn effeithiol;
- rheoli'r broses o gau gwelyau dros dro yn effeithiol; a
- darparu canllawiau ynglŷn â phryd y gallai newidiadau i lwybr y claf fel ffordd o gynnal lefelau staff nyrsio gael eu hystyried a'u gweld yn briodol.

Yn ogystal â chael ei ddisgrifio o fewn fframwaith gweithredu byrddau iechyd, dylai'r prosesau hyn gael eu hadlewyrchu hefyd ym mholisi uwch-gyfeirio a chynlluniau parhad busnes y Bwrdd.

### Cyfarwyddwr Cyllid

Y Cyfarwyddwr Cyllid sy'n gyfrifol am:

- sicrhau bod lefel y staff nyrsio yn cael ei chyllido o ddyraniad refeniw y bwrdd iechyd a'i fod yn ystyried union bwyntiau cyflog y staff a gyflogir ar wardiau lle bo adran 25B yn gymwys.

### Strwythur rheoli nyrsio

Dylai safbwyntiau'r strwythur rheoli nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol gael eu hystyried gan y person dynodedig pan fyddant yn cyfrifo lefel y staff nyrsio. Dylai hyn gynnwys darparu'r wybodaeth fel yr amlinellir yn y templed cyfrifo cenedlaethol (atodiad 6), sy'n ofynnol i alluogi'r person dynodedig i arfer ei farn broffesiynol wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio.

Ar yr achlysuron prin hynny pan fydd y rhestr staff a gynlluniwyd yn amrywio wrth ymateb i'r sefyllfa glinigol ar draws y system, dylai prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward – ynghyd ag aelodau eraill a nodwyd yn y strwythur rheoli nyrsio - asesu'r sefyllfa yn



barhaus a gwerthuso'r person dynodedig a dylid dilyn unrhyw gamau sy'n ofynnol yn unol â pholisi uwch-gyfeirio'r sefydliad.

Bydd rolau a enwir o fewn strwythur rheoli nyrsio'r bwrdd iechyd yn gyfrifol am sicrhau defnydd cyson o'r system a roddir ar waith i adolygu a chofnodi pob achlysur pan fydd y nifer o nyrsys a ddefnyddir yn amrywio o'r rhestr staff a gynlluniwyd.

Dylai'r system gofnodi gynnwys mecanwaith i gofnodi'r defnydd o staff dros dro, gan gynnwys staff banc ac asiantaeth; a'r adegau hynny pan gaiff staff nyrsio eu symud dros dro o ddyletswyddau/meysydd clinigol eraill o fewn y sefydliad i gefnogi lefel y staff nyrsio o fewn ward.

Bydd rolau a enwir o fewn strwythur rheoli nyrsio pob bwrdd iechyd yn gyfrifol am ddilysu a chadarnhau'r data aciwtedd a gesglir ddwywaith y flwyddyn neu'n amlach os bydd angen.

Dylai cyfrifoldebau penodol y rolau a enwir o fewn strwythur rheoli nyrsio pob bwrdd iechyd gael eu hamlinellu yn fframwaith gweithredu'r byrddau iechyd.

### Prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward

Mae prif nyrs y ward/prif nyrs/ rheolwr y ward yn gyfrifol am asesu anghenion gofal nyrsio holistig y cleifion drwy ddefnyddio Lefelau Gofal Pediatrig Cymru fel adnodd cynllunio'r gweithle sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Dylent hefyd roi eu barn broffesiynol am lefelau staff nyrsio i'r person dynodedig pan fyddant yn cyfrifo lefel y staff nyrsio.

Dylai prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward sicrhau eu bod yn defnyddio'r system a gynlluniwyd gan y byrddau iechyd i adolygu a chofnodi pob achlysur pan fydd nifer y nyrsys a ddefnyddiwyd yn amrywio o'r rhestr staff a gynlluniwyd, a chynnal y system i hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio.

### Nyrs gofrestredig

Dylai'r nyrs gofrestredig hefyd roi eu safbwyntiau ar lefelau staff nyrsio sydd eu hangen ar gyfer y ward.

## Cyfrifo lefel staff nyrsio

### Pa wardiau sy'n cael eu cynnwys o dan adran 25B ac adran 25C o'r Ddeddf?

O Hydref 2021, mae adran 25B o'r Ddeddf yn gymwys i wardiau pediatrig i gleifion mewnol. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i wneud rheoliadau i ymestyn y ddyletswydd i gyfrifo lefelau staff nyrsio mewn feysydd eraill yn y dyfodol.

Mae'r Canllawiau Statudol yn darparu diffiniadau eang o wardiau pediatrig i gleifion mewnol sef:

- Ardal lle mae cleifion yn derbyn triniaeth weithredol ar gyfer anaf neu salwch sydd angen naill ai ymyrraeth feddygol neu lawfeddygol brys neu ymyrraeth feddygol neu lawfeddygol brys sydd wedi'i drefnu, a ddarperir gan feddyg neu lawfeddyg ymgynghorol neu o dan oruchwyliaeth meddyg neu lawfeddyg ymgynghorol. Bydd

cleifion ar y wardiau hyn yn 0-17 oed, serch hynny, gall unigolion hyd at eu pen-blwydd yn 18 oed dderbyn triniaeth mewn ward i oedolion sy'n gleifion mewnol ar adegau pan fydd barn broffesiynol o'r farn ei fod yn fwy priodol yn seiliedig ar anghenion clinigol y claf tra hefyd yn ystyried y protocolau asesu risg cyfredol yn ogystal â hawl y plentyn/gwarcheidwad i fod yn rhan o'r penderfyniad. Bernir bod cleifion yn derbyn triniaeth weithredol os ydynt yn cael ymyrraeth(au) am eu hanaf neu salwch a ragnodwyd gan y meddyg ymgynghorol, a/neu eu tîm, a/neu uwch ymarferwyr.

Mae rhestr o'r mathau o wardiau sydd wedi'u heithrio ar gael yn y canllawiau statudol (Atodiad 1). Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Bydd strwythur rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan yn cynnig fforwm i alluogi i gymheiriaid adolygu nodweddion wardiau lle ceir ansicrwydd a yw adran 25B yn berthnasol. Mae trafodaethau cychwynnol o fewn y fforwm hwn wedi nodi, lle ceir ansicrwydd o'r fath, bod canolbwyntio ar '**brif bwrpas**' y ward yn cynnig dull defnyddiol o benderfynu a yw ward yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant. Mae'n debygol y bydd rhifynnau'r llawlyfr hwn yn y dyfodol yn gallu cynnig mwy o eglurder wrth i'r materion hyn gael eu datblygu'n fanylach. Serch hynny, y bwrdd iechyd unigol sy'n gyfrifol yn y pen draw am bennu pa wardiau sy'n bodloni'r diffiniadau hyn a dylai'r penderfyniadau ynglŷn â pha wardiau i'w cynnwys a'u hepgor gael eu cyflwyno i'r Bwrdd.

### Beth yw'r dull cyfrifo a ddefnyddir i bennu lefel y staff nyrsio?


Mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd yng Nghymru gyfrifo nifer y nyrsys – a'r staff hynny sy'n ymgymryd â dyletswyddau nyrsio dan oruchwyliaeth nyrs gofrestredig neu a ddirprwywyd gan nyrs gofrestredig - sy'n ofynnol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf ac i ddiwallu anghenion holistig cleifion ym mhob ward pediatrig i gleifion mewnol.

Defnyddir dull trionglog ar gyfer y cyfrifiad hwn, drwy ddefnyddio tair ffynhonnell wybodaeth i bennu lefel y staff nyrsio sy'n ofynnol. Yn y sefyllfa hon, mae'r wybodaeth drionglog yn ansoddol ac yn feintiol o ran natur (cyfeiriwch at Ffigur 1). Dylai'r dull trionglog gynnwys:

- barn broffesiynol;
- aciwtedd claf - defnyddio'r adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bennu lefel y staff nyrsio a fydd yn bodloni gofynion gofal rhesymol; a
- dangosyddion ansawdd – ystyried i ba raddau y mae llesiant claf yn sensitif i ddarpariaeth gofal gan nyrs (h.y. camgymeriadau wrth roi meddyginiaeth, y claf wedi disgyn, briwiau pwyso, anafiadau elifo/ymdreiddiad).

Yn ogystal â'r dangosyddion hyn, gall y person dynodedig ystyried unrhyw ddangosydd arall sy'n sensitif i lefel y staff nyrsio y maent o'r farn eu bod yn briodol ar gyfer y ward lle mae'r cyfrifiad yn digwydd.

***Ffigur 1 - Dull trionglog i gyfrifo lefelau staff nyrsio o fewn wardiau pediatrig i gleifion mewnol.***



Mae'n ofynnol i'r person dynodedig ddefnyddio tystiolaeth, drwy ddefnyddio dull trionglog, i bennu lefel y staff nyrzio.

Bydd y person dynodedig yn cyfrifo lefel y staff nyrzio bob 6 mis o leiaf ac yn amlach os yw'r defnydd o'r wardiau yn newid, ac felly'n newid lefel y staff nyrzio, neu os yw'r person dynodedig yn ei ystyried yn angenrheidiol. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth a'r rhesymeg a ddefnyddir i bennu lefel y staff nyrzio gael eu cofnodi. Bydd lefel y staff nyrzio ar gyfer pob ward yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn flynyddol drwy ddefnyddio templed adrodd y cytunwyd arno yn genedlaethol 'Cyflwyniad Blynyddol o Lefel y Staff Nyrzio i'r Bwrdd' (gweler dogfen ar wahân).

Bydd diweddariadau ysgrifenedig yn cael eu darparu i'r Bwrdd os bydd newid i'r defnydd/gwasanaeth wedi arwain at newid yn lefel y staff nyrzio ar gyfer y ward.

### Pa ffynhonnell o wybodaeth o fewn y triongli sydd bwysicaf?

Yn unol â delweddau graffeg y dull trionglog (Ffigur 1), rhoddir yr un pwys i'r holl wybodaeth sy'n llywio'r broses. Mae'r canllawiau'n glir nad oes hierarchaeth a bennwyd ymlaen llaw yn ystod y broses gyfrifo o ran y dystiolaeth. Bydd y person dynodedig yn gwneud y penderfyniad hwnnw ar sail dadansoddiad o'r holl wybodaeth a gesglir am y ward. Er enghraifft, efallai y bydd data aciwtedd yn awgrymu bod ward yn rhy llawn ond bod gan y ward sawl ystafell sengl ac y ceir poblogaeth o gleifion agored i niwed, er enghraifft, plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd/iechyd meddwl cymhleth fel y dangosir gan adolygiad o'r data ansawdd. Byddai'n rhesymol yn yr enghraifft hon i'r farn broffesiynol a'r dangosyddion ansawdd fod y ffactorau pwysicaf wrth bennu lefel y staff nyrzio.

### Sut rydym yn triongli'r dystiolaeth?

Dylai'r holl wybodaeth a gasglwyd gael ei hadolygu'n annibynnol ac yna ei dehongli gyda'i gilydd er mwyn cyrraedd penderfyniad gwybodus ynglŷn â lefel y staff nyrzio ar gyfer pob ward.

- Yn gyntaf, ystyriwch y wybodaeth a amlinellir yn y triongli.
  - A oes unrhyw wallau neu hepgoriadau amlwg?
  - A yw'n adlewyrchu darlun teg o'r ward y mae'n sôn amdani?
- Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud?
  - Edrychwch ar y wybodaeth feintiol ac ansoddol a gofynnwch gwestiynau allweddol. Er enghraifft, beth mae'r ddata'n ei ddweud wrthym am lwyth gwaith y ward a'r gymysgedd o sgiliau staff sydd eu hangen?
- Beth yw arwyddocâd y canlyniadau?



- Ar ôl penderfynu a yw'r wybodaeth yn ddibynadwy ac edrych ar yr hyn mae'n ei ddweud, bydd angen i ni benderfynu faint o bwys i roi i'r wybodaeth honno wrth benderfynu. Hynny yw, pa mor bwysig yw'r wybodaeth honno wrth helpu i benderfynu ar niferoedd staffio? Er enghraifft, efallai y bydd ward lle bo mynychwyr ward dyddiol yn fwy sylweddol na nifer fach o friwiau pwyso a gafwyd tra'n yr ysbyty.

- Mae lefel y staff nyrsio i'w bennu drwy ddefnyddio tair ffynhonnell o wybodaeth: barn broffesiynol, aciwtedd cleifion; a dangosyddion ansawdd.
- Dylai'r cyfrifiad gael ei lywio gan y nyrsys cofrestredig o fewn y ward ynghyd â staff o fewn y strwythur rheoli nyrsio ar gyfer y ward.
- Mae'n rhaid i'r person dynodedig wybod y rhesymeg y tu ôl i'r cyfrifiad, rhaid iddo gadarnhau'r cyfrifiad ar sail y flaenoriaeth a roddwyd i'r wybodaeth, a gwneud argymhelliad i'r Bwrdd ynglŷn â lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol.

### Beth yw'r adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

Mae adnoddau cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn helpu rheolwyr i benderfynu pa alw fydd am wasanaethau. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrifo pa lefel o staff sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. O ran gofal iechyd, mae'n anodd rhagweld galw, ond mae adnoddau wedi'u datblygu i fesur lefelau aciwtedd cleifion sy'n rhoi syniad o faint o ofal sydd ei angen i fodloni eu gofynion gofal rhesymol. Bydd y wybodaeth hon yn rhan o'r dystiolaeth a ddefnyddir i gyfrifo lefel y staff nyrsio.

O dan y cyfrifoldebau a amlinellir o fewn y Ddeddf, mae pob bwrdd iechyd wedi cael eu hysbysu gan y Prif Swyddog Nyrsio mai'r adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'w ddefnyddio yw Lefelau Gofal Pediatrig Cymru. Ers 2016, gwnaed gwaith i ddatblygu a phrofi Lefelau Gofal Pediatrig Cymru er mwyn gallu ei ddefnyddio o fewn wardiau pediatrig i gleifion mewnol i asesu aciwtedd cleifion (Atodiad 3).

Mae'r broses o gasglu data actiwedd ar draws yr holl wardiau pediatrig i gleifion mewnol yn GIG Cymru yn digwydd yn ddyddiol a chynhelir archwiliadau ddwywaith y flwyddyn ym mis Ionawr a Mehefin o dan gyfarwyddyd Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio y GIG. Rhagwelir y bydd y mesur aciwtedd hwn yn nodi tueddiadau tymhorol mewn ymateb i ddemograffeg ac anghenion gofal iechyd newidiol. Bydd y wybodaeth hon, pan gaiff ei defnyddio fel rhan o ddull trionglog ochr yn ochr â defnyddio dangosyddion ansawdd a barn broffesiynol, yn pennu lefel y staff nyrsio ar gyfer y ward.

### Beth yw barn broffesiynol?

Mae'n ofynnol i'r person dynodedig arfer ei barn broffesiynol wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio ar gyfer unrhyw ward.

Mae'r Canllawiau Statudol yn disgrifio rhai o'r ystyriaethau y gellir eu hystyried wrth arfer barn broffesiynol, fel y nodir isod. Yn ogystal, i lywio eu penderfyniadau, mae'n ofynnol i'r person dynodedig ystyried canllawiau, egwyddorion, ymchwil, a safonau arfer gorau cyfredol o ran staff nyrsio perthnasol, proffesiynol ac arbenigol.



### 1) Cymwysterau, cymwyseddau, sgiliau a phrofiad y nyrso sy'n darparu gofal i gleifion.

Mae hon yn elfen hanfodol sy'n dylanwadu ar niferoedd staffio. Yn ei dro, gall sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau o'r fath gael eu llywio gan safonau arfer gorau fel yr eglurwyd uchod, gyda'r nod o gael y nyrsys o fewn y sefydliad i feddu ar y sgiliau angenrheidiol i ofalu am gleifion yn sensitif ac i fodloni anghenion gofal clinigol penodol eu cleifion. Dylai cynllunio'r gweithlu a'r drefn sydd ei hangen ystyried yr angen i ddarparu gweithlu sydd â lefel briodol o sgiliau a gwybodaeth broffesiynol ac ymarferol sydd â ffocws clinigol. Mae'r canllawiau hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y drefn sydd ei hangen yn galluogi'r gweithlu i gyflawni'r lefelau gorfodol o ofynion hyfforddiant sefydliadol. Mae hyn yn golygu y dylid ystyried cynllunio a chyfrifo'r gweithlu mewn ffordd strwythuredig a manwl o'r adnodd angenrheidiol i gyflawni'r lefelau cymwyseddau gofynnol, yn ogystal â chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol a statudol (e.e. Diogelu, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, Cydraddoldeb, hyfforddiant Amrywiaeth a Chynhwysiant, hyfforddiant tân etc.

### 2) Effaith staff dros dro ar lefel y staff nyrso.

Gall pa mor gyfarwydd y mae aelodau staff â systemau a phrosesau'r ward/sefydliad effeithio ar yr effeithlonrwydd o ran cyflawni eu gwaith a darparu gofal parhaus i gleifion. Felly bydd angen ystyried lefelau swyddi gwag a phatrymau hanesyddol diweddar sy'n ymwneud â defnyddio staff dros dro wrth gyfrifo lefel y staff nyrso. Gan fod hon yn sefyllfa a allai newid yn hawdd, efallai y bydd angen ystyried hyn hefyd ar gyfer annog adolygiad o'r drefn y tu allan i'r cylch arferol ddwywaith y flwyddyn.

### 3) Effaith ystyriaethau nyrso ar anghenion diwylliannol cleifion.

Gall ymateb i arferion diwylliannol neu grefyddol penodol (e.e. wrth ddarparu gofal diwedd oes) gymryd cryn amser. Os oes nifer sylweddol o gleifion â lefelau uwch o anghenion nyrso holistig yn derbyn gofal ar ward benodol, yna bydd angen i'r person dynodedig allu dangos sut mae wedi ystyried yr anghenion penodol hyn wrth gyfrifo lefel y staff nyrso fel y gall tîm ddarparu gofal sensitif i'w holl gleifion.

### 4) Amodau tîm aml-broffesiynol deinamig.

Efallai y bydd angen i anghenion gofal cymhleth, sy'n gofyn am ddull tîm amlddisgyblaethol, ei wneud yn ofynnol i'r tîm nyrso ymgymryd â chryn dipyn o waith cydlynu gofal anuniongyrchol. Mae'r gwaith hwn yn hollbwysig i sicrhau bod nodau'n cael eu rhannu; a darpariaeth gofal effeithiol a sensitif wrth bob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol, wedi'i ddarparu mewn ffordd amserol. Gall y gwaith cydlynu gofal anuniongyrchol hwn fod yn heriol i'w feintioli ond yn aml mae angen gwneud penderfyniadau medrus ac arbenigol a gall gymryd cryn amser. O'r herwydd, bydd angen i'r person dynodedig ei ystyried yn ofalus.

### 5) Effaith bosib cyflwr a chynllun ffisegol ward ar ofal nyrso.

Bydd cynllun a nodweddion ffisegol eraill ardal glinigol yn effeithio ar effeithlonrwydd y defnydd o oriau nyrsio sydd ar gael ar unrhyw un adeg. Er enghraifft, os gofelir am gleifion mewn ystafelloedd sengl neu mewn cilfannau gyda sawl gwely, gall ddylanwadu ar nifer y cleifion sy'n gallu cael eu harsylwi a'u cadw'n ddiogel gan un aelod o staff; a gall lleoliad ystafelloedd triniaeth, meddyginiaeth, storio a golchi yn yr ardal glinigol ddylanwadu ar yr amser anghynhyrchiol os bydd rhaid i aelodau staff gerdded pellter hir dro ar ôl tro i gael cyflenwadau hanfodol neu i baratoi meddyginiaethau.

- 6) Trosiant cleifion sy'n derbyn gofal a nifer gyffredinol y gwelyau a ddefnyddir.** Mae'r rhan fwyaf o wardiau pediatrig i gleifion mewnol yn darparu gofal i gleifion mewnol o fewn grŵp o gleifion sy'n newid yn aml. Gall lefel yr amrywiad o ran natur a'r math o weithgaredd sy'n ychwanegol at ddarparu gofal yn sensitif i'r cleifion sydd yn y gwely fod yn aruthrol ac yn aml mae'n dibynnu ar natur yr arbenigedd. Bydd gan rai wardiau niferoedd uchel o gleifion sy'n dychwelyd i'r ward i gael gwiriad ar ôl eu rhyddhau, gan osgoi aros yn hir yn yr ysbyty wrth gadw cyswllt clinigol/drws agored i'r claf am gyfnod byr ar ôl ei ryddhau. Bydd rhai yn cael triniaeth ar y ward fel dull mwy effeithlon o ofal na threfnu i gael eu derbyn i'r ysbyty ymlaen llaw. Mewn wardiau eraill gall nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn a'u rhyddhau mewn un diwrnod - sy'n cynrychioli cyfnod o reoli gofal dwys a chyfathrebu â'r claf ac yn aml, rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol - fod yn arbennig o uchel.

Er ei fod yn cael ei adlewyrchu i raddau drwy ganfyddiadau archwiliad aciwtedd Lefelau Gofal Pediatrig Cymru, efallai na fydd amrywiadau o'r fath o ran natur a'r math o weithgaredd yn cael eu casglu'n llawn ac felly efallai y bydd angen eu hadlewyrchu yn y farn broffesiynol a gymhwysir gan y person dynodedig.

- 7) Gofal a ddarperir i gleifion gan staff neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill, fel gweithwyr cymorth gofal iechyd.** Bydd natur anghenion gofal cleifion ym mhob maes clinigol yn dylanwadu ar y niferoedd a'r gymysgedd sgiliau – gan gynnwys gwybodaeth, sgiliau a chymwysedau – lefel y staff nyrsio. At hynny, gall cyfrifoldebau staff o dimau eraill o fewn gweithlu'r ysbyty (e.e. therapi chwarae, cyfleusterau gwesty, porthorion, cofnodion meddygol) effeithio ar y dyletswyddau y mae'n ofynnol i dîm nyrsio'r ward eu cyflawni er mwyn sicrhau y darperir gofal sensitif. Yna gall hyn effeithio ar lefel y staff nyrsio y bydd y person dynodedig yn ei gyfrifo.
- 8) Unrhyw ofynion a bennir gan reoleiddiwr i gefnogi myfyrwyr a dysgwyr.** Mae sicrhau amgylchedd dysgu cadarn i fyfyrwyr gofal iechyd proffesiynol a gomisiynwyd yn gyfrifoldeb sy'n flaenoriaeth i'r GIG yng Nghymru. Drwy'r llwybr hwn y bydd y gofal a roddir yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan nyrsys addysgedig a medrus sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, a fydd ar gael mewn niferoedd digonol i fodloni gofynion gweithlu GIG Cymru. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd creu amgylchedd dysgu lle gellir neilltuo amser i addysgu, goruchwylio a mentora myfyrwyr. Dylai myfyrwyr a dysgwyr fod wedi cwblhau hyfforddiant ar

Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ochr yn ochr â gofynion hyfforddi gorfodol. Dylai nifer y lleoliadau i fyfyrwyr a glustnodwyd ym mhob maes clinigol fod yn ystyriaeth bwysig wrth gyfrifo lefelau staff nyrso i sicrhau y gellir cefnogi pob myfyriwr yn ddigonol yn ymarferol.

**9) I ba raddau y mae'n ofynnol i nyrso sy'n darparu gofal gyflawni swyddogaethau gweinyddol.**

Fel Adran 7 uchod, bydd cwmpas y cyfrifoldebau sydd o fewn y tîm nyrso yn dylanwadu ar nifer a chymysgedd sgiliau'r drefn sydd ei hangen. Mae'n bwysig bod y person dynodedig yn ystyried cymysgedd sgiliau ac egwyddorion darparu gofal iechyd darbodus wrth gyfrifo'r rolau sydd eu hangen ar dîm o fewn y drefn sydd ei hangen.

**10) Cymhlethdod anghenion cleifion yn ogystal â'u hanghenion nyrso meddygol neu lawfeddygol, fel cleifion ag anabledau dysgu/anghenion dysgu ychwanegol**

Mae'n rhaid i'r person dynodedig ystyried anghenion holistig unigol cleifion yn ychwanegol at eu cyflwr meddygol neu lawfeddygol cyfredol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid ystyried anghenion gofal ychwanegol penodol cleifion, er enghraifft, anawsterau symudedd, nam gwybyddol neu anawsterau dysgu/anghenion dysgu ychwanegol wrth gyfrifo lefel y staff nyrso.

**11) Darparu'r cynnig rhagweithiol o gyflenwi gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.**

Wrth gyfrifo lefel y staff nyrso bydd yn ofynnol i'r person dynodedig ddangos bod ystyriaeth benodol wedi'i rhoi i ddarparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, fel rhan o ofynion fframwaith strategol Llywodraeth Cymru *Mwy na Geiriau*. Yn benodol, gallai hyn effeithio ar ddefnyddio trefn staff i sicrhau y gall argaeledd sgiliau Cymraeg ymhlith staff ar ddyletsydd ar unrhyw adeg adlewyrchu anghenion rhagweladwy'r cleifion o fewn maes clinigol penodol. Mae angen ystyried darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill hefyd.

Mae rhan o'r dull triongli yn cynnwys ystyried y data sydd ar gael sy'n cysylltu â'r agweddau uchod ar farn broffesiynol. Er enghraifft, cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol, swyddi gwag a chyfraddau salwch, defnydd o staff dros dro, defnydd gwelyau a/neu adborth myfywr.

**Beth yw'r dangosyddion ansawdd?**

Mae rhan o'r dull trionglog yn cynnwys ystyried y dangosyddion ansawdd hynny sy'n arbennig o sensitif i ofal a ddarperir gan nyrs. I leihau baich mesur, dylid defnyddio dangosyddion ansawdd sydd â ffynhonnell ddata sefydledig ac mae'r Ddeddf yn cynghori'r person dynodedig i ystyried y dangosyddion ansawdd canlynol gan y dangoswyd bod gan y rhain gysylltiad â lefelau staffio isel:

- **Briwiau pwysu** – cyfanswm y briwiau pwysu y barnwyd iddynt gael eu datblygu yn yr ysbyty tra'n glaf ar y ward;
- **Camgymeriadau meddyginiaeth** – unrhyw gamgymeriad wrth baratoi, gweinyddu neu hepgor meddyginiaeth gan staff nyrsio (mae hyn yn cynnwys digwyddiadau 'byth' sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth); ac
- **Anafiadau Elifo/Ymdreiddio** – unrhyw anaf elifo/ymdreiddio y mae'r cleifion yn eu dioddef ar y ward.

Yn ogystal â'r dangosyddion ansawdd a restrir uchod, efallai y bydd dangosyddion ansawdd eraill sy'n sensitif i lefel y staff nyrsio yn briodol. Mae'r Canllawiau Statudol yn awgrymu bod: profiad cleifion, anghenion gofal nas diwallwyd, methiant i ymateb i ddirywiad claf; profiad staff, llesiant staff, gallu staff i gymryd gwyliau blynyddol; cydymffurfiaeth staff â hyfforddiant gorfodol ac adolygiadau datblygu perfformiad yn gallu cael eu hystyried i gyd fel elfennau perthnasol posibl.

### Sut rydw i'n mesur lefelau aciwtedd cleifion?

Prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr anghenion cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol, diwylliannol a chorfforol yn cael eu hasesu a'u dosbarthu drwy ddefnyddio disgrifyddion Lefelau Gofal Pediatrig Cymru.

Mae Lefelau Gofal Pediatrig Cymru yn cynnwys 5 lefel aciwtedd – o Lefel 1 lle mae cyflwr y claf yn sefydlog ac yn rhagweladwy ac angen gofal nyrsio arferol, hyd at Lefel 5, lle mae'r claf yn ansefydlog iawn ac mewn perygl sy'n gofyn am lefel ddwys o ofal nyrsio parhaus 1:1.

Gellir crynhoi Lefelau Gofal Pediatrig Cymru fel a ganlyn:

<b>Lefel 5</b>	<b>Gofal un-i-un</b> - mae angen o leiaf goruchwyliaeth nyrsio barhaus un-i-un ar y claf ac arsylwi 24 awr y dydd.
<b>Lefel 4</b>	<b>Gofal brys</b> - mae'r claf mewn cyflwr ansefydlog ac anrhagweladwy iawn naill ai'n gysylltiedig â'u prif broblem neu wrth i ffactorau cysylltiedig eraill waethygu.
<b>Lefel 3</b>	<b>Gofal cymhleth</b> - gall fod gan y claf nifer o broblemau a nodwyd, y mae rhai ohonynt yn rhyngweithio, gan ei gwneud yn anoddach rhagweld canlyniad unrhyw driniaeth unigol.
<b>Lefel 2</b>	<b>Llwybrau gofal</b> - mae gan y claf broblem sydd wedi'i diffinio'n glir ond gall fod nifer fach o ffactorau ychwanegol sy'n effeithio ar sut i ddarparu triniaeth.
<b>Lefel 1</b>	<b>Gofal arferol</b> – mae gan y claf broblem sydd wedi'i nodi'n glir, heb lawer o ffactorau cymhleth eraill.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar sut i fesur aciwtedd a dibyniaeth cleifion drwy ddefnyddio Lefelau Gofal Pediatrig Cymru yn nogfen Lefelau Gofal Pediatrig Cymru (rhifyn 1) (atodiad 3).



## Cymryd rhan yn yr archwiliad ddwywaith y flwyddyn

At ddibenion yr archwiliad ddwywaith y flwyddyn, rhaid i'r data gael ei gasglu yn ystod misoedd Ionawr a Mehefin am 18:00 bob dydd yn ystod misoedd yr archwiliad fel y nodwyd gan y Prif Swyddog Nyrzio. Po fwyaf o ddata a gesglir, y mwyaf cadarn a dibynadwy yw'r darlun o lwyth achosion ward.

Rhaid cofnodi data am bob claf 7 diwrnod yr wythnos am y mis calendr llawn ar gyfer cyfnod yr archwiliad aciwtedd.

Gellid dod o hyd i wybodaeth bellach ar sut i fewnbynnu a sicrhau ansawdd y data aciwtedd fel rhan o'r archwiliad ddwywaith y flwyddyn yn y Canllaw 'Sut i' ar gyfer System Monitro Gofal Iechyd (atodiad 4).

## Sut mae cyfrifiad lefel y staff nyrzio yn cael ei gofnodi?

Dylai pob bwrdd iechyd ddatblygu systemau i gofnodi'r dystiolaeth a'r rhesymeg a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo lefel y staff nyrzio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol.

Mae Atodiad 5 yn darparu rhestr wirio o'r ffactorau y mae'n *rhaid* eu hystyried ac mae atodiad 6 yn darparu templed i gofnodi'r broses gyfrifo a'r broses o wneud penderfyniadau a wnaed yn ystod y broses gyfrifo.

## Pryd mae cyfrifo lefel y staff nyrzio yn cael ei wneud?

Mae'r cyfrifiad arferol ddwywaith y flwyddyn o lefel y staff nyrzio yn digwydd tua Mawrth/Ebrill ac Awst/Medi bob blwyddyn. Mae'r amserlen hon yn ystyried y broses o gasglu data aciwtedd ddwywaith y flwyddyn ar draws pob ward pediatrig i gleifion mewnol sy'n digwydd ym mis Ionawr a Mehefin yn ôl cyfarwyddyd Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrzio'r GIG a'r amser mae'n ei gymryd i brosesu a chyhoeddi'r data. Mae'r amserlen ganlynol yn cynnig canllaw i gynorthwyo pob bwrdd iechyd i bennu'r cylch gweithredu blynyddol mewn perthynas â'r cyfrifiadau ddwywaith y flwyddyn a'r gofynion adrodd o dan Ddeddf Lefelau Staff Nyrzio (Cymru).

<b>Ionawr</b>	- Cynnal archwiliad aciwtedd.	Casglu a monitro data perthnasol yn barhaus sy'n ymwneud â'r dangosyddion ansawdd y cytunwyd arnynt a meini prawf barn broffesiynol. Hefyd, adolygu a chofnodi'n barhaus unrhyw amrywiad o'r rhestrau staff a gynlluniwyd.
<b>Chwefror</b>	- Dilysu a chymeradwyo data archwiliad aciwtedd Ionawr.	
<b>Mawrth</b>	- Data archwiliad aciwtedd Ionawr ar gael i fyrddau iechyd. - Byrddau lechyd i ddechrau'r broses o ail-gyfrifo lefel y staff nyrzio drwy ddefnyddio'r dull trionglog.	
<b>Ebrill</b>	- Byrddau lechyd i orffen lefel y staff nyrzio. - Byrddau lechyd i fynd â'r adroddiad blynyddol i fwrdd datblygu a/neu bwyllgor y cytunwyd arno.	

	- Byrddau lechyd i fynd â'r ail-gyfrifiad o lefel y staff nyrsio i fwrdd datblygu a/neu bwyllgor y cytunwyd arno ddwywaith y flwyddyn .	Yn ogystal â'r Bwrdd, dylai'r Bwrdd lechyd Lleol (neu Ymddiriedolaeth) dderbyn diweddariad ysgrifenedig o lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol pan fydd newid i ddefnydd / gwasanaeth sydd wedi arwain at newid yn lefel y staff nyrsio, neu os yw'r person dynodedig o'r farn bod angen gwneud hynny.  (Gall y diweddariadau gael eu darparu i'r Bwrdd drwy is-bwyllgor ffurfiol a ddirprwywyd).
<b>Mai</b>	- Cyflwyno'r adroddiad blynyddol i'r Bwrdd yn ffurfiol (25E)  - Diweddariad ffurfiol o ail-gyfrifiad lefel y staff nyrsio yn uniongyrchol i'r Bwrdd neu bwyllgor y cytunwyd arno ddwywaith y flwyddyn.	
<b>Mehefin</b>	- Cynnal archwiliad aciwtedd.	
<b>Gorffennaf</b>	- Dilysu a chymeradwyo data archwiliad aciwtedd Mehefin.	
<b>Awst</b>	- Data archwiliad aciwtedd Mehefin ar gael i fyrddau iechyd.  - Byrddau lechyd i ddechrau'r broses o ail-gyfrifo lefel y staff nyrsio drwy ddefnyddio'r dull trionglog	
<b>Medi</b>	- Byrddau lechyd i orffen lefel y staff nyrsio	
<b>Hydref</b>	- Byrddau lechyd i gyflwyno ail-gyfrifiad dwywaith y flwyddyn o lefel y staff nyrsio i Fwrdd datblygu a/neu bwyllgor y cytunwyd arno.	
<b>hwedd</b>	Cyflwyniad ffurfiol blynyddol gan y person dynodedig o lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol i Fwrdd y bwrdd iechyd (neu Ymddiriedolaeth).	
<b>Rhagfyr</b>		

**SYLWER:** Mae'r amserlen yn nodi'r camau i'w cymryd gan bob bwrdd iechyd a bydd yn destun adolygiad.

### Beth yw'r rhesymau dros ystyried ail-gyfrifo Lefel y Staff Nyrsio?

Cytunwyd ar y rhestr ganlynol o ffactorau gan Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan fel rhesymau dros gymhell byrddau iechyd i ystyried a ddylid ail-gyfrifo lefelau staff nyrsio y tu allan i'r broses gyfrifo arferol ddwywaith y flwyddyn. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a gellir ystyried ffactorau eraill hefyd:

- Adrodd ar eithriadau gan brif nyrs y ward/prif nyrs;
- Anallu dros gyfnod hir o amser i gynnal a chadw'r rhestr staff a gynlluniwyd;

- Newid pwrpas a/neu broffil ward (e.e. cynnydd mewn gwelyau, newid i'r amgylchedd, newid o orthopaedig i lawdriniaeth gyffredinol);
- Newid proffil claf (e.e. lefelau aciwtedd, arbenigedd clinigol);
- Newid sylweddol yn sgil a/neu brofiad staff nyrsio;
- Pryderon sy'n deillio o'r adolygiad o ddangosyddion ansawdd, cwynion a/neu ddiwyddiadau diogelu;
- Defnydd uchel a/neu gyson o weithwyr banc neu asiantaeth/ staff dros dro;
- Defnydd cyson o brif nyrsys y ward/prif nyrsys o fewn y rhestr staff a gynlluniwyd;
- Digwyddiad/ymchwiliad difrifol;
- Pryderon staff nyrsio a godwyd gan yr Ombwdsman/ Crwner/ AGIC; a
- Profiad/adborth wrth gleifion sy'n gyson negyddol.

## Cynnal lefel y staff nyrsio

### Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gynnal lefel y staff nyrsio?

Dylai byrddau iechyd sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i gynnal lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol ar sail shiftt i shiftt ac ar sail hirdymor.

Mae camau rhesymol y dylid eu cymryd ar lefel genedlaethol, corfforaethol strategol (Bwrdd Iechyd) a gweithredol i gynnal lefelau staff nyrsio fel a ganlyn:

#### Camau cenedlaethol

- Rhannu a meincnodi data corfforaethol.

#### Camau corfforaethol strategol

- Cynllunio'r gweithlu ar gyfer cyflenwad parhaus o staff gofynnol a aseswyd drwy ddefnyddio System Gynllunio Cymru;
- Recriwtio mewn ffordd brydlon ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol;
- Strategaethau cadw staff sy'n cynnwys rhoi ystyriaeth i ganlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru;
- Strategaethau llesiant yn y gwaith sy'n cefnogi nyrsys i gyflawni eu rolau;
- Sicrhau bod gofynion strategol y Ddeddf wedi'u hymgorffori i broses IMTP/cynllunio blynyddol y sefydliad;
- Polisiâu a gweithdrefnau'r gweithlu sy'n cefnogi rheolaeth staff effeithiol;
- Fframwaith rheoli risg sefydliadol cadarn.

#### Camau gweithredol

- Defnydd o staff dros dro o fanc nyrsio sy'n briodol o'r gymysgedd sgiliau a nodir yn y rhestr staff a gynlluniwyd;
- Defnydd o staff dros dro o asiantaeth nyrsio sy'n briodol i'r gymysgedd sgiliau a nodir yn y rhestr staff a gynlluniwyd;
- Defnydd dros dro o staff o feysydd eraill o fewn y sefydliad;
- Cau gwelyau dros dro;
- Ystyried newidiadau i lwybr y claf.

Caiff ei gydnabod ar adegau, efallai y bydd yn briodol amrywio'r rhestr staff a gynlluniwyd wrth ymateb i asesiad o aciwtedd claf ar draws y bwrdd iechyd. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai prif nyrs y ward/prif nyrs a'r uwch nyrs asesu'r sefyllfa'n barhaus a dylai pob

bwrdd iechyd ddatblygu system i barhau i arfarnu'r person dynodedig yn ffurfiol. Bydd hyn yn galluogi'r person dynodedig i ystyried a oes angen ail-gyfrifo lefel y staff nyrsio. Yn y sefyllfa hon, dylid gwneud cofnod, ac adolygu'r amgylchiadau.

O dan adran 25A o'r Ddeddf, dylid nodi y rhoddir dyletswydd ar fyrddau iechyd i ddarparu nyrsys digonol i roi amser iddynt ofalu am gleifion yn sensitif lle bynnag y caiff gwasanaethau nyrsio eu darparu neu eu comisiynu. Dylai'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar ddyrannu staff nyrsio ar draws yr holl wasanaethau nyrsio o fewn y sefydliad a rhoi ystyriaeth i anghenion diwylliannol staff (e.e. hyblygrwydd gyda shifftiau yn ystod digwyddiadau crefyddol).

### **Beth ddylid ei gynnwys yn Fframwaith Gweithredu'r byrddau iechyd?**

Mae Atodiad 7 yn rhoi canllawiau i fyrddau iechyd ar y wybodaeth y gellid ei chynnwys o fewn fframweithiau gweithredu'r sefydliad. Dylai'r fframwaith hwn gynnwys pob cam rhesymol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol y dylid cyfeirio atynt hefyd ym mholisi uwch-gyfeirio a chynlluniau busnes wrth gefn y Bwrdd.

### **Pa gofnodion sy'n gysylltiedig â chynnal lefel y staff nyrsio sydd eu hangen?**

Dylai pob bwrdd iechyd roi systemau ar waith lle gellir adolygu a chofnodi bob tro y mae nifer y staff nyrsio a ddefnyddiwyd yn amrywio o'r rhestr staff a gynlluniwyd. Dylai'r systemau hyn gynnwys y camau rhesymol a gymerwyd i gynnal lefel y staff nyrsio a mecanwaith i gofnodi'r defnydd o staff dros dro, gan gynnwys staff banc a staff asiantaeth; a'r achlysuron pan fydd staff nyrsio yn cael eu symud dros dro o feysydd/dyletswyddau clinigol eraill o fewn y sefydliad i gefnogi lefel y staff nyrsio o fewn ward.

Ar adegau, gellir amrywio'r rhestr staff a gynlluniwyd yn briodol wrth ymateb i asesiad o aciwtedd claf ar draws y system a barn broffesiynol prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward.

Dylid defnyddio'r cofnod fel rhan o'r dystiolaeth i ategu'r ail-gyfrifiad misol arferol o lefel y staff nyrsio a bydd hefyd yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r angen i ail-gyfrifo lefel y staff nyrsio ar adegau eraill os oes angen. At hynny, bydd y casgliadau sy'n deillio o'r cofnodion hyn yn helpu i lywio adroddiadau i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru.

### **Sut bydd staff yn gwybod eu bod yn gwneud yr hyn sydd angen ei wneud i gyfrannu at gynnal lefel y staff nyrsio?**

Ar lefel unigolyn, dylai pob nyrs a gofrestrwyd sy'n gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf sicrhau eu bod, o ran y gwaith hwn, yn cynnal gofynion Cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2018) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob unigolyn cofrestredig flaenoriaethu pobl, ymarfer yn effeithiol, cadw diogelwch a hyrwyddo proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth drwy'r amser.

Serch hynny, mae'r canllawiau gweithredol hyn yn ei gwneud yn glir bod y systemau a ddefnyddir i gyfrifo a chynnal lefel y staff nyrsio yn gymhleth ac yn amlweddog. Mae hefyd yn dangos yn glir mai swyddogion a staff ar sawl lefel ym mhob bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am y systemau hyn.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd gael systemau ar waith i hysbysu cleifion am lefelau staff nyrsio ym mhob ward. At hynny, cynghorir pob bwrdd iechyd i roi systemau ar waith i hysbysu'r holl staff am y Ddeddf a'r camau y mae'r timau sy'n gyfrifol am wardiau pediatrig i gleifion mewnol yn eu cymryd i sicrhau bod lefel y staff nyrsio yn cael ei chynnal.

Yn ogystal â hynny, caiff pob bwrdd iechyd eu hannog yn benodol i sefydlu systemau i sicrhau bod staff pob ward pediatrig i gleifion mewnol yn cael eu hysbysu, ac yn cael eu helpu i ddeall y gwaith i sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Ddeddf yn fras o fewn y bwrdd iechyd, ac yn benodol o fewn eu ward. Dylai'r systemau hyn gynnwys sut i rannu'r wybodaeth ganlynl:

- Beth mae data Lefelau Gofal Pediatrig Cymru (archwiliad aciwtedd) yn ei ddangos ynglŷn ag aciwtedd cleifion ar bob ward;
- Beth mae'r data dangosyddion ansawdd yn ei ddangos am ofal sensitif cleifion ym mhob ward; ac
- Unrhyw ddata arall e.e. cyfraddau absenoldeb salwch neu gyfraddau defnyddio nyrsys banc ac asiantaeth a ddefnyddir i lywio barn broffesiynol y person dynodedig.

Bydd angen i hyn egluro beth mae'r data'n ei adlewyrchu am y ward y mae'n cyfeirio ati.

Dylai'r systemau hyn hefyd gynnwys rhoi ystyriaeth i sut bydd gwybodaeth am ba mor dda y mae tîm y ward yn ei wneud wrth gynnal lefel y staff nyrsio yn cael ei rhannu â'r tîm.

Dylid disgrifio systemau unigol byrddau iechyd i gefnogi'r cyfathrebu sy'n cael ei annog uchod o fewn fframwaith gweithredol y bwrdd iechyd.

Gwnaed gwaith cenedlaethol i gefnogi pob bwrdd iechyd i fabwysiadu dull 'Unwaith i Gymru' drwy ddyfeisio taflen wybodaeth sy'n rhestru cwestiynau cyffredin i staff (Atodiad 8).

### **Beth sy'n digwydd os nad yw lefel y staff nyrsio yn cael ei chynnal?**

Byrddau iechyd ar lefel weithredol sy'n atebol am gydymffurfio â'r Ddeddf. Ystyrir unrhyw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio o dan y *Trefniadau Ymyrryd ac Uwch-Gyfeirio ar y Cyd* sydd wedi bod ar waith ers 2014. O dan y trefniadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd â Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddwywaith y flwyddyn i drafod sefyllfa gyffredinol pob bwrdd /ymddiriedolaeth iechyd. Caiff ystod eang o wybodaeth a chudd-wybodaeth eu hystyried i gynghori ar statws uwch-gyfeirio, unrhyw broblemau a sicrhau eu bod yn cael eu datrys yn effeithiol. Byddai peidio â chydymffurfio â darn o ddeddfwriaeth fel Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn cael ei ystyried o dan y trefniadau hyn.

## Sut rydym yn hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio?

Yn unol â gofynion y Ddeddf a'r canllawiau statudol, mae'n ofynnol i bob bwrdd iechyd hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio drwy arddangos lefel y staff nyrsio ar gyfer y ward a dylai hefyd hysbysu cleifion o'r dyddiad y cyflwynwyd y lefel i'w Bwrdd.


Gwnaed gwaith cenedlaethol i ddatblygu templed (Atodiad 9) a fyddai, os caiff ei ddefnyddio i arddangos y wybodaeth sy'n benodol i bob ward pediatrig i gleifion mewnol, yn galluogi pob bwrdd iechyd i fodloni gofynion paragraffau 20-25 o'r canllawiau statudol. Disgwylir i bob bwrdd iechyd benderfynu sut bydd y wybodaeth a ddangosir ar y templed yn cael ei diwedddaru'n lleol a byddai'n briodol i'r broses y cytunwyd arni gael ei chynnwys yn y fframwaith gweithredu. Yn ogystal, mae'n ofynnol i bob bwrdd iechyd sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i gleifion hefyd ar gael yn Gymraeg i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Gwnaed gwaith cenedlaethol hefyd i gefnogi pob bwrdd iechyd i fabwysiadu dull 'Unwaith i Gymru' drwy ddyfeisio taflen wybodaeth sy'n rhestru cwestiynau cyffredin i helpu staff i roi gwybodaeth gywir i gleifion a'u rhieni/gofalwyr am y Ddeddf (Atodiad 10 ac 11).

Efallai y bydd rhai wardiau pediatrig i gleifion mewnol yn dewis darparu gwybodaeth ychwanegol am lefel y staff nyrsio yn ychwanegol at y gofynion gwybodaeth craidd a bennir yn y Ddeddf a'r Canllawiau Statudol. Gallai hyn fod yn arbennig o briodol, er enghraifft, pan fydd o gymorth i gleifion ac ymwelwyr i ddeall natur aml-ddisgyblaethol ehangach y tîm gofal iechyd.

## Atodiadau

### Atodiad 1: Canllawiau statudol (Fersiwn 2)



# Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

## Canllawiau Statudol Fersiwn 2

## Atodiad 2: Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

*Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*

---

i

# Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

## CYNNWYS

- 1 Lefelau staff nyrsio
- 2 Cychwyn
- 3 Enw byr



Atodiad 3: Lefelau Gofal Pediatrig Cymru (Rhifyn 1)



# Lefelau Gofal Pediatrig Cymru Rhifyn 1



Atodiad 4: System Monitro Gofal Iechyd - Canllaw 'Sut i'

# Lefelau Gofal Pediatrig Cymru

# Canllaw i Ddefnyddwyr ar System Fonitoro Gofal Iechyd

**NHS Wales Health & Care Monitoring System**

Welcome, Adrian Hill  
Please choose a module:  
[HCMS Indicators](#) [Nurse Staffing](#)  
[Log out](#)

**Ward Activity**  
Provide the total number of instances for the period of this assessment:

Ward attenders  Escorts on site  Escorts off site

**Adult Acuity:**  
Enter the total number of ward attenders/escorts on site/escorts off site for the 24 hour period from the start of the Day Shift the day before to the end of the Night Shift on the day of the assessment e.g 7am-7am.

**Paediatric Acuity:**

<https://www.hcms.wales.nhs.uk/nurse-staffing/form.cfm?wardid=442#>



## Atodiad 5: Ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried yn ystod y broses gyfrifo

### **Cyffredinol**

- Nodi wardiau
- Cyfnod a archwiliwyd
- Naratif gweithredol
- Cymysgedd llwyth achosion
- Rhestr staff gyffredol – oriau targed y dydd, defnydd, trefn WTE
- Cyfradd gyflawni rhestr staff ddyddiol
- Cyflawniad cyffredinol

### **Aciwtedd**

- Aciwtedd cleifion sy'n defnyddio adnodd lefelau gofal pediatrig Cymru
- Orlau gofal y dydd fesul claf (cyfartaledd)

### **Dangosyddion Ansawdd (cyfeiriwch at dudalen 18)**

- Camgymeriadau meddyginiaeth
- Briwiau pwysu
- Anafiadau elifo/ymdreiddio

### **Barn Broffesiynol**

- Llif cleifion – disgrifiad cyffredinol o'r gweithgaredd, gan gynnwys cleifion mewnol, asesiad, hebrwng, mynychwyr ward etc.
- Amgylchedd – nifer y gwelyau, ciwbiclau, cilfannau, cynllun cyffredinol, ac offer
- Cymysgedd o achosion ac achosion arbenigol – naratif cyffredinol i ddisgrifio'r arbenigedd a llwyth achosion clinigol
- Pwysau gweithredol - disgrifiad cyffredinol o bwysau yn ystod y cyfnod archwilio, newidiadau i'r llwyth gwaith, cleifion arwyddocaol e.e. anghenion clinigol, cymdeithasol, diwylliannol unigryw
- Llwyth gwaith gweinyddol
- Cymorth i fyfyrwyr
- Cefnogaeth sy'n ofynnol gan staff sydd newydd gymhwysu neu staff sydd angen cymorth ychwanegol
- Mynediad i'r Tîm Aml-ddisgyblaethol
- Cymysgedd sgiliau staff - cymwysterau, cymwyseddau, sgiliau a phrofiad nyrsys sy'n darparu gofal i gleifion
- Trosiant staff – swyddi gwag
- Defnydd o staff ychwanegol - yr effaith ar lefel y staff nyrsio wrth ddefnyddio staff dros dro
- Hyfforddi a datblygu – CPD, gofynion hyfforddi gorfodol a galluogi staff nyrsio i gael yr amser i dderbyn yr hyfforddiant priodol
- Anghenion ieithyddol cleifion – gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg.

## Crynodeb

Argymhellion i'w hystyried:

- Unrhyw ddeunyddiau cyfeirio gan gynnwys gofynion technegol neu reoleiddiol sy'n ymwneud ag arbenigedd a lleoli staff
- Yr angen am gynllun gweithredu – amlinellu disgrifiad o'r cynllun a chyfeiriad at y ddogfen ar wahân (rhan o'r dystiolaeth)
- Rhestr staff ddiwygiedig – oriau targed y dydd
- Cyfranogiad a chytundeb yn y broses gyfrifo – Prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward, uwch nyrs, person dynodedig
- Dyddiad y gwnaed y cyfrifiad gan y person dynodedig
- Dyddiad adolygu - cyfnodau archwilio cenedlaethol fel arfer neu gallai fod yn gynt pe bai materion yn cael eu nodi





## Atodiad 7: Gofynion o fewn y Fframwaith Gweithredu

Pwrpas y fframwaith hwn yw: cefnogi'r broses o gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio; amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r gweithwyr proffesiynol allweddol; a nodi'r camau sydd i'w cymryd i adolygu, cofnodi, adrodd ac uwch-gyfeirio pan nad yw lefelau staff nyrsio yn cael eu cynnal.

<b>Gwybodaeth</b>
Dyddiad cynhyrchu a chymeradwyo'r ddogfen
Dyddiad / pa mor aml bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu
Pwrpas y ddogfen
Cyfeiriad at y gweithwyr proffesiynol a gwmpesir gan y ddogfen (Gweithlu, Gweithrediadau a Chynllunio, nyrsio, cyllid), eu rolau a'u chyfrifoldebau
Proses i gyfrifo lefel y staff nyrsio (triogli)
Systemau i adolygu a chofnodi unrhyw wyro wrth y rhestr staff a gynlluniwyd
Camau i gymryd pob cam rhesymol i gynnal lefel y staff nyrsio (gan gynnwys camau gweithredol, strategol a chenedlaethol)
Camau i'w cymryd, a chan bwy, i sicrhau bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i gynnal lefel y staff nyrsio yn yr hirdymor a fesul shifft
Cofnodi ac uwch-gyfeirio pryderon pan na ellir cynnal lefel y staff nyrsio
Cyfeiriad at ddogfennau allweddol (Canllawiau Statudol, Canllawiau Gweithredol)
Camau i'w cymryd o dan adran 25A
Polisi uwch-gyfeirio
Fframwaith gweithredol wedi'i gynnwys ym mholisi uwch-gyfeirio a chynlluniau busnes wrth gefn y Bwrdd
Trefniadau i hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio

## Atodiad 8: Cwestiynau cyffredin i staff mewn wardiau pediatrig i gleifion mewnol

### Beth mae Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ei olygu i fi fel aelod o staff ar ward pediatrig i gleifion mewnol?

#### Cwestiynau Cyffredin

#### Beth yw Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Daeth Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i rym ym mis Mawrth 2016. Ar y 1af o Hydref 2021, bydd ail ddyletswydd y Ddeddf yn cael ei hystyriaeth i wardiau pediatrig i gleifion mewnol. Mae'r Ddeddf yn golygu bod gan fyrddau iechyd:

- dyletswydd gyfreithiol i sicrhau lefel briodol o staff nyrsio ym mhob lleoliad;
- dyletswydd gyfreithiol i gyfrifo a chynnal lefel briodol o staff nyrsio mewn wardiau pediatrig i gleifion mewnol; a
- dyletswydd gyfreithiol i adrodd ar gydymffurfiaeth o ran gofynion staffio a chymryd camau os nad yw lefelau staff nyrsio yn cael eu cynnal.

#### Beth mae lefel y staff nyrsio yn ei olygu?


Lefel y staff nyrsio yw nifer y staff sy'n ofynnol gan ward i alluogi'r tîm i ddarparu gofal i gleifion mewn ffordd sy'n rhoi ystyriaeth i holl anghenion nyrsio holistig cleifion. Mae hyn yn cynnwys y rhestr staff a gynlluniwyd a'r drefn sydd ei hangen.

#### Sut penderfynir ar lefel y staff nyrsio ar gyfer ward?

Yng Nghymru, defnyddiwn nifer o adnoddau i asesu beth ddylai lefel y staff nyrsio fod mewn wardiau gwahanol.

Mae lefel y staff nyrsio yn amrywio o ward i ward, yn dibynnu ar nifer y cleifion a'r math o nyrsio sydd ei angen ar y cleifion hynny. Er enghraifft: efallai y bydd gan wardiau llawfeddygol fwy o gleifion ar y ward yn cael llawdriniaeth rhwng dydd Llun a dydd Gwener, felly mae mwy o staff ar ddyletswydd yn ystod yr wythnos o'i gymharu â'r penwythnos; neu efallai y bydd gan rai wardiau fwy o staff ar ddyletswydd ar ddiwrnodau pan fydd meddyg ymgynghorol yn mynd o amgylch y ward.

Mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd yng Nghymru gyfrifo nifer y nyrsys sydd ei angen i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf drwy ddefnyddio dull trionglog sy'n dod â thair ffynhonnell o wybodaeth at ei gilydd. Yng Nghymru, gwnawn hynny drwy:



- Defnyddio adnodd o'r enw "Lefelau Gofal Pediatrig Cymru", sy'n cynnwys 5 lefel aciwtedd – o Lefel 1 lle mae cyflwr y claf yn sefydlog ac yn rhagweladwy ac angen



gofal nyrsio arferol, hyd at Lefel 5, lle mae'r claf yn ansefydlog iawn ac mewn perygl sy'n gofyn am lefel ddwys o ofal nyrsio parhaus 1:1. Y prif nyrs sy'n gyfrifol am sicrhau bod anghenion gofal cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol a chorfforol yn cael eu hasesu a'u dosbarthu drwy ddefnyddio'r disgrifyddion yn Lefelau Gofal Pediatrig Cymru;

- Edrych ar ddangosyddion ansawdd sy'n arbennig o sensitif i ofal a ddarperir gan nyrs. Dylai gynnwys: anafiadau elifo/ymdreiddio; briwiau pwysu a ddatblygwyd yn yr ysbyty; camgymeriadau meddyginiaeth; a phrofiad cleifion a staff. At hynny, gellir ystyried unrhyw ddangosyddion ansawdd eraill yr ystyrir yn briodol ar gyfer ward; a
- Cymhwysu barn broffesiynol uwch nyrsys sy'n adnabod y wardiau a lefel anghenion cleifion. Rydym yn ystyried nifer y nyrsys cofrestredig ar ddyletswydd ar bob ward yn ogystal â lefel y sgiliau nyrsio; cymwyseddau, a phrofiad y nyrsys; effaith staffio dros dro; trosiant a defnydd gwelyau yn gyffredinol; cyflwr ffisegol a chynllun y ward; gofynion myfyrwyr a dysgwyr; unrhyw swyddogaethau gweinyddol a wneir gan y tîm; cymhlethdod anghenion gofal gan gynnwys anghenion diwylliannol a'r ymwneud amlddisgyblaethol mewn gofal; a darparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Pa mor aml y bydd lefel y staff nyrsio yn cael ei hadolygu?**

Bydd pob bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd yn adolygu lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward:

- bob chwe mis;
- os oes unrhyw beth yn newid ar y ward, er enghraifft, os oes newid yn y grŵp o gleifion sy'n derbyn gofal ar y ward neu nifer y gwelyau a ddefnyddir ar y ward; neu
- os yw'r tîm nyrsio yn meddwl bod angen cynnal adolygiad am unrhyw reswm.

Mae lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn flynyddol, a darperir diweddariad ysgrifenedig unrhyw bryd pan fernir bod angen newid lefel y staff nyrsio am unrhyw reswm.

### **Pwy sy'n gyfrifol am benderfynu beth yw lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward?**

Yn y pen draw, y person dynodedig (y Cyfarwyddwr Nyrsio fel arfer) sy'n gwneud y penderfyniad ar beth yw lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward ar ran y bwrdd iechyd, ond gwneir y penderfyniad yn dilyn trafodaethau gyda'r tîm nyrsio sy'n gyfrifol am y ward, gan gynnwys nyrsys y ward a phrif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward.

### **Sut mae byrddau iechyd yn sicrhau bod lefel y staff nyrsio yn cael ei chynnal?**

Bydd y prif nyrs yn sicrhau bod nifer y staff ar ddyletswydd yn adlewyrchu beth ddylai lefel y staff nyrsio fod ar gyfer pob dydd ar y ward honno a byddant yn hysbysu'r uwch nyrs lle bo bylchau.

Mae gwybodaeth am nifer y nyrsys a'r staff gofal a ddylai fod yn gweithio ar bob shift yn cael ei harddangos ar bob ward.

Mae'r tîm nyrsio yn adolygu ac yn cofnodi'r amseroedd roedd nifer y nyrsys ar ddyletswydd mewn gwirionedd yn amrywio o lefel y staff nyrsio a pha gamau a gymerwyd i ymateb i hyn. Bydd y tîm nyrsio hefyd yn ystyried os yw peidio â chynnal lefel y staff nyrsio wedi cael unrhyw effaith ar y gofal a ddarperir i gleifion ar y ward ar y pryd.

Pan fydd digwyddiadau a chwynion am y gofal a ddarperir gan nyrs yn cael eu hadrodd drwy systemau adrodd digwyddiadau'r byrddau iechyd, ystyrir a oedd peidio â chynnal lefel y staff nyrsio wedi cyfrannu at y digwyddiad/cwynion.



### **Beth sy'n digwydd ar y ward pan fydd bwllch yn y staffio?**

Dyma'r adegau pan fydd y rhestr ddyletswydd yn amrywio o'r rhestr staff a gynlluniwyd fel y nodir yn lefel y staff nyrsio oherwydd salwch annisgwyl ymhlith staff neu resymau eraill y tu hwnt i'n rheolaeth.

Dylai byrddau/ymddiriedolaethau iechyd sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i gynnal lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol o shiftt i shiftt ac yn yr hirdymor.

Ar adegau, gall y rhestr staff a gynlluniwyd gael ei amrywio'n briodol wrth ymateb i asesiad o aciwtedd claf ar draws y system a barn broffesiynol y strwythur rheoli nyrsys. Yn y bydymor, efallai y bydd rhaid i nyrsys ar y ward flaenoriaethu gofal cleifion i gynnal diogelwch cleifion.

### **Beth mae'n ei olygu os oes mwy o staff nyrsio na lefel y staff nyrsio sydd ei angen ar ddyletswydd ar shiftt?**

Mae'r brif nyrs, prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward ac uwch nyrs yn asesu anghenion y cleifion ar y ward yn barhaus, a gall mwy o staff fod ar ddyletswydd ar y ward oherwydd cynnydd yn anghenion gofal cleifion, er enghraifft, lle bo angen gofal nyrsio un-i-un ar glaf, lle bo grŵp o gleifion angen mwy o gymorth neu lle bo claf yn ddifrifol sâl.


### **Beth sy'n digwydd os nad yw lefel y staff nyrsio yn cael ei chynnal?**

Y bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd ar lefel weithredol sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Ddeddf. Byddai peidio â chydymffurfio â darn o ddeddfwriaeth fel Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn cael ei ystyried o dan Drefniadau Ymyrryd ac Uwch-gyfeirio ar y Cyd sydd wedi bod ar waith ers 2014.

### **Ble alla i gael mwy o wybodaeth?**

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn Fframwaith Gweithredu'r byrddau iechyd ac o fewn y Canllawiau Gweithredol a'r Canllawiau Statudol sydd ar gael ar wefannau byrddau iechyd neu drwy wefan AaGIC. O fewn pob bwrdd iechyd, ceir arweinydd gweithredol a fydd yn rhoi arweiniad a chefnogaeth i staff.

Atodiad 9: Ttempl i hysbysu clefion o lefel y staff nyrso




**Staff Nyrso  
Nurse Staffing**










---

**Enw Ward**

---



Y nifer o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd (GCGI) sydd eu hangen i ofalu amdanoch bob bore, prynhawn a'r nos

		Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
Bore 	Nyrs 							
	GCGI 							
Prynhawn 	Nyrs 							
	GCGI 							
Nos 	Nyrs 							
	GCGI 							

Y mae angen i'r ysbwy sicrhau eich bod yn ymwybodol sawl nyrs/ GCGI sydd eu hangen yn rhan o'r tîm i ofalu amdanoch a'r dyddiad pan bennwyd y nifer hwn.

Y nifer cyflawn o Nyrsys/ GCGI sydd eu hangen ar dîm y ward

Dyddiad pan bennwyd y nifer hwn o nyrsys/ GCGI angenrheidiol:

Yn ogystal â'r nyrsys a'r GCGI byddwch, o bosib, yn gweld staff gofal iechyd eraill ar yr ward a fydd yn gweithio gyda'r nyrsys i ofalu amdanoch. Er enghraifft, arbenigwr chwarae neu ffisiotherapydd.

Pe dymunech wybod mwy, gallwch ofyn i'r nyrs sy'n gofalu amdanoch.

Atodiad 10: Cwestiynau cyffredin i Blant a Phobl Ifanc

**ESAGONIAD O'R**

Beth yw'r ddeddf lefelau staff nyrzio?

Mae hon yn gyfraith i sicrhau bod gan ysbytai ddigon o nyrzio i ofalu amdanoch chi.

**DDEDDF**

Sut ydyn ni'n gwybod faint o nyrzio sydd eu hangen i ofalu amdanoch chi?

Rydyn ni'n penderfynu faint o nyrzio sydd eu hangen yn seiliedig ar ba mor wael yw'r plant ar y ward.

**LEFELAU**

Sut ydyn ni'n sicrhau bod digon o nyrzio bob dydd a nos?

Rydym yn gwirio faint o nyrzio sydd eu hangen ar gyfer pob dydd a nos yn ôl nifer y plant ar y ward a pha mor wael ydyn nhw, os oes angen mwy o nyrzio efallai y bydd nyrzio ychwanegol yn cael eu galw i mewn.

**STAFF**

Pa mor aml y byddwn yn gwirio faint o nyrzio sydd angen ar y ward?

Rydyn ni bob amser yn sicrhau bod digon o nyrzio ar y ward, a hefyd yn adolygu hyn bob 6 mis rhag ofn bod angen unrhyw newidiadau.

**NYRSIO (CYMRU)....**

Unrhyw gwestiynau eraill?

Gallwch ofyn i unrhyw un o'r nyrzio sy'n gofalu amdanoch chi.

**CAV HYB**  
Cardiff And Vale Health Youth Board  
Bwrdd Iechyd Ifanc Cymrydd A Y Fro

**BAYOUTH**  
Ymroddion Cymru  
Youth Voice of Wales

## Atodiad 11: Cwestiynau cyffredin i Rieni a Gofalwyr

### Beth mae Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ei olygu i mi fel rhiant / gofalwr? Cwestiynau Cyffredin

#### Beth yw Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016?

Daeth Deddf Lefel Staffio Nyrsio (Cymru) 2016 yn gyfraith ym mis Mawrth 2016. Ar 1 Hydref 2021, bydd ail ddyletswydd y Ddeddf yn cael ei ymestyn i wardiau cleifion mewnol pediatriig. Mae'r Ddeddf yn golygu bod gan fyrddau iechyd / ymddiriedolaeth:

- Ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau lefel briodol o staff nyrsio ym mhob lleoliad;
- Dyletswydd gyfreithiol i gyfrifo a chynnal y lefel staff nyrsio briodol mewn wardiau cleifion mewnol pediatrieg; a
- Dyletswydd gyfreithiol i adrodd ar gydymffurfiaid â gofynion staffio a gweithredu os na chynhelir lefelau staff nyrsio.

#### Beth mae lefel staff nyrsio yn ei olygu?

Y lefel staff nyrsio yw nifer y staff sy'n ofynnol gan ward i alluogi'r tîm i ddarparu gofal i'r cleifion mewn ffordd sy'n ystyried holl anghenion nyrsio'r cleifion.

#### Sut y penderfynir ar lefel staff nyrsio ward?

Yng Nghymru rydym yn defnyddio nifer o offer i asesu beth ddylai lefel staff nyrsio fod ar gyfer gwahanol wardiau.

Mae lefel staff nyrsio yn amrywio o ward i ward, yn dibynnu ar nifer y cleifion a'r math o nyrsio sydd ei angen ar y cleifion hynny. Mae gan ofal dwys, er enghraifft, gymhareb nyrs i glaf uwch na ward feddygol neu lawfeddygol.

Ar rai wardiau gall lefel staff y nyrsio amrywio o ddydd i ddydd yn dibynnu ar sut mae'r ward yn gweithio, er enghraifft, mae gan rai wardiau llawfeddygol fwy o gleifion ar y ward yn cael llawdriniaeth rhwng dydd Llun a dydd Gwener o gymharu â dydd Sadwrn a dydd Sul felly mae mwy o staff ar ddyletswydd. yn ystod yr wythnos o'i gymharu â'r penwythnos. Rydym yn cymryd gwybodaeth o wahanol ffynonellau ac mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i benderfynu beth ddylai'r lefel staff nyrsio fod. Yng Nghymru mae'r wybodaeth a ddefnyddiwn yn cynnwys:

- Defnyddio teclyn o'r enw "Lefel Gofal Paediatreg Cymru"; edrychwn ar ba mor sâl neu ddibynol yw'r cleifion ar y ward benodol honno a lefel y gofal sydd ei angen arnynt.
- Edrych ar y wybodaeth sydd gennym eisoes am ddiogelwch ac ansawdd pob gwasanaeth, a phrofiad pobl yr adroddwyd amdano.
- Cymhwyso barn broffesiynol yr uwch nyrsys sy'n adnabod y wardiau a lefel angen y cleifion. Rydym yn monitro nid yn unig nifer y nyrsys cofrestredig sydd ar ddyletswydd ar bob ward ond hefyd lefel y sgil nyrsio sy'n ofynnol, yn ogystal â staff hyfforddedig eraill sy'n darparu gofal i gleifion, er enghraifft, ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol.

#### Pa mor aml y bydd y lefel staff nyrsio yn cael ei hadolygu?

Bydd pob bwrdd iechyd yn edrych ar y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward:

- Bob chwe mis;



- os bydd rhywbeth yn newid ar y ward, er enghraifft, os oes newid yn y grŵp o gleifion sy'n derbyn gofal ar y ward neu nifer y gwelyau sy'n cael eu defnyddio ar y ward; neu
- Os yw'r tîm nyrsio o'r farn bod angen cynnal adolygiad am unrhyw reswm.

Cyflwynir lefel staff nyrsio pob ward i'r Bwrdd bob blwyddyn.

### **Pwy sy'n gyfrifol am benderfynu beth ddylai lefel staff nyrsio pob ward fod?**

Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio sy'n gwneud y penderfyniad ar lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward yn y pen draw ar ran y bwrdd iechyd, ond gwneir y penderfyniad yn dilyn trafodaethau gyda'r tîm nyrsio sy'n gyfrifol am y ward, gan gynnwys y nyrsys ar y ward a'r prif nyrs / nyrs â gofal / rheolwr.

### **Sut mae byrddau iechyd yn sicrhau bod lefel staff nyrsio ward yn cael ei chynnal?**

Bydd prif nyrs y ward / nyrs â gofal / rheolwr ward yn sicrhau bod nifer y staff ar ddyletswydd yn adlewyrchu'r lefel staff nyrsio ddylai fod ar gyfer pob diwrnod ar gyfer y ward honno a byddant yn hysbysu'r uwch nyrs pan fydd bylchau.

Mae gwybodaeth am nifer y nyrsys a'r staff gofal a ddylai fod yn gweithio ar bob shift yn cael ei harddangos ar bob ward.

Mae'r tîm nyrsio yn adolygu ac yn cofnodi'r amseroedd yr oedd nifer y nyrsys ar ddyletswydd mewn gwirionedd yn amrywio o'r lefel staff nyrsio a pha gamau a gymerwyd gennym mewn ymateb i hyn. Bydd y tîm nyrsio hefyd yn ystyried a yw peidio â chynnal y lefel staff nyrsio wedi cael unrhyw effaith ar y gofal a ddarperir i'r cleifion ar y ward ar y pryd.

### **Beth sy'n digwydd ar y ward pan fydd bwlch mewn staffio?**

Mae yna adegau pan all y lefel staff nyrsio ar ward fod yn is na'r hyn a gynlluniwyd gennym oherwydd salwch staff annisgwyl neu resymau eraill y tu hwnt i'n rheolaeth. Pan fydd hyn yn digwydd bydd y nyrs â gofal yn ceisio cwmpasu'r newid hwn trwy ofyn i staff newid eu shift, lle bo hynny'n bosibl. Os oes bwlch o hyd, bydd y nyrs â gofal yn uwch gyfeirio hyn i'r uwch nyrs ar ddyletswydd a fydd yn ystyried cynnig oriau ychwanegol neu oramser i staff lenwi'r bwlch ac a fydd yn ystyried y posibilrwydd o symud staff o gwmpas rhwng wardiau ac adrannau. Mae uwch nyrs ar ddyletswydd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar bob safle ysbyty y mae ei rôl yn cynnwys rheoli staff nyrsio a sicrhau bod y lefelau staff nyrsio yn cael eu cynnal. Bydd yr uwch nyrs hefyd yn ystyried a oes angen i ni ddefnyddio staff o'n banc nyrsys ysbyty neu o asiantaeth nyrsio. Os yw'r bwlch mewn staff yn dal heb ei ddatrys, bydd yr uwch nyrs yn trosglwyddo hyn i'r uwch reolwr nyrsio ac yn trafod pa gamau pellach y mae angen eu hystyried.

Yn y tymor byr, efallai y bydd yn rhaid i nyrsys ar y ward weithio mewn ffordd wahanol a chanolbwyntio ar ofal hanfodol i gynnal diogelwch cleifion.

### **Beth mae'n ei olygu os oes mwy o staff nag y mae'r lefel staff nyrsio yn gofyn amdanynt ar ddyletswydd ar shift?**

Mae prif nyrs y ward / nyrs â gofal / rheolwr ward ac uwch nyrs yn asesu anghenion y cleifion ar y ward yn barhaus, ac efallai y bydd mwy o staff ar ddyletswydd yn y ward oherwydd cynnydd yn anghenion gofal cleifion, er enghraifft, lle gallai fod angen claf gofal nyrsio un i un neu lle mae claf wedi mynd yn fwy sâl. Ar yr achlysuron hyn, a lle bo angen,

gellir gofyn i staff weithio oriau ychwanegol neu oramser i lenwi'r bwch, neu fel arall gellir gofyn am staff dros dro.

**I gael mwy o wybodaeth am lefelau staff yn ein hysbytai neu os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am lefel staff nyrsio neu'r gofal rydych chi'n ei dderbyn ar y ward yna siaradwch â'r prif nyrs ar y ward / nyrs â gofal / rheolwr ward**

Atodiad 12: Cwestiynau cyffredin hawdd eu darllen i gleifion



Hawdd i'w ddarllen

## Ynglŷn â lefelau staff nyrzio

**Beth mae Deddf Lefelau Staff Nyrzio (Cymru) 2016 yn ei olygu i fi?**



Dyma fersiwn hawdd i'w darllen gan GIG Cymru o **'Beth mae Deddf Lefelau Staff Nyrzio (Cymru) 2016 yn ei olygu i fi ar ward pediatrig i gleifion mewnol? – Cwestiynau Cyffredin'**

Ionawr 2019

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Fersiwn hawdd i'w darllen yw hon. Mae'r geiriau a'u hystyr yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd angen cymorth arnoch chi i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae'n golygu **GIG Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:



Cafodd y ddogfen hon ei chreu fel fersiwn hawdd gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** drwy ddefnyddio **symbolau lluniau**.



## Beth mae lefelau staff nyrsio yn ei olygu?



Mae **lefelau staff nyrsio** yn golygu nifer y nyrsys sydd eu hangen i ofalu am gleifion yn iawn ac yn ddiogel.



Efallai y byddwch yn gweld staff gofal iechyd eraill yn gweithio yn y wardiau. Er enghraifft, ffisiotherapyddion sy'n helpu pobl i symud o gwmpas.



## Beth yw Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016?

Daeth **Deddf Lefelau Staff Nyrsio** i rym yng Nghymru ym mis Mawrth 2016.




Mae'n golygu bod **rhaid** i fyrddau iechyd wneud yn siŵr bod digon o nyrsys ar wardiau pediatrig i gleifion mewnol er mwyn gofalu am gleifion yn ddiogel.

# Sut mae penderfynu ar lefelau staff nyrsio pob ward?



Efallai y bydd lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward yn wahanol. Mae'n dibynnu ar nifer y cleifion ar y ward.



Mae hefyd yn dibynnu ar anghenion y cleifion. Er enghraifft, pa fath o ofal nyrsio sydd ei angen arnyn nhw.

I'n helpu i benderfynu faint o nyrsys sydd eu hangen ar gyfer pob ward, rydym yn edrych ar 3 peth:



- beth yw barn y nyrsys
- pa mor sâl yw'r cleifion a faint o ofal sydd ei angen arnyn nhw
- ansawdd a diogelwch y gofal ym mhob ward.

# Pwy sy'n penderfynu ar lefelau staff nyrso ar gyfer pob ward?



Y **Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso** sy'n gyfrifol am benderfynu ar lefelau staff nyrso ar gyfer pob ward.



Maen nhw'n siarad gyda'r fîm nyrso ar gyfer pob ward cyn gwneud penderfyniad.

## Pa mor aml y mae lefelau staff nyrso yn cael eu gwirio?

Dylid gwirio lefelau staff nyrso ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol:



- bob **6 mis**
- pan fydd rhywbeth yn newid ar y ward. Er enghraifft, os yw nifer y gwelyau sy'n cael eu defnyddio ar y ward yn newid
- os yw'r fîm nyrso yn credu bod angen gwirio'r lefelau unwaith eto am ryw reswm.



# Sut bydd wardiau yn gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw y lefelau staff nyrso cywir?



Bydd y **brif nyrs** yn gwneud cynllun staff drwy edrych ar faint o staff nyrso sydd angen bod ar y ward.



Os nad oes digon o nyrsys, bydd y brif nyrs yn siarad gyda'r **uwch nyrs**. Efallai y byddan nhw'n talu am nyrsys ychwanegol i weithio yn y ward er mwyn gwneud yn siŵr bod yna ddigon.

## Sut mae cael gwybod mwy?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am lefelau staff nyrso ar y ward hon, siaradwch â:



- Rheolwr y Ward
- Prif Nyrs y Ward neu
- Y Prif Nyrs

Eluned Morgan  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Llywodraeth Cymru

16 Mehefin 2023

Annwyl Eluned

### Deintyddiaeth

Diolch am eich ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar ddeintyddiaeth. Trafodwyd eich ymateb yn ein cyfarfod ar 14 Mehefin 2023, a chytunwyd i ysgrifennu atoch cyn y ddatl yr wythnos nesaf ar adroddiad y Pwyllgor i ofyn am eglurhad ar nifer o faterion sy'n codi o'ch ymateb. Byddai'n ddefnyddiol ateb y pwyntiau hyn naill ai yn eich cyfraniad i'r ddatl, neu yn ysgrifenedig wedi hynny.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer creu rhestr aros ganolog, gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn am y cynnydd erbyn diwedd 2023. Fel cam dros dro, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn creu rhestr aros ganolog ar gyfer ei ardal erbyn diwedd 2023.

Yn eich ymateb i argymhelliad 3, rydych chi'n dweud bod swyddogion eisoes mewn trafodaethau gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) i gwmpasu dyluniad ar gyfer rhestr aros ddeintyddol Cymru gyfan. Mae'r arwyddion cychwynnol yn awgrymu bod modd cyflawni hyn o fewn y flwyddyn ariannol nesaf a bod cyllid wedi'i neilltuo i ariannu'r prosiect. Fodd bynnag, yn y **Cyfarfod Llawn ar 24 Mai**, dywedoch chi eich bod yn gobeithio y bydd cofrestrfa ddata ganolog ar waith erbyn diwedd y flwyddyn hon.

1. A allwch chi egluro pryd y caiff rhestr aros ganolog ei chyflwyno.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r gofynion ar gyfer casglu data drwy ddeintyddion y GIG er mwyn symleiddio'r broses a lleihau dyblygu gwaith. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2023, a dylid rhoi gwybod i ni beth yw'r canfyddiadau erbyn mis Mawrth 2024 fan bellaf.

Yn eich ymateb i argymhelliad 5, rydych chi'n dweud y byddwch chi'n gofyn i'r gweithgor perthnasol adolygu'r argymhelliad hwn a nodi opsiynau i leihau'r baich gweinyddol.

2. A allwch chi gadarnhau y byddwch yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda chanfyddiadau'r grŵp erbyn y dyddiad sydd wedi'i bennu yn ein hargymhelliad?

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y strategaeth ar gyfer y gweithlu deintyddol yn adlewyrchu'r dyheadau newydd a'r angen am fwy o gymysgedd sgiliau yn y gweithlu, a dylid cyhoeddi'r strategaeth hon cyn gynted â phosibl. Gan fod disgwyl i'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gael y drafft ym mis Rhagfyr 2022, dylid cyhoeddi'r strategaeth derfynol erbyn gwanwyn 2023 fan bellaf.

Yn eich ymateb i argymhelliad 8, rydych chi'n dweud na fydd cynllun y gweithlu yn cael ei gyhoeddi'n ffurfiol tan fis Gorffennaf 2023.

3. A allwch chi roi rhagor o fanylion am gynnwys cynllun y gweithlu ac a yw'n adlewyrchu'r dyheadau newidiol a'r angen am gymysgedd sgiliau ehangach yn y gweithlu, fel y mae'r argymhelliad yn ei nodi?

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i gyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i alluogi therapyddion deintyddol i gael rhif perfformiwr, a dylai roi amserlen i ni ar gyfer gwneud hyn.

Yn eich ymateb, rydych chi'n dweud, yn dilyn cyhoeddiad GIG Lloegr y bydd therapyddion deintyddol a hylenyddion bellach yn cael agor a chau cyrsiau triniaeth, nad oes angen newid deddfwriaethol ar hyn o bryd, ac mae swyddogion bellach yn paratoi cyfathrebiadau i fyrddau iechyd i egluro sut y bydd y newid hwn yn cael ei weithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

4. A allwch chi gadarnhau nad oes bellach angen rhif perfformiwr ar therapyddion deintyddol i agor a chau cyrsiau triniaeth?
5. A allwch chi hefyd egluro beth yw ystyr 'y flwyddyn ariannol nesaf', h.y. a fydd y newid yn dod i rym o fis Ebrill 2024?

Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer ehangu'r rhaglen Gwên am Byth i leoliadau preswyl eraill, fel cartrefi gofal i bobl iau sy'n agored i niwed, tai gwarchod a thai gofal ychwanegol, gan adrodd ei ganfyddiadau yn ôl i'r Pwyllgor hwn erbyn diwedd 2023..




Mae eich ymateb yn nodi, ers derbyn yr argymhelliad, eich bod wedi canfod bod rhai byrddau iechyd eisoes yn ymgysylltu â'r mathau hyn o wasanaethau, a hynny drwy eu gwasanaethau deintyddol cymunedol. Ar ben hynny, er bod y rhaglen ei hun wedi'i hanelu at bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, mae'r adnoddau ar gael am ddim drwy wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru - Gwên am byth - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru).

6. A allwch chi roi manylion am ba fyrddau iechyd y cyfeirir atynt, a nifer a math y lleoliadau?
7. A allwch chi gadarnhau hefyd pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ehangu'r rhaglen Gwên am Byth yn y byrddau iechyd sy'n weddill?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech fynd i'r afael â'r materion hyn yn eich ymateb i'r ddadl. Os nad yw'n bosibl i chi grybwyll yr holl faterion hyn yn ystod y ddadl, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb yn ysgrifenedig **erbyn 6 Gorffennaf 2023**.

Yn gywir



Russell George AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Russell George  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Senedd Cymru

[Russell.George@senedd.cymru](mailto:Russell.George@senedd.cymru)

13 Gorffennaf 2023

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mehefin 2023 mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Ddeintyddiaeth. Byddaf yn ymdrin â'r pwyntiau penodol a wnaed yn eich llythyr isod:

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer creu rhestr aros ganolog, gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn am y cynnydd erbyn diwedd 2023. Fel cam dros dro, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn creu rhestr aros ganolog ar gyfer ei ardal erbyn diwedd 2023.**

1. *A allwch chi egluro pryd y caiff rhestr aros ganolog ei chyflwyno.*

Rhannaf eich cred ym mhwsigrwydd creu rhestr aros ganolog cyn gynted â phosibl. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar hyn a gallaf gadarnhau mai'r nod yw cwblhau hyn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

**Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r gofynion ar gyfer casglu data drwy ddeintyddion y GIG er mwyn symleiddio'r broses a lleihau dyblygu gwaith. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2023, a dylid rhoi gwybod i ni beth yw'r canfyddiadau erbyn mis Mawrth 2024 fan bellaf.**

2. *A allwch chi gadarnhau y byddwch yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda chanfyddiadau'r grŵp erbyn y dyddiad sydd wedi'i bennu yn ein hargymhelliad?*

Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei drafod fel rhan o'r trafodaethau ynghylch y contract newydd. Er na allaf fanylu ar yr hyn a fydd yn cael ei drafod, gallaf gadarnhau y bydd y defnydd o'r Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg, y data y mae'n ei gynhyrchu a'r amser sy'n gysylltiedig â'i ddefnyddio yn bendant yn cael eu trafod fel rhan o'r trafodaethau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i alluogi trafodaethau ar y contract newydd i ddechrau cyn gynted â phosibl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 114**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y strategaeth ar gyfer y gweithlu deintyddol yn adlewyrchu'r dyheadau newydd a'r angen am fwy o gymysgedd sgiliau yn y gweithlu, a dylid cyhoeddi'r strategaeth hon cyn gynted â phosibl. Gan fod disgwyl i'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gael y drafft ym mis Rhagfyr 2022, dylid cyhoeddi'r strategaeth derfynol erbyn gwanwyn 2023 fan bellaf.**

- 3. A allwch chi roi rhagor o fanylion am gynnwys cynllun y gweithlu ac a yw'n adlewyrchu'r dyheadau newidiol a'r angen am gymysgedd sgiliau ehangach yn y gweithlu, fel y mae'r argymhelliad yn ei nodi?*

Fel y dywedais yn ystod y ddadl ar 21 Mehefin, mae Addysg a Gwella lechyd Cymru (AaGIC) wrthi'n datblygu cynllun gweithlu ar gyfer deintyddiaeth a fydd yn canolbwyntio nid yn unig ar dyfu'r gweithlu, ond ar ei gadw hefyd. Yn gynharach eleni, cyhoeddais gynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu, ac roedd angen i'r cynllun hwn gael ei gyhoeddi'n gyntaf. Mae'n ymrwymo i gyflawni cynllun gweithlu strategol ar gyfer deintyddiaeth erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu i raddau helaeth ar y sail y gall cymysgedd sgiliau chwarae rôl sylweddol wrth ddarparu gofal deintyddol y GIG. Mae'r rhwystr rheoleiddiol, a oedd yn atal therapyddion deintyddol rhag agor a chau cyrsiau triniaeth yn benodol, bellach wedi'i ddileu. Golyga hyn fod hon yn rhan o'r gweithlu deintyddol y mae angen i ni fuddsoddi ynddi. Bydd nifer y lleoedd therapi deintyddol ym Mhrifysgol Caerdydd yn cynyddu o 11 i 18 o'r mis Medi hwn ymlaen ac yn cynyddu i hyd at 24 o fis Medi 2024 ymlaen. Mae AaGIC hefyd wedi cyflwyno rhaglen sylfaen un flwyddyn ar gyfer graddedigion therapi deintyddol newydd a fydd yn eu cefnogi yng nghamau cynnar eu gyrfa yn y GIG.

Mae cynllun y gweithlu yn allweddol i nodi'r niferoedd hyfforddi sydd eu hangen arnom ar gyfer y dyfodol, ond ni fyddwn yn aros am hynny os bydd cyfleoedd i gynyddu'r niferoedd hyn yn ymddangos yn gynharach.

**Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i gyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i alluogi therapyddion deintyddol i gael rhif perfformiwr, a dylai roi amserlen i ni ar gyfer gwneud hyn.**

- 4. A allwch chi gadarnhau nad oes bellach angen rhif perfformiwr ar therapyddion deintyddol i agor a chau cyrsiau triniaeth?*
- 5. A allwch chi hefyd egluro beth yw ystyr 'y flwyddyn ariannol nesaf', h.y. a fydd y newid yn dod i rym o fis Ebrill 2024?*

Yn ddiweddar, rydym wedi dileu'r rhwystr rheoleiddiol canfyddedig a oedd yn atal therapyddion deintyddol, hylenywyr a thechnegwyr deintyddol clinigol rhag chwarae rhan lawn yng ngofal y GIG. Ers mis Ebrill 2023, mae'r gweithwyr deintyddol proffesiynol hyn bellach yn gallu agor a chau cyrsiau triniaeth y GIG, sy'n cynyddu capasiti'r gweithlu presennol. Gwnaed hyn heb yr angen i roi rhif perfformiwr i'r aelodau hyn o'r tîm deintyddol.

**Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer ehangu'r rhaglen Gwên am Byth (GAB) i leoliadau preswyl eraill, fel cartrefi gofal i bobl iau sy'n agored i niwed, tai gwarchod a thai gofal ychwanegol, gan adrodd ei ganfyddiadau yn ôl i'r Pwyllgor hwn erbyn diwedd 2023.**

- 6. A allwch chi roi manylion am ba fyrddau iechyd y cyfeirir atynt, a nifer a math y lleoliadau?*

Rwyf wedi cael gwybod bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu gwasanaethau yn y cartref i bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal. Cynigir gwasanaeth cynhwysfawr i bobl ag Anghenion Gofal Arbennig ac mae Rhaglenni Hyrwyddo Iechyd y Geg lleol ar gyfer plant ac oedolion ag Anableddau Dysgu.

Mae tîm GAB Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi cynllunio rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff gofal yn y cartref ac wedi hyfforddi dros 85 o staff hyd yn hyn. Mae'r tîm hefyd yn gweithio gyda Nyrsys Ardal.

Mae gan Gwm Taf Morgannwg rai cartrefi gofal sy'n cynnig tai gwarchod ochr yn ochr â'r gwasanaethau arferol a gynigir gan gartrefi gofal ac mae'r rhain yn ymwneud â'r rhaglen GAB. Ceir hefyd gartref gofal sydd ag uned ar gyfer oedolion iau sy'n rhan o'r rhaglen GAB.

Yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r tîm GAB hefyd yn darparu hyfforddiant gofal ceg ar gyfer lleoliadau byw â chymorth sy'n darparu gofal i oedolion iau. Maent hefyd yn darparu sesiynau ar gyfer y sector gofal yn y cartref sy'n cael ei redeg gan y cyngor ar draws Merthyr a Rhondda Cynon Taf.

Ym Mhowys, gall lleoliadau preswyl eraill gael mynediad at wasanaeth yn y cartref y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.

*7. A allwch chi gadarnhau hefyd pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ehangu'r rhaglen Gwên am Byth yn y byrddau iechyd sy'n weddill?*

Ein ffocws ar hyn o bryd yw ailsefydlu'r rhaglen GAB yn dilyn y bwloch a grëwyd yn sgil pandemig COVID-19. Byddai angen cyllid a phersonél ychwanegol ar gyfer ehangu ymhellach ac ar hyn o bryd mae'n anodd iawn cael gafael ar y rhain.

Rwy'n gobeithio y bydd y diweddariad hwn yn ddefnyddiol i chi. Pe bai o fudd i'r Pwyllgor, gallaf roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n digwydd ar yr holl argymhellion yn ystod tymor yr hydref.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

**Y Pwyllgor Iechyd a  
Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care  
Committee**

**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
Seneddlechyd@senedd.cymru  
senedd.cymru/Seneddlechyd  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddHealth@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddHealth  
0300 200 6565

Eluned Morgan AS


Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

13 Gorffennaf 2023

Annwyl Eluned

Gweler yr ohebiaeth sydd wedi'i hatodi, a gefais gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru ynghylch cyflwyno'r Gwasanaeth Presgripsiwn Electronig yng Nghymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried y materion a godwyd wrth gyflwyno'r gwasanaeth.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

04 July 2023



Russell George MS  
Chair of the Health and Social Care Committee, Senedd

By email:

Dear Chair

## **PRIMARY CARE ELECTRONIC PRESCRIBING SERVICE MOVEMENT OF PRESCRIPTIONS ACROSS BORDERS**

Thank you for recently meeting with Community Pharmacy Wales to discuss our concern regarding the movement of prescriptions across the border to England. Below are our concerns that we raised during our meeting.

Although it is feasible, very few Welsh prescriptions are currently dispensed in England, either from England based community pharmacies or England based Distance Selling Pharmacies (DSPs). This is because it would rely on a paper prescription flowing across the border which would require a patient to present the prescription in person or by post to access their services. Unless action is taken by the Welsh Government to prevent it, it will be impossible to retain this position following the introduction of the Electronic Prescription Service in Wales. We are asking for this protection from the Welsh Government to the community pharmacy network in Wales, particularly during the roll-out phase of implementation of the EPS, because of the risk to individual businesses prior to achieving a level playing field.

In England the number of items dispensed by Distance Selling Pharmacies is growing monthly but is currently some 4.5% of the total number of prescription items dispensed in England. Following the introduction of EPS in Wales, there is no reason to believe that the same % of Welsh prescriptions will not be dispensed by DSPs located in England due to the very aggressive marketing campaigns that they currently undertake. We are aware that they intend to increase their marketing activity in Wales immediately following the introduction of EPS and to target GPs located in the pilot sites.

The Wales based GP network operates two separate patient record systems. The Wales based community pharmacy network operates 8 patient management systems and it is intended to roll out EPS to community pharmacies over a fifteen-month period. This means that different areas across Wales will "go live" at different times making it easier for England based DSPs to target those areas. DSPs have existed in England for many years and are very slick and

---

Chief Executive: Russell Goodway OBE OSTJ

2 Caspian Point, Caspian Way, Cardiff, CF10 4DQ  
2 Caspian Pentir, Ffordd Caspian Caerdydd, CF10 4DQ  
Tel./Ffon 029 2044 2070  
Fax/Ffacs 029 2044 2071  
russell.goodway@cpwales.org.uk  
www.cpwales.org.uk


polished at blanketing areas with publicity – they have already been in contact with DHCW and others in Wales to find out more on the Welsh roll-out.

Prescriptions are footfall drivers into community pharmacies – so without prescriptions the pharmacies will have a reduced opportunity to deliver Clinical Services which will then impact on other parts of the NHS. Additionally, community pharmacies are also footfall drivers for the rest of the high street – reduced prescriptions in community pharmacies will result in reduced footfall. It is likely that the loss the lost income associated with the reduction in the number of prescriptions dispensed in Wales, together with the loss of associated retained purchase profit will result in further pharmacy closures. The rate of pharmacy closures in Wales is currently higher than in England where the reduction in the number of pharmacies was expected due to Government funding policy. By the end of August 2023, Wales will have less than 700 pharmacies for the first time in over 15 years with only 699 pharmacies compared to 717 in December 2019 – an overall reduction of 2.5%.

We would be grateful if your committee would reflect on the current proposal as a matter of urgency to ensure that Wales based practices are best protected in the interests of the patient population in Wales.

We would be happy to meet with you again or fellow committee members to discuss our concerns in more detail, if you feel that would be helpful.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "Judy Thomas". The signature is written in a cursive style and is positioned above a horizontal line that serves as a separator.

**JUDY THOMAS**  
**ACTING CHIEF EXECUTIVE**

Llywodraeth Cymru  
Welsh GovernmentRussell George AS  
Cadeirydd,  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol[Seneddlechyd@senedd.cymru](mailto:Seneddlechyd@senedd.cymru)

28 Gorffennaf 2023

Annwyl Russell,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 4 Gorffennaf ynghylch cyflwyno'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig (EPS) yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi'r lefel uchaf erioed o gyllid yn y sector fferylliaeth gymunedol ac mae fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru yn cael llawer mwy o gyllid y GIG fesul fferyllfa nag mewn unrhyw ran arall o'r DU. Mae ein diwygiadau i drefniadau cytundebol y GIG yn golygu bod fferyllfeydd yma bellach yn cael incwm sylweddol am ddarparu ystod gynyddol o wasanaethau clinigol ychwanegol. Mae'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllfeydd cenedlaethol Cymru, yn sicrhau ein bod yn gwireddu manteision hyfforddiant ac arbenigedd fferyllwyr, yn tynnu pwysau oddi ar Ymarferwyr Cyffredinol a gwasanaethau eraill y GIG, ac yn gwella mynediad at ofal o ansawdd uchel i bobl ledled Cymru. Mae'n bwysig nodi bod ein diwygiadau yn helpu i greu dyfodol cynaliadwy i fferyllfeydd cymunedol mewn perthynas â gwell defnydd o hyfforddiant, arbenigedd a hygyrchedd fferyllwyr.

Bydd ein diwygiadau yn golygu bod mwy o bobl yn defnyddio fferyllfeydd yn y dyfodol am eu bod yn darparu mynediad cyflym at ystod o wasanaethau gofal iechyd gan sicrhau nad yw'r sector yn ddibynnol ar ymweliadau gan bobl y mae eu presgripsiynau'n cael eu paratoi. Mae'r diwygiadau hefyd yn golygu bod y lefelau uchaf erioed o gyllid contractiol yn cael eu gwarantu, hyd yn oed os dylai nifer y presgripsiynau sy'n cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd yng Nghymru leihau ar ôl i EPS gael ei gyflwyno.

Mae llif trawsffiniol presgripsiynau yn bwysig i lawer o bobl ac yn enwedig y rhai sy'n byw ac yn defnyddio fferyllfeydd yn agos at y ffin â Lloegr. Bydd cyflwyno EPS yng Nghymru yn golygu y gall pobl enwebu unrhyw fferyllfa yng Nghymru neu Loegr yn y dyfodol i weinyddu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SNCanolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 120  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eu presgripsiwn. Gall hyn arwain at newid i'r ffordd y mae presgripsiynau rhai pobl yn cael eu gweinyddu.

Efallai y bydd rhai pobl yng Nghymru nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd, yn dewis i'w presgripsiynau gael eu gweinyddu gan fferyllfeydd yn Lloegr ac efallai y bydd rhai pobl yn Lloegr yn dewis i'w presgripsiynau gael eu gweinyddu mewn fferyllfeydd yng Nghymru. Mae cyflwyno EPS, felly, yn rhoi chwarae teg i fferyllfeydd yng Nghymru trwy roi cyfle iddynt weinyddu presgripsiynau oddi wrth gleifion y darperir eu gofal gan Ymarferwyr Cyffredinol neu Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr.

Rwyf yn deall bod pryderon ymhlith rhai contractwyr fferylliaeth o ran cynaliadwyedd y rhwydwaith fferylliaeth yma ar ôl i EPS gael ei gyflwyno. Fodd bynnag, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod Fferyllfeydd Gwerthu o Bell (DSPs) yn cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth gyffredinol o wasanaethau fferylliaeth sydd ar agor i'r cyhoedd a'r dystiolaeth yw, hyd yn oed ar ôl 20 mlynedd, mai canran fach yn unig o'r holl bresgripsiynau yn Lloegr sy'n cael eu gweinyddu gan DSPs. Canfu adroddiad diweddar gan Gymdeithas y Fferyllwyr Cwmniâu fod mwy na 70% o DSPs yn gweinyddu mwy na 50% o'u presgripsiynau i gleifion o un ardal cod post sydd wedi'i lleoli o fewn 10 milltir i'r fferyllfa. Mae hyn yn awgrymu mai ychydig iawn o DSPs yn Lloegr fydd â diddordeb mewn gweinyddu presgripsiynau i gleifion yng Nghymru. Os bydd cleifion yng Nghymru yn dymuno defnyddio DSP, bydd gofyn iddynt, oni bai bod ganddynt eithriad dilys, dalu taliadau presgripsiwn ac efallai y byddant hefyd yn gorfod talu costau postio a pheycynnu hyd yn oed os ydynt wedi'u heithrio rhag taliadau presgripsiwn.

Mae ein buddsoddiad parhaus mewn fferyllfeydd cymunedol yn sicrhau bod fferyllfeydd yn parhau i weithredu ar y stryd fawr ym mhob rhan o Gymru. Rhwng 2015/16 a 2021/22 cafwyd gostyngiad o bedwar yn unig yn nifer y fferyllfeydd yng Nghymru (o 716 i 712) sef gostyngiad o 0.6%. Dros yr un cyfnod yn Lloegr, cafwyd gostyngiad o 675 (o 11,822 i 11,147) yn nifer y fferyllfeydd (ac eithrio DSPs) sef gostyngiad o 5.7%. Mae'r fferyllfeydd ychwanegol sydd wedi cau y cyfeirir atynt gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru (CPW) yn ymwneud yn benodol â phenderfyniad masnachol ledled y DU gan berchnogion Lloyds Pharmacy i adael y farchnad. Mae llawer o'r fferyllfeydd hyn wedi cael eu caffael gan gontractwyr fferyllol eraill ac ni allwn ddyfalu beth fydd yn digwydd i'r rhai nad ydynt wedi'u gwerthu eto. Mae'n amhriodol awgrymu bod penderfyniad masnachol a wneir gan un contractwr yn arwydd o broblem ehangach gyda'r farchnad fferyllfeydd yng Nghymru, ac i CPW ddefnyddio'r data hwn yn ddedholus i awgrymu yn anghywir bod cyfradd cau fferyllfeydd yng Nghymru yn 'uwch nag yn Lloegr'.

Yn olaf, rydym yn helpu fferyllfeydd i roi atebion arloesol ar waith i wella effeithlonrwydd a phrofiad cleifion. Rydym hefyd yn buddsoddi £893,000 yn y [Gronfa Arloesi ar gyfer Fferylliaeth](#) a fydd yn darparu cyllid i gyflenwyr system fferylliaeth wella'r ffordd y mae systemau TG mewn Fferyllfeydd yng Nghymru yn gweithredu, gan ddarparu cyfleoedd i fferyllfeydd ddod yn fwy effeithlon – er enghraifft, rhoi gwybod drwy ap GIG Cymru fod presgripsiwn yn barod, sy'n golygu nad oes rhaid i staff ateb cymaint o alwadau yn gofyn a yw presgripsiwn yn barod i'w gasglu.

Bydd y Gwasanaeth Rhagnodi Electronig yn gwella profiadau cleifion yng Nghymru y mae eu meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi, trwy wneud y gwaith o drosglwyddo gwybodaeth rhwng eu Hymarferydd Cyffredinol a'i fferyllfa ddewisol yn ddi-dor ac yn gyflym. Mae tua 50,000 o bresgripsiynau a roddir bob mis gan Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru yn cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd a chontractwyr offer yn Lloegr. Byddai cyfyngu ar lif

trawsffiniol presgripsiynau yn atal y cleifion hyn rhag gwireddu buddion EPS, gan beri anfantais yn benodol i bobl sy'n defnyddio fferyllfeydd Lloegr yn awr, ac yn enwedig y rhai sy'n byw yn agos at y ffin â Lloegr.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



## Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

### Economy, Trade and Rural Affairs Committee

#### Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddEconomi@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddEconomi  
0300 200 6565

#### Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddEconomy@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddEconomy  
0300 200 6565

Eluned Morgan AS  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol

Lesley Griffiths AS  
Y Gweinidog Materion Gwledig a  
Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Vaughan Gething AS  
Gweinidog yr Economi

13 Gorffennaf 2023

### Gwasanaeth Rhagnodi Electronig Gofal Sylfaenol

Annwyl Eluned, Lesley a Vaughan

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi mynegi pryderon i'r Pwyllgor ynghylch cyflwyno'r gwasanaeth rhagnodi electronig gofal sylfaenol yng Nghymru. Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn poeni y bydd newid i ragnodi electronig yn cael effaith negyddol ar fferyllfeydd cymunedol, gan na fyddant yn gallu cystadlu â fferyllfeydd yn Lloegr sy'n gwerthu nwyddau dros bellteroedd mawr. Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi dweud y bydd gostyngiad yn nifer y presgripsiynau sy'n cael eu cyflenwi mewn fferyllfeydd cymunedol, ynghyd â gostyngiad yn nifer y nwyddau ychwanegol sy'n cael eu prynu pan fo unigolion yn casglu eu presgripsiynau yno, yn debygol o arwain at golli incwm a fydd yn arwain at gau fferyllfeydd.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am gau fferyllfeydd cymunedol gan eu bod yn ganolbwynt pwysig i gymunedau gwledig a all hefyd ddenu ymwelwyr i'r stryd fawr a thrwy hynny ddarparu lefel o ysgogiad economaidd i ardal.

Gofynnwn i chi ateb y cwestiynau a ganlyn:



- Pa asesiad a wnaed mewn cysylltiad â rhoi'r trefniadau rhagnodi electronig ar waith a'r effaith o ran cau fferyllfeydd?
- A wnaed unrhyw ddadansoddiad o'r effaith benodol ar gymunedau gwledig?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George AS yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Mark Isherwood AS yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### Health and Social Care Committee

## Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

### Public Accounts and Public Administration Committee

Julie Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Llywodraeth Cymru

13 Gorffennaf 2023

Annwyl Julie,

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Ddydd Iau 25 Mai 2023, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus sesiwn gydamserol i drafod y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gydag academyddion. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch ynglŷn â nifer o faterion a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer a'r rheoliadau fel rhan o'r Rhaglen Ailgydbwysu Gofal a Chymorth, a chredwn fod y gwaith hwn yn gyfle gwych i fynd i'r afael â materion a godwyd yn y gwerthusiad a'r sesiwn gydag arbenigwyr.

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddIechyd@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddIechyd  
SeneddCCGG@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddCCGG  
0300 200 6565

### Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddHealth@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddHealth  
SeneddPAPA@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddPAPA  
0300 200 6565

Rydym yn cydnabod y bydd angen amser arnoch i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ond byddem yn gwerthfawrogi sicrwydd y byddwch yn ystyried ein pwyntiau wrth ddatblygu'r cynigion, a byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb manylach ar adeg briodol ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Yn gywir



Russell George AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal  
Cymdeithasol



Mark Isherwood AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a  
Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



# Atodiad: materion sy'n codi o'r drafodaeth ynghylch y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gydag academyddion ar 25 Mai 2023

Yn dilyn trafodaeth y Pwyllgorau ar y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gydag academyddion ar 25 Mai 2023, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch ynghylch y materion a nodir isod.

## Gwerthusiad o'r Ddeddf

---

Bwriad Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 oedd trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol a darparu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gwella llesiant plant ac oedolion y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofawyr di-dâl. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn awgrymu "nad yw'r daith tuag at wireddu nod uchelgeisiol y Ddeddf wedi'i chwblhau", ac mae'n tynnu sylw at feysydd sydd angen eu gwella, yn enwedig profiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofawyr o wasanaethau cymdeithasol.

Rydym yn canmol Llywodraeth Cymru am gomisiynu'r gwerthusiad annibynnol hwn. Ond, credwn fod yr astudiaeth werthuso bwysig a helaeth hon yn gofyn am ymateb llawnach, mwy manwl gan Lywodraeth Cymru na'r datganiad byr a gyhoeddwyd pan gyhoeddwyd yr adroddiad.

1. A wnaiff Llywodraeth Cymru roi ymateb cynhwysfawr i'r gwerthusiad, gan egluro'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r canfyddiadau ac os felly, beth yw'r amserlen ar gyfer hyn?
2. Roedd y gwerthusiad yn ddarn sylweddol o waith a oedd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofawyr a rhanddeiliaid y sector. Sut fydd 'yr hyn sy'n digwydd nesaf' yn cael ei gyfleu i'r grwpiau hyn?
3. Yn ehangach o ran y dull y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i adolygu a gwerthuso ei deddfwriaeth, pa wersi a ddysgwyd o'r dull o werthuso'r Ddeddf hon?
4. A wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried yr angen i brosesau monitro a gwerthuso gael ei ymgorffori ym mhob corff a gwmpesir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Cwestiynau prawf i'r sector

---

Mae'r adroddiad terfynol ar y gwerthusiad yn cynnwys cwestiynau prawf agored i'r sector eu hystyried. Mae'n dweud y gall y cwestiynau hyn fod yn gyfrwng i gefnogi deialog ymhlith rhanddeiliaid er mwyn bywiogi ac adfywio'r weledigaeth y mae'r Ddeddf yn ei gosod ar ôl COVID-19.

Rydym am weld y cwestiynau hyn yn cael eu defnyddio ac iddynt gael sylw gan Lywodraeth Cymru a'r sector, ac rydym yn cefnogi awgrym yr Athro Mark Llewellyn y dylid cynnwys y cwestiynau prawf mewn arolygiadau.

5. A wnewch chi esbonio sut mae'r cwestiynau prawf hyn wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Rhaglen Ailgydbwysio Gofal a Chymorth.
6. Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r meysydd a nodwyd yn y 19 cwestiwn prawf? A ydych yn cytuno â'r awgrym i'w cynnwys mewn arolygiadau?

## Canllawiau

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgorau, tynnodd yr Athro Luke Clements sylw at y diffyg manylder yn y canllawiau ar gyfer y Ddeddf. Dywedodd wrthym "it is incontestable that the overall depth and detail of the guidance provided in England to the Care Act 2014 is more informative and accessible than that provided in Wales to its 2014 Act".<sup>1</sup> Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

*"It is simply unacceptable for a legislature to enact major rights based social welfare legislation of this kind and for the Government to fail (due to lack of ability, resources or otherwise) to provide the detailed guidance and other materials necessary to ensure that the legislation has its intended impact at the coalface."*<sup>2</sup>

Mae'r Athro Clements yn rhoi enghraifft o'r Cod sy'n cynnwys y canllawiau ar Daliadau Uniongyrchol: mae'r adran berthnasol yn ddeg tudalen o hyd (ychydig o dan 4,000 o eiriau), sef hanner hyd y canllawiau ar yr un pwnc yn Lloegr. Mae hefyd yn nodi bod Canllawiau blaenorol Cynulliad Cymru (2011) ar Daliadau Uniongyrchol (y mae'r Cod yn eu disodli) yn 81 tudalen o hyd (ac ychydig dros 27,000 o eiriau). Mae'n dweud bod y diffyg manylder ac eglurder yn amharu ar allu llywodraeth leol i weithredu'r ddeddfwriaeth fel y bwriadwyd.

Dywedodd Dr Alison Tarrant wrthym y gallai'r canllawiau gynnwys trafodaeth lawer mwy strwythuredig o'r model cymdeithasol o anabledd, a fyddai'n ddefnyddiol i hyrwyddo hawliau pobl anabl.

Rydym yn credu bod yr ymgynghoriad yn gyfle i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

7. A fydd y newidiadau arfaethedig i'r Codau Ymarfer sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd yn helpu i sicrhau mwy o eglurder a manylder i'r canllawiau?

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 25 Mai 2023, Papur 3.

<sup>2</sup> ibid



8. A wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried manteisio ar y cyfle hwn i wneud diwygiadau pellach i'r Codau Ymarfer i sicrhau eu bod yn darparu'r manylion angenrheidiol?

## Cyd-gynhyrchu

Mae'n amlwg o'r gwerthusiad nad yw egwyddorion craidd y Ddeddf, o ran cyflwyno llais a rheolaeth a chyd-gynhyrchu i unigolion er mwyn sicrhau eu bod yn bartneriaid cyfartal o ran eu gofal, yn cael eu cyflawni yn gyson. Mae'r adroddiad terfynol ar y gwerthusiad yn dod i'r casgliad y "dylid rhoi blaenoriaeth i wneud llais a rheolaeth yn 'realiti' i bawb, a gellid mynd i'r afael â hyn drwy fuddsoddi mewn eiriolaeth, ochr yn ochr â gweithio gyda sefydliadau a angorir yn y gymuned a buddsoddi ynddyn nhw."<sup>3</sup>

Dyweddodd Dr Alison Tarrant wrthym fod hon yn enghraifft glasurol o ble mae'r canllawiau'n peri problemau, oherwydd:

*It does not instruct local authorities or individuals seeking support or using support. It doesn't give any indication of what co-production is. You cannot do co-production, for want of a better phrase, if you don't know what it is, and there is no proper definition."*<sup>4</sup>

Felly, rydym yn falch o weld bod newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer yn anelu at roi mwy o amlygrwydd i'r angen i gyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wrth ddylunio a darparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol.

9. Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad, sut y byddwch yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl yn bartneriaid gwirioneddol wrth ddylunio a darparu'r gwasanaethau y maent yn eu cael? A ydych yn hyderus bod y newidiadau arfaethedig yn gwneud digon i sicrhau bod y Cod yn nodi disgwyliadau clir o ran sut i gyflawni cyd-gynhyrchu yn ymarferol?
10. A yw Llywodraeth Cymru yn barod i ddarparu buddsoddiad pellach mewn gwasanaethau eiriolaeth i helpu i flaenoriaethu llais a rheolaeth, fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad terfynol ar y gwerthusiad? At hynny, sut y byddwch yn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth o'r fath yn cynnwys dealltwriaeth arbenigol/profiad byw o gyflyrau penodol - gan gynnwys niwroamrywiaeth, nam ar y synhwyrau, nam gwybyddol ac anabledd dysgu - sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt gynrychioli anghenion amrywiol pobl?

## Profiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Roedd canfyddiadau'r adroddiad ar brofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn peri pryder mawr inni, yn enwedig y farn "bod lliw eu croen wedi bod yn

---

<sup>3</sup> Adroddiad terfynol: gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion [paragraff 316], 25 Mai 2023

ystyriaeth yn eu hymwneud â'r system ar ormod o achlysuron". Cydnabu'r Athro Mark Llewellyn gyfyngiadau'r astudiaeth ond nododd fod y gwaith wedi'i wneud mewn partneriaeth â Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru, a oedd yn teimlo'n gryf iawn bod hyn yn adlewyrchu tueddiadau ehangach yr oeddent yn ymwybodol ohonynt.

11. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn benodol?

## Taliadau uniongyrchol

Erys nifer o broblemau parhaus ynghylch defnyddio taliadau uniongyrchol yng Nghymru, gan gynnwys y nifer isel sy'n manteisio arnynt a diffyg ymwybyddiaeth o'r hawl i daliadau uniongyrchol ymhlith defnyddwyr gofal cymdeithasol. Daw'r adroddiad gwerthuso i'r casgliad ei bod yn bwysig darparu cymorth a hyrwyddo taliadau uniongyrchol ochr yn ochr â datblygu modelau arloesol ac amgen o gymorth a gyfeirir gan y dinesydd. Dywedodd yr Athro Mark Llewellyn wrthym "We have a pretty singular option around direct payments as they are at the moment".

12. Pa gamau a gymerwyd, neu sydd ar y gweill i weithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol a nodir yng ngwaith ymchwil yr adroddiad "Llais a Rheolaeth"<sup>5</sup> sy'n cefnogi'r adroddiad terfynol ar y gwerthusiad?

## Mentrau cymdeithasol

Yn ôl yr Athro Luke Clements "One of the most innovative provisions in the 2014 Act concerns the requirement in section 16 that local authorities promote the development in their areas of third sector organisations (including social enterprises and co-operatives) that can provide relevant services."<sup>6</sup>

Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2022, canfu Archwilio Cymru<sup>7</sup> nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf i hyrwyddo mentrau cymdeithasol yn effeithiol. Ei gasgliad cyffredinol yw nad yw awdurdodau lleol yn gweithio'n effeithiol gyda mentrau cymdeithasol i sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl, gwneud defnydd gwell o adnoddau, a gwella gwasanaethau i bobl a chymunedau.

13. Sut y bydd y newidiadau a gynigir i Bennod 4 o'r Cod yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda mentrau cymdeithasol i sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl, gwneud defnydd gwell o adnoddau, a gwella gwasanaethau i bobl a chymunedau?

---

<sup>5</sup> Llais a rheolaeth: Ymchwil i gefnogi Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

<sup>6</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 25 Mai 2023, Papur 3.

<sup>7</sup> Archwilio Cymru, 'Cyfle wedi'i gollu' – Mentrau Cymdeithasol, Rhagfyr 2022





## Rheoliadau meini prawf cymhwys

Mae'r adroddiad gwerthuso'r broses (o'r astudiaeth werthuso) yn nodi barn gan y gweithlu bod gwasanaethau gofal statudol yn "adweithiol" a "'phan fetho popeth arall" ac nad ydynt yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar. Roedd sylwadau bod y trothwy ar gyfer cymorth yn rhy uchel, a bod yn rhaid i gleientiaid aros nes bod "anghenion yn uwch neu mewn argyfwng cyn gallu cyrchu cymorth uniongyrchol".<sup>8</sup>

Mae argaeledd data o ansawdd da yn hanfodol nid yn unig ar gyfer darparu gofal a thriniaeth i unigolion ond ar gyfer defnyddiau eilaidd fel cynllunio, gwella ansawdd ac ymchwil. Bydd angen i drefniadau sy'n caniatáu i ddata lifo'n effeithiol yng Nghymru yn y lle cyntaf fod wrth wraidd unrhyw uchelgeisiau i ehangu mynediad at wasanaethau trawsffiniol. Byddai'n fuddiol cael dull strategol o alluogi llif data yn y system iechyd a gofal yng Nghymru, a rhwng rhanddeiliaid trawsffiniol, i fynd i'r afael â'r rhwystrau o ran rhannu data mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru a rhanddeiliaid eraill yn eu hwynebu.

02920 500 500

[gigdc.cymru](https://www.gigdc.cymru) / [dhvw.nhs.wales](https://www.dhvw.nhs.wales)

Tudalen y pedyn 178



**Y Pwyllgor Iechyd a  
Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care  
Committee**

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a  
Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

**Public Accounts and Public  
Administration Committee**

Eluned Morgan AS  
Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Llywodraeth Cymru

05 Gorffennaf 2023

Annwyl Eluned

**Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

Fel y gwyddoch, gwnaethom gynnal ymchwiliad ar y cyd i'r uchod yn ddiweddar. Yn benodol, gwnaethom ystyried y broses o sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'i gynnydd, ac archwilio'r heriau a wynebwr wrth ddarparu datrysiadau digidol newydd, cefnogi staff rheng flaen gyda systemau modern a gwella dulliau o ddefnyddio a storio data.

Mae copi o adroddiad y Pwyllgorau, a osodwyd heddiw, ynghlwm wrth y llythyr hwn. Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb erbyn **dydd Mercher 16 Awst 2023**. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ofyn am ymateb o fewn yr un terfyn amser.

Unwaith y bydd ein Pwyllgorau wedi ystyried yr ymatebion, byddwn yn ceisio cytundeb y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar adroddiad y Pwyllgorau.

Yn gywir



Russell George AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal  
Cymdeithasol



Mark Isherwood AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a  
Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Russell George AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
[SeneddIechyd@senedd.cymru](mailto:SeneddIechyd@senedd.cymru)

Mark Isherwood AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth  
Gyhoeddus  
[seneddCCGG@senedd.cymru](mailto:seneddCCGG@senedd.cymru)

17 Awst 2023

Annwyl Russell a Mark,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Gorffennaf a'r adroddiad cysylltiedig. Mae defnyddio gwasanaethau digidol ledled Cymru yn allweddol i sicrhau bod pob gwasanaeth iechyd yn gweithredu'n effeithiol, felly rwy'n croesawu adroddiad y ddau bwyllgor ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn dilyn blwyddyn gyntaf yr Awdurdod Iechyd Arbennig hwn. Yn benodol, mae'n dda gweld bod argymhellion y ddau bwyllgor yn cyd-fynd â'n cynlluniau ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol, a'r rhai y gwn eu bod ar waith gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Hoffwn hefyd dynnu sylw'r ddau bwyllgor at fy Natganiad Ysgrifenedig<sup>1</sup> ar 27 Gorffennaf 2023, pan lansiais fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn rhoi cyfeiriad trawsnewid digidol a data i helpu pobl yng Nghymru i fyw bywydau hapusach, iachach a hirach trwy wasanaethau digidol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr ac sy'n seiliedig ar sgiliau, partneriaethau, data a phlatformau digidol gwell. Fel ein partner darpariaeth ddigidol dibynadwy a strategol, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud cyfraniad hanfodol at helpu Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i wireddu'r dyheadau a nodir yn y Strategaeth. Trwy weithredu'r argymhellion hyn yn llwyddiannus, bydd modd cryfhau'r swyddogaeth hon a chryfhau atebolrwydd i bawb.

Cyflwynir fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad, fel y bo'n briodol, yn Atodiad A.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

<sup>1</sup> <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-lansio-fersiwn-ddiwygiedig-or-strategaeth-digidol-data-ar-gyfer-iechyd-gofal>

## **Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad ar y cyd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, o'r enw "Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru".**

---

### **Argymhelliad 1**

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am eu rolau wrth bennu blaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyflawni prosiectau mawr. Dylai hyn gynnwys:*

- Sut mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau ei hun bod blaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a gofal yng Nghymru ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.*
- Sut y gwneir penderfyniadau ar flaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gan gynnwys pryd a chan bwy.*
- Sut mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r tîm gweithredol yn monitro cynnydd ar brosiectau mawr, gan gynnwys a yw amserlenni a cherrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni.*
- Pa rôl, os o gwbl, fydd gan Weithrediaeth GIG Cymru.*

### **Ymateb:**

A. Ers i'r ddau Bwyllgor dderbyn tystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Mike Emery yn Gyfarwyddwr Technoleg, Digidol ac Arloesi ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a hynny fis Ionawr 2023. Mike hefyd yw Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal Cymdeithasol GIG Cymru. Mae'r Prif Swyddog Digidol yn cyfarfod â Phrif Swyddog Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru bob pythefnos i drafod a phenderfynu ar flaenoriaethau cyflawni, gan gynnwys unrhyw heriau, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru/GIG Cymru. Fel arfer, mae'r blaenoriaethau hyn yn deillio o flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu, y Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a blaenoriaethau ychwanegol sy'n ymateb i anghenion penodol. Hefyd, fel Awdurdod Iechyd Arbennig, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfrifol am y broses Cynllunio Tymor Canolig Integredig flynyddol<sup>1</sup> ac mae'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig chwarterol a chyfarfodydd chwe misol y Cyd-dîm Gweithredol. Yn unigol ac ar y cyd, mae'r sgyrsiau hyn yn ystyried, yn trafod, yn herio, yn arfarnu, yn penderfynu ac yn datrys pob pwynt yn ymwneud â blaenoriaethau cyflawni Iechyd a Gofal Digidol Cymru i sicrhau cysondeb â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

B. O fewn Gweithrediaeth y GIG, bydd Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol yn gyfrifol am oruchwylio datblygiadau digidol, cydgysylltu a diffinio safonau technegol, a

---

<sup>1</sup> Holl gyrrff y GIG yn creu cynlluniau bob blwyddyn yn unol â [Fframwaith Cynllunio GIG Cymru](#)

sicrhau bod dulliau system gyfan yn cael eu mabwysiadu. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag lechyd a Gofal Digidol Cymru i sicrhau bod systemau Unwaith i Gymru, h.y. systemau cenedlaethol, yn cael eu gweithredu, eu gwella'n gyson, a'u mabwysiadu ledled Cymru.

- C. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol hefyd yn cadeirio'r Bwrdd Portffolio a Buddsoddi Strategol Cenedlaethol arfaethedig (a leolir yng Ngweithrediaeth y GIG). Bydd y fforwm hwn y ndwyn ynghyd gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, y GIG a Gofal Cymdeithasol i nodi, ystyried a chynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan Weinidogion. Rôl y Bwrdd fydd:
- Adolygu a chraffu, ac argymell i Lywodraeth Cymru (ac felly i Weinidogion) a Gweithrediaeth y GIG fuddsoddiadau digidol a data sy'n ymwneud â mentrau priodol ar draws y portffolio lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
  - Gweithredu fel pwynt adolygu Gateway ar gyfer rhaglenni a phrosiectau allweddol, sy'n cyd-fynd â phroses Gateway Llywodraeth Cymru;
  - Darparu trosolwg o seilwaith a saernïaeth technoleg ddigidol a data lechyd a Gofal Cymdeithasol;
  - Ymgymryd â chomisiynu partneriaid cyflawni gan gynnwys lechyd a Gofal Digidol Cymru;
  - Darparu trosolwg o ddata, caffael, rhyngweithrededd, a llywodraethiant safonau deallusrwydd artifisial, ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol.

## Argymhelliad 2

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Dylai Llywodraeth Cymru ac lechyd a Gofal Digidol Cymru nodi pwy sy'n gyfrifol am arwain rhaglen System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am Uwch-swyddogion Cyfrifol y rhaglen. Os yw Prif Weithredwr interim Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau fel Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer rhaglen System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, dylai Llywodraeth Cymru ac lechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu asesiad i weld a yw'n realistig i un unigolyn ymgymryd â'r ddwy rôl ar yr un pryd, a gwybodaeth am unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r rolau'n cael eu cyflawni ar yr un pryd.*

### Ymateb:

Adeg y sylwadau hyn, mae'r Uwch-swyddogion Cyfrifol ar y cyd (Prif Weithredwr dros dro Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Dirprwy Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) yn parhau i fod yn atebol am gyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus. Fodd bynnag, yn unol â threfniadau llywodraethiant diwygiedig ar gyfer pob prosiect Trawsnewid Digidol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fel y trafodwyd ac y cytunwyd gennyf i, Cadeirydd lechyd a Gofal Digidol Cymru a'm swyddogion, disgwylir y bydd System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ymhlith y rhaglenni cyntaf i newid i'r trefniadau hyn, sy'n golygu y bydd Prif Swyddog Gweithredol lechyd a Gofal Digidol Cymru yn atebol am gyflawni WCCIS.

### Argymhelliad 3

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi diweddariadau chwe misol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y cynnydd o ran darparu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Dylai'r diweddariadau gynnwys gwybodaeth am wariant hyd yma, y gwariant sydd wedi'i gynllunio, y defnydd o WCCIS ymhlith byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, ymgysylltiad neu ymgynghoriad â phartneriaid perthnasol. Dylid darparu'r diweddariad cyntaf yn yr ymatebion i'r adroddiad hwn.*

#### **Ymateb:**

Ar ôl y toriad, byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgorau am y cyfeiriad strategol ar gyfer WCCIS. Bydd y dull cyffredinol o fynd ati yn y dyfodol, fel y nodir yn y Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn canolbwyntio ar rannu data'n well rhwng lleoliadau, a alluogir gan y ffaith y bydd systemau/gwasanaethau yn cyd-fynd yn well yn sgil datblygiadau mewn cofnodion gofal a rennir ar draws y GIG a Gofal Cymdeithasol. O safbwynt cyllidebau y cytunwyd arnynt, nid oes unrhyw newid wedi bod hyd yma o'r sefyllfa gyffredinol a nodwyd yn llythyr Archwilio Cymru (Gorffennaf 2022) i Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

### Argymhelliad 4

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Yn eu hymatebion i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi diweddariad ar ganlyniad adolygiad o strategaeth contractio System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a oedd i adrodd erbyn mis Mawrth 2023.*

#### **Ymateb:**

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu diweddariad ar yr adolygiad o'r strategaeth sy'n sensitif yn fasnachol. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r adolygiad a fydd yn sicrhau bod y rhaglen yn gallu manteisio ar gysylltiadau masnachol yn y ffordd fwyaf priodol er mwyn gwireddu ei huchelgais i ddefnyddio data iechyd a gofal cymdeithasol cydgysylltiedig yn fwy effeithiol er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni a gweithredu datrysiad digidol yn llwyddiannus, i alluogi ymhellach y nod o sicrhau gwasanaethau integredig ar draws iechyd a gofal.

### Argymhelliad 9

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Erbyn diwedd 2023 dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyhoeddi cynllun clir, realistig wedi'i flaenoriaethu ar gyfer cynyddu ei ymgysylltiad â'r sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys darparwyr yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Dylid datblygu'r*

*cynllun drwy ymgysylltu â'r sector gofal cymdeithasol, a dylai gynnwys amserlenni clir ac asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer ei gyflawni. Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu copi o'r cynllun i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a darparu diweddariad chwe misol ar gynnydd yn erbyn y cynllun.*

#### **Ymateb:**

Mae Prif Swyddog Gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a benodwyd yn ddiweddar, a Phrif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydweithio i sicrhau bod blaenoriaethau polisi Gofal Cymdeithasol yn cael eu cefnogi o fewn y blaenoriaethau digidol presennol. Yn allweddol i gyflawni hyn bydd ymgysylltiad tebyg rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r sector Gofal Cymdeithasol.

### **Argymhelliad 13**

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am eu rolau o ran darparu arweinyddiaeth ac ysgogiad ar gyfer trawsnewid digidol ym maes Iechyd. Dylai hyn gynnwys:*

- *Sut mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau ei hun bod penderfyniadau a wneir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyrrff Iechyd eraill yng Nghymru ar flaenoriaethu cyllid cyfalaf yn cyd-fynd â blaenoriaethau trawsnewid Gweinidogion.*
- *Sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru'n gweithio gyda chyrrff Iechyd ac yn eu hannog i ddyrannu cyllid digonol ac adnoddau eraill i gyflawni trawsnewid digidol cynaliadwy.*

#### **Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i Iechyd a Gofal Digidol Cymru (cyllid refeniw a chyfalaf) o ddwy brif ffynhonnell: dyraniad craidd (sy'n seiliedig ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac yn cael ei fonitro drwy'r cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig cysylltiedig a chyfarfodydd y Cyd-dîm Gweithredol) a'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (ar gyfer gweithgareddau trawsnewid digidol strategol wedi'u targedu). Ar gyfer yr olaf, rhaid cyflwyno cynigion i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru a dangos cysondeb â nodau polisi blaenoriaeth, aliniad strategol, meysydd blaenoriaeth Gweinidogol ac ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu.

Caiff y rhain eu hystyried gan banel o swyddogion Llywodraeth Cymru (bydd cynrychiolydd o'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn darparu cyngor ar arferion gorau ac ati) cyn bod cyngor yn cael ei roi i'r Gweinidog ar ymrwymo i ddarparu cyllid (refeniw a chyfalaf) ar gyfer rhaglenni trawsnewid digidol penodol. Mae'r prosesau llywodraethiant gwell ar gyfer trafod, cytuno a monitro sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn defnyddio cyllid

Llywodraeth Cymru i roi blaenoriaethau trawsnewid Gweinidogion ar waith wedi'u hamlinellu yn Argymhelliad 1, B.

## **Argymhelliad 14**

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu arfarniad gonest o effaith argaeledd cyfyngedig cyllid cyfalaf ar gyflawni trawsnewid digidol mewn gwasanaethau iechyd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw brosiectau neu raglenni sydd wedi cael eu gohirio, neu sy'n debygol o gael eu gohirio oherwydd diffyg cyllid cyfalaf, asesiad o oblygiadau oedi o'r fath, a pha dulliau amgen sy'n cael eu hystyried i ariannu/cefnogi twf yn y gofod digidol.*

### **Ymateb:**

Mae gwasanaethau digidol yn dibynnu llai ar gyllid cyfalaf wrth iddynt newid yn raddol i wasanaethau cwmwl, sy'n gofyn am ymrwymiad refeniw parhaus. Mae angen cyllid cyfalaf o hyd fel sylfaen i seilwaith ffisegol (e.e. caledwedd y rhwydwaith, cyfrifiaduron bwrdd gwaith a gliniaduron ac ati).

Oherwydd setliadau cyllidebol hanesyddol gan San Steffan a blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, mae'r ddyled dechnegol yn cynyddu yn y GIG yng Nghymru, wedi'i hachosi gan ddiffyg cyllid ar gyfer disodli seilwaith sylfaenol etifeddol, sy'n golygu risg seiber i GIG Cymru. Byddai mynd i'r afael â'r ddyled dechnegol hon yn gofyn am fuddsoddiadau sylweddol o ran cyllid ac arbenigedd. Mae'r pwysau cyfalaf hwn ar gyllidebau Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd, nid cyllidebau rhaglenni trawsnewid digidol, felly byddai gofyn cael ymrwymadau refeniw parhaus ychwanegol i ariannu mwy o wasanaethau cwmwl i ddisodli rhai o'r gwasanaethau a gynhelir ar safleoedd ar hyn o bryd.

Mae'n anodd mesur effaith diffyg cyfalaf ar brosiectau neu raglenni trawsnewid digidol yn y modd a ddisgrifiwyd yn yr argymhelliad. Fel y mae'r Pwyllgorau yn ei wybod, mae angen gwneud penderfyniadau cyllidebol heriol gan roi blaenoriaeth i gyllid cyfalaf er mwyn cynnal gwasanaethau rheng flaen. Mae hyn yn golygu bod angen i raglenni ystyried yn ofalus y cyllid maent yn gofyn amdano, gan gynnwys archwilio dulliau cyflenwi amgen – er enghraifft, gweithio gyda chyrrff eraill i sicrhau trawsnewid digidol ar y cyd. Gwneir hyn cyn cyflwyno cais am arian, felly nid yw'n hawdd meintioli sut mae'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael yn effeithio ar drawsnewid digidol.

Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod o ran dyled dechnegol, mae hyn golygu gosod gwasanaethau digidol modern ar ben systemau TG sy'n heneiddio'n gynyddol (ee rhwydweithiau strwythurol a chaledwedd ac ati), a fydd ond yn gallu ymdopi â rhywfaint o newid technegol cyn iddynt hwy eu hunain ddod yn rhwystr i drawsnewid.

## **Argymhelliad 16**

*Argymhelliad y Pwyllgorau:*

*Rydym yn awyddus i sicrhau bod lechyd a Gofal Digidol Cymru'n hygyrch mewn modd priodol i gleifion yng Nghymru pan maent yn derbyn gwasanaethau'r GIG yn Lloegr. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ystyried ffyrdd y gall gwasanaethau iechyd digidol yng Nghymru a Lloegr alinio a chysylltu'n well.*

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio'n llwyddiannus gydag NHS England ar lefel Weinidogol a Swyddogion, ac mae'r ddwy ochr wedi dysgu gwersi o ddulliau gweithredu hyd yma. Mae Cymru'n aelod gweithgar o grŵp lechyd y Pedair Gwlad, gan gynnwys gwaith ar safonau data cyffredin. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol lechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i arwain y trafodaethau hyn gyda chymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn arwain gwaith o dan raglen Llwybrau Trawsffiniol Powys, gyda chymorth gan lechyd a Gofal Digidol Cymru i gyfnewid data iechyd gydag Ymddiriedolaethau GIG Lloegr a Systemau Gofal Integredig ar gyfer cleifion sy'n derbyn gofal trawsffiniol yng Nghymru a Lloegr. Mae gwaith trawsffiniol o'r fath yn arwain at brofiad symlach i gleifion, llai o oedi (wrth aros am ffeiliau) a phenderfyniadau clinigol gwell gan GIG Lloegr ar gyfer cleifion o Gymru. Galluogir hyn drwy fynediad gwell a llawnach at ddata Cymru, a fydd yn cynnwys gwaith pellach ar ystyried a mabwysiadu safonau rhyngwladol mewn perthynas â rhannu data rhwng gwledydd.

Yng Nghymru, y dull gweithredu a nodir yn ein Strategaeth Digidol a Data ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol (fel y nodir ar dudalen 1) yw cynyddu'r defnydd o systemau Unwaith i Gymru, mabwysiadu safonau a fframweithiau saernïaeth agored wedi'u cymhwyso'n gyson i wella'r gallu i ryngweithredu, a defnyddio platfformau presennol i symleiddio mynediad at ddata gan glinigwyr a staff cymorth. Mae gennym gofnod cleifion sengl ar gyfer gofal eilaidd. Yn y sector gofal sylfaenol, rydym yn defnyddio dau gyflenwr systemau ledled Cymru i ddarparu cofnodion electronig meddygon teulu, ac ar gyfer fferyllfeydd cymunedol mae gennym system Dewis Fferyllfa Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae gan ddarparwyr gofal iechyd yn Lloegr strategaethau ar wahân ar gyfer integreiddio gwybodaeth cleifion ar gyfer amgylchiadau lle mae'r claf yn symud y tu allan i ardal ddaearyddol ei ddarparwr gofal yn Lloegr. Mae hyn yn golygu y byddai angen i wasanaethau a systemau Cymru integreiddio ar wahân â phob darparwr a system iechyd yn Lloegr, gan arwain at heriau technegol sylweddol iawn sydd angen buddsoddiad mawr gan y ddwy Lywodraeth.

Yn 2022, cyhoeddodd<sup>2</sup> NHS England fuddsoddiad mawr i helpu i sicrhau bod cofnodion electronig cleifion ar gael ym mhob ymddiriedolaeth GIG. Mae geiriad y datganiad yn awgrymu bod hyn yn ymwneud â rhannu data rhwng lleoliadau o fewn pob System Gofal Integredig, yn hytrach na rhwng ardaloedd o Loegr neu Lywodraethau datganoledig o bosibl; mae swyddogion yn gofyn am eglurhad ar y mater hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda GIG Lloegr i ddeall sut

<sup>2</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/a-plan-for-digital-health-and-social-care/a-plan-for-digital-health-and-social-care#section-1-embedding-digital-technologies>



rydym yn archwilio cyfleoedd posibl i rannu platfformau digidol, ond gan gadw sofraniaeth data i Gymru, er budd dinasyddion Cymru.

Health and Social Care  
Committee

Eluned Morgan  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol

04 Gorffennaf 2023

Annwyl Eluned

Amseroedd aros y GIG:

Diolch am eich llythyr dyddiedig **4 Ebrill 2023** ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y targedau adfer a nodir yn **rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros yng Nghymru**.


Fel y gwyddoch yn sgil y llythyr a anfonwyd gennyf ar **17 Chwefror 2023**, er ein bod yn cydnabod bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud o ran mynd i'r afael ag amseroedd aros y GIG, roedd gennym rai pryderon na fyddai'r targedau adfer yn cael eu bodloni oni bai bod gweithgarwch yn cynyddu.

Yn ystod ein cyfarfod ar 14 Mehefin 2023, gwnaethom drafod data amseroedd aros y GIG ar gyfer mis Mawrth 2023, a gafodd eu rhyddhau ym mis Mai 2023, yn erbyn y targedau adfer a nodir yn y rhaglen. Mae'r data'n dangos bod y ddau darged adfer cyntaf wedi'u methu (sef, lleihau amseroedd aros ar gyfer cleifion allanol i lai na 52 wythnos erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022, a dileu arosiadau dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023).

Mae hyn yn golygu bod miloedd o gleifion yn parhau i aros yn rhy hir am driniaeth yn y GIG.

Byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod y materion hyn gyda chi yn ystod tymor yr hydref, a bydd ein swyddogion yn cysylltu â chi er mwyn trefnu dyddiad priodol. Yn y cyfamser, byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r materion a amlinellir yn yr atodiad, a hynny **erbyn 15 Awst 2023**.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



## Atodiad: Amseroedd aros y GIG: cais am wybodaeth

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r materion a ganlyn **erbyn 15 Awst 2023**.

Targed ar gyfer llwybrau cancer

---

Ym mis Mawrth 2023, dechreuodd 53.3 y cant o gleifion cancer eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod o'r dyddiad yr amheuyd bod ganddynt ganser am y tro cyntaf, o gymharu â'r targed interim o 70 y cant y cytunwyd arno gyda'r Tîm Gwella ac Adfer Gofal wedi'i Gynllunio.

1. Yn eich llythyr dyddiedig 4 Ebrill 2023, gwnaethoch ddweud bod y broses o ddileu ôl-groniadau yn effeithio ar y broses o gyflawni'r targed ar gyfer llwybrau cancer, gan fod llwybrau cancer yn cael eu hadrodd fesul llwybr caeedig. A fyddai modd i chi roi esboniad pellach ynghylch y mater hwn, gan amlinellu'r hyn sy'n cael ei wneud i wella perfformiad yn erbyn y targed?

Y saith arbenigedd "hynod o heriol"

---

Gyda'i gilydd, mae'r saith arbenigedd y nodwyd eu bod yn "hynod o heriol" – ac sydd felly y tu allan i gwmpas targedau adfer dau a thri – yn cyfrif am 27,400 (86 y cant) o lwybrau cleifion sy'n aros am fwy na dwy flynedd. Mae'r saith arbenigedd yn cynnwys trawma ac orthopedeg; y glust, y trwyn a'r gwddf; offthalmoleg; llawfeddygaeth gyffredinol; wroleg; gynaecoleg; a llawfeddygaeth y geg. Byddem yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth am y modd y caiff yr arbenigeddau hyn eu hadlewyrchu yn adroddiadau Llywodraeth Cymru.

2. Ein dealltwriaeth ni yw bod y saith arbenigedd a restrir uchod wedi'u heithrio o dargedau adfer dau a thri. A fyddai modd i chi gadarnhau a yw hynny'n wir?
3. A fyddai modd i chi egluro a oedd y data yr adroddwyd arnynt yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys pob arbenigedd, gan gynnwys y saith arbenigedd y nodwyd eu bod yn "hynod o heriol"? Os oeddent wedi'u cynnwys yn flaenorol, ond maent bellach wedi'u heithrio, pa gamau yr ydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod modd cymharu data dros amser?
4. Mae'r darlun cenedlaethol o ran yr arbenigeddau sydd â'r amseroedd aros hiraf yn wahanol fesul bwrdd iechyd. A fyddai modd i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch pryd, sut a pham y gwnaed penderfyniadau i eithrio'r saith arbenigedd a restrir uchod o'r targedau adfer, a phwy oedd yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad hwnnw?
5. A fydd y sefyllfa o ran eithrio / cynnwys y gwahanol arbenigeddau hyn o fewn y targedau yn aros fel y mae, neu a ydych yn rhagweld unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud dros amser? Os bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud, sut y bydd y wybodaeth honno'n



cael ei chyfleu, a pha gamau y bydd yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod modd parhau i gymharu data dros amser?

6. Sut y bydd y penderfyniadau i eithrio'r saith arbenigedd dan sylw yn effeithio ar yr hyn y mae byrddau iechyd yn ei flaenoriaethu o ran eu hymdrechion? Er enghraifft, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, nid yw gynaeoleg ac offthalmoleg yn destun yr amseroedd aros hiraf (dwy flynedd). Yr arbenigedd â'r arhosiad hiraf yw orthodonteg. Ym mwrdd Hywel Dda, nid yw dermatoleg wedi'i gynnwys yn y saith uchaf, ond mae rheoli poen wedi'i gynnwys.
7. Pa gamau a gymerwyd i flaenoriaethu'r broses o wella amseroedd aros mewn perthynas â phob un o'r saith arbenigedd unigol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y targedau adfer? A roddwyd unrhyw ystyriaeth i bennu targedau unigol ar gyfer y saith arbenigedd dan sylw?

#### Uwchgynadleddau gweinidogol

---

Yn eich llythyr dyddiedig 4 Ebrill 2023, gwnaethoch ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr uwchgynadleddau gweinidogol a gynhaliwyd mewn perthynas ag offthalmoleg, gofal brys, y glust, y trwyn a'r gwddf, ac orthopedeg.

8. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn ymrwmo i rannu â ni grynodedb o'r canfyddiadau, ynghyd â manylion unrhyw gynlluniau gweithredu sy'n deillio o uwchgynadleddau Gweinidogol o'r fath, a hynny ar sail barhaus. Er enghraifft, byddem yn ddiolchgar i gael diweddariad yn dilyn pob uwchgynhadledd a gaiff ei gynnal, neu ddiweddariad tymhorol yn cwmpasu unrhyw uwchgynadleddau o'r fath sydd wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod perthnasol.



**Eluned Morgan AS/MS**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**  
**Minister for Health and Social Services**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Russell George AS  
 Cadeirydd  
 Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

[Seneddlechyd@senedd.cymru](mailto:Seneddlechyd@senedd.cymru)

15 Awst 2023

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Gorffennaf ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch amseroedd aros y GIG. Rwyf wedi ymateb i bob un o'r pwyntiau isod.

### **Targed y Llwybr Canser**

Mae perfformiad yn erbyn y targed canser yn cael ei adrodd yn erbyn y llwybrau canser hynny a gaeir o fewn y mis. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar ôl i'r claf ddechrau ei driniaeth ddiffiniol y caiff y data eu hadrodd. O ran effaith trin cleifion o'r ôl-groniad ar berfformiad, os byddwch yn trin 100 o gleifion ar ôl y dyddiad targed, bydd y perfformiad yn 0% yn erbyn y targed. Os byddwch yn trin 50 o gleifion cyn y dyddiad targed a 50 ar ôl y dyddiad targed, byddwch yn dal i fod wedi trin 100 o gleifion, ond bydd y perfformiad bellach yn 50%. Os byddwch yn trin pob claf cyn y dyddiad targed, unwaith eto, byddwch yn dal i fod wedi trin 100 o gleifion, ond bydd y perfformiad bellach yn 100%. Ar bob achlysur, bydd 100 o gleifion wedi cael eu gweld, ond yn dibynnu ar ba mor hir maen nhw wedi bod yn aros, bydd y perfformiad yn erbyn y targed yn wahanol.

Rwyf wedi bod yn glir iawn gyda'r byrddau iechyd bod nifer y cleifion sy'n aros dros 62 diwrnod i naill ai ddechrau eu triniaeth neu gael diagnosis yn rhy uchel a bod rhaid canolbwyntio ar drin y cleifion sy'n aros hiraf. Mae hyn yn effeithio ar berfformiad yn erbyn y targed cydymffurfio, a bydd yn parhau i wneud hynny – ond dyma'r peth iawn i'w wneud er budd cleifion.

Mae fy swyddogion yn parhau i gael cyfarfodydd misol rheolaidd gyda'r byrddau iechyd ynghylch perfformiad canser a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella perfformiad a lleihau'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros. Mae cryn ffocws ar ailgynllunio llwybrau i sicrhau, lle bo hynny'n bosibl, bod llwybrau syth at brofion a gwelliannau cysylltiedig eraill yn cael eu rhoi ar waith.

Rydym yn buddsoddi'n helaeth yn ein gwasanaethau canser, ac rwyf wedi ei wneud yn un o'r chwe blaenoriaeth ar gyfer sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Trefnais ail uwchgynhadledd genedlaethol gydag arweinwyr y gwasanaeth canser ym mis Mawrth eleni ac atgyfnerthais fy nisgwyliadau ynghylch gwella perfformiad amseroedd aros canser.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
 Caerdydd • Cardiff  
 CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
 0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn dilyn yr uwchgynhadledd, mae Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG wedi dechrau ymyriad cenedlaethol ar gyfer canser. Mae hyn yn canolbwyntio ar y tri lleoliad tiwmor sy'n perfformio waethaf – wroleg, gynaeoleg a'r bibell gastroberfeddol isaf. Mae hyn yn dwyn ynghyd arbenigwyr rhaglen, clinigol, data a gwella Gweithrediaeth y GIG i helpu byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i roi'r llwybrau delfrydol cenedlaethol ar waith.

### **Y saith arbenigedd “eithriadol o heriol”**

Gallaf gadarnhau nad oedd y saith arbenigedd a restrwyd gennych wedi cael eu heithrio o unrhyw un o'r targedau a osodwyd ar gyfer byrddau iechyd, ac nad ydynt erioed wedi cael eu heithrio. Pan osodwyd y targedau i adfer gofal a gynlluniwyd ym mis Ebrill 2022, cydnabuwyd yr heriau o ran cyflawni cyn COVID mewn nifer o arbenigeddau gofal a gynlluniwyd ac y byddai cyflawni mewn rhai arbenigeddau yn her sylweddol. Cyhoeddir data sy'n ymwneud â'r arbenigeddau hynny yn fisol fel rhan o ystadegau swyddogol a bydd hyn yn parhau.

Mae'r tabl isod yn manylu ar y cynnydd sylweddol a wnaed yn y saith arbenigedd gofal a gynlluniwyd y cyfeirir atynt i leihau'r amseroedd aros dwy flynedd. Roedd cyfanswm o 53% o ostyngiad yn nifer y cleifion a arhosodd dros ddwy flynedd ym mis Mai 2023 o'i gymharu â mis Mai 2022, gyda nifer y cleifion sy'n aros dros ddwy flynedd yn gostwng am 14 mis yn olynol.

**Tabl 1:** Arbenigeddau gofal a gynlluniwyd heriol a'u hamseroedd aros dros ddwy flynedd – Mai 2022 – Mai 2023

	<b>Mai-22</b>	<b>Mai-23</b>	<b>Gwahaniaeth</b>	<b>% y newid</b>
<b>Trawma ac Orthopedeg</b>	18,635	9,660	8,975	48%
<b>Llawdriniaeth gyffredinol</b>	8,366	4,489	3,877	46%
<b>Wroleg</b>	4,695	3,856	839	18%
<b>Y glust, y trwyn a'r gwddf</b>	9,877	3,653	6,224	63%
<b>Offthalmoleg</b>	7,982	2,460	5,522	69%
<b>Gynaeoleg</b>	3,777	1,752	2,025	54%
<b>Dermatoleg</b>	2,461	338	2,123	86%
<b>Arall</b>	9,260	4,561	4,699	51%
<b>Cyfanswm</b>	<b>65,053</b>	<b>30,769</b>	<b>34,284</b>	<b>53%</b>

Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2023/24, sy'n cael ei atgyfnerthu drwy fy mlaenoriaethau Gweinidogol, yn canolbwyntio'n glir ar leihau amseroedd aros yn yr arbenigeddau heriol hyn ac mae hynny'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol.

Mae ffocws clinigol ar wella llwybrau cleifion a rhwydweithiau gweithredu clinigol yn helpu i lywio'r gwaith i gydbwysu blaenoriaethau o ran amser aros a brys clinigol.

Er mwyn cynnal y ffocws a chynyddu cyflymder y newid ar gyfer 2023/24, gosodwyd targedau cerrig milltir i gyflawni'r ymrwymiad i ddileu'r amseroedd aros dwy flynedd. Dyma'r rhain:

- Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023, bydd 97% o'r holl lwybrau rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn aros llai na dwy flynedd.
- Erbyn diwedd mis Mawrth 2024, bydd 99% o'r holl lwybrau rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn aros llai na dwy flynedd.

**Uwchgynadleddau Gweinidogol**

Bydd adroddiadau yn dilyn uwchgynadleddau'r Gweinidogion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Byddaf yn trefnu i'r ddolen gael ei hanfon atoch chi. Bydd adroddiadau pellach yn cael eu hychwanegu ar ôl unrhyw uwchgynadleddau yn y dyfodol. Ni chafodd adroddiad ei lunio yn dilyn yr uwchgynhadledd gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

—

**Health and Social Care  
Committee**

Prif Weithredwyr byrddau iechyd

26 Gorffennaf 2023


Annwyl Brif Weithredwyr

### Amseroedd aros y GIG

Fel y gwyddoch efallai, trafododd y Pwyllgor faterion yn ymwneud ag amseroedd aros gyda Chonffederasiwn GIG Cymru a chynrychiolwyr byrddau iechyd ar 12 Gorffennaf 2023. Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn y sesiwn dystiolaeth honno i ofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion.

Byddwn yn cynnal sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 8 Tachwedd 2023, a bydd rhan o'r sesiwn yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag amseroedd aros. Er mwyn llywio'r sesiwn, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb ysgrifenedig **erbyn 30 Awst 2023** i'r materion a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



## Atodiad: Amseroedd aros y GIG: cais am wybodaeth

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r materion a ganlyn **erbyn 30 Awst 2023**.

### Targedau adfer

---

Mae dau o'r targedau adfer a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei chynllun ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros y GIG ym mis Ebrill 2022 eisoes wedi eu methu, ac mae ein rhagamcanion yn awgrymu, ar y lefel bresennol o weithgarwch, y gallai'r dyddiadau targed diwygiedig gael eu methu hefyd.

1. Mae'r data a ryddhawyd fesul bwrdd iechyd yn dangos bod amrywiaeth ar draws byrddau iechyd o ran hyd arosiadau mewn arbenigeddau gwahanol a'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r ôl-gronni yn sgil yr amseroedd aros. Pa arbenigeddau sydd fwyaf heriol i'ch bwrdd iechyd, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r amseroedd aros yn yr arbenigeddau hynny.
2. Pa rôl rydych chi/eich bwrdd iechyd wedi ei chael wrth gynghori'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gosod y targedau presennol (gan gynnwys mewn cysylltiad â pha arbenigeddau sydd wedi'u cynnwys, neu nad ydynt wedi'u cynnwys). A ddylai bod gan y byrddau iechyd fwy o ran wrth nodi'r targedau.
3. Mae Cynllun Adfer Gofal Wedi'i Gynllunio Llywodraeth Cymru yn nodi pum targed adfer i fyrddau iechyd eu cyrraedd. Mae'r ddau darged cyntaf wedi'u methu. A allwch gadarnhau a yw eich bwrdd iechyd ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedau diwygiedig (mewn perthynas â tharged 1 a 2) ac i gyrraedd y tri tharged arall ar amser. Beth mae eich amcanestyniadau presennol yn ei ddangos o ran pryd y bydd eich bwrdd iechyd yn cyflawni pob un o'r targedau adfer.

### Y gweithlu

---

4. A oes arbenigeddau neu rolau penodol y mae eich bwrdd iechyd yn wynebu heriau penodol â hwy o ran recriwtio a/neu gadw staff. Os felly, pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw, ac a yw'r rhain wedi'u cynnwys yn eich gwaith Cynllunio Tymor Canolig Integredig (IMTP) (a oes modd i chi roi copi o'ch IMTP diweddaraf i'r Pwyllgor?).
5. Pa gamau y mae byrddau iechyd yn eu cymryd i wella amodau gwaith a llesiant ar gyfer staff gofal iechyd.
6. Rhowch wybodaeth am ddefnydd a chostau staff dros dro a staff asiantaeth yn 2021-22, 2022-23 a 2023-24 (y sefyllfa hyd yma ac unrhyw amcanestyniadau ar gyfer y sefyllfa diwedd y flwyddyn). Hefyd, darparwch wybodaeth am unrhyw dargedau yn eich bwrdd iechyd ar gyfer defnyddio staff o'r fath, neu eu cost, ac amlinellwch pa gamau sy'n cael eu

cymryd yn eich bwrdd iechyd i leihau dibyniaeth ar staff o'r fath (fel sefydlu'r Bartneriaeth Banc Cydweithredol).

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 12 Gorffennaf, dywedodd Cyfarwyddwr Conffederasiwn GIG Cymru wrthym:

*"There's huge evidence to show that people tend to stay in their roles longer if they started their career locally and are given that opportunity to develop, and that has big knock-on positive effects for the communities more widely as well."*

7. A oes tystiolaeth gan eich bwrdd iechyd chi o gysylltiad achosol rhwng cadw staff ac argaeledd cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn y gymuned neu'r rhanbarth lleol? Os felly, beth mae eich bwrdd iechyd yn ei wneud i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu o'r fath yn cael eu darparu?

Effaith gweithredu diwydiannol

---

8. Amlinellwch effaith gweithredu diwydiannol diweddar ar ofal cleifion ac ar nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth y GIG gan eich bwrdd iechyd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am faint o lawdriniaethau arfaethedig ac apwyntiadau cleifion allanol a gafodd eu canslo o ganlyniad i weithredu diwydiannol.

Arloesi ac arfer da

---

Gwyddom fod enghreifftiau o arloesi ym mhob bwrdd iechyd, ond mae gennym bryderon, oni bai bod datblygiadau arloesol llwyddiannus yn cael eu cyflwyno ar draws y byrddau iechyd, y bydd effaith datblygiadau arloesol o'r fath a'r graddau y gallant gyflawni'r trawsnewidiad radical sydd ei angen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn gyfyngedig.

9. Pa rwystrau sydd i rannu arfer gorau a chyflwyno datblygiadau arloesol llwyddiannus ar draws y byrddau iechyd. Rhwng enghreifftiau hefyd o sut mae eich bwrdd iechyd wedi rhannu arfer da neu arloesiadau llwyddiannus gydag eraill, a sut mae eich bwrdd iechyd wedi gweithredu arfer da a dysgu o arloesiadau a rannwyd gyda chi gan fyrddau iechyd eraill.
10. A allwch amlinellu'r ffyrdd y mae eich bwrdd iechyd yn gweithio gyda Gweithrediaeth y GIG ac yn cael cymorth ganddo, a darparu enghreifftiau o sut mae Gweithrediaeth y GIG yn hwyluso dysgu ar y cyd a gweithio rhanbarthol rhwng gwahanol fyrddau iechyd?
11. Yn ystod y pandemig COVID-19, addasodd y gwasanaethau iechyd gydag ystwythder a chyflymder i adleoli neu symud offer, staff a gwasanaethau i ddiwallu anghenion a oedd angen eu blaenoriaethu. Pa gamau y mae eich bwrdd iechyd wedi'u cymryd i ddysgu o'r profiad hwn, ac i gynnal ystwythder a hyblygrwydd.



Nid yw adnoddau a galw bob amser yn gyfartal ar draws y byrddau iechyd, ac mae cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag amseroedd aros yn ymrwymo i gyflwyno modelau gofal rhanbarthol ac ehangach i sicrhau mynediad teg, ar y sail bod 'yr heriau sy'n ein hwynebu yn rhy fawr i fyrddau iechyd fynd i'r afael â nhw ar eu pennau eu hunain'. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 12 Gorffennaf clywsom am rai enghreifftiau o weithio rhanbarthol.

12. Pa gamau y mae eich bwrdd iechyd yn eu cymryd i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer gweithio rhanbarthol yn cael eu hystyried, eu datblygu a'u gweithredu. Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf am sut mae eich bwrdd iechyd yn gweithio gydag eraill yn rhanbarthol.
13. Rhowch wybodaeth am faint o gleifion sydd wedi cael eu trosglwyddo ar draws ffiniau eich bwrdd iechyd ar gyfer gwasanaethau diagnosteg a thriniaeth. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys y cleifion sy'n cael eu trosglwyddo i'ch bwrdd iechyd gan fyrddau iechyd eraill, a'r rhai mae eich bwrdd iechyd wedi'u trosglwyddo i fyrddau iechyd eraill. A oes rhwystrau sefydliadol neu ddiwylliannol yn atal hyn rhag digwydd.

## Pwysau tymhorol

---

Rydym wedi clywed o'r blaen bod y cynnydd i wahanu gofal wedi'i gynllunio oddi wrth ofal brys yng Nghymru wedi bod yn araf. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 12 Gorffennaf pwysleisiodd tystion fod cynllunio ar gyfer y gaeaf 2023-24 eisoes wedi dechrau.

14. Pa mor hyderus ydych chi y gall eich bwrdd iechyd gynnal neu gynyddu lefelau cyfredol o weithgarwch i leihau rhestrau aros y GIG, yn enwedig wrth i ni edrych tuag at fisoedd y gaeaf. Amlinellwch sut y bydd eich bwrdd iechyd yn sicrhau y gall gynnal gweithgarwch yn ystod y gaeaf, gan gynnwys unrhyw gynlluniau ar gyfer sut y bydd eich bwrdd iechyd yn amddiffyn gofal wedi'i gynllunio rhag pwysau brys y gaeaf hwn, er enghraifft drwy wahanu gofal sydd wedi'i gynllunio a gofal brys.

## Cefnogi cleifion

---

15. Pa ddull y mae eich bwrdd iechyd yn ei ddefnyddio i flaenoriaethu rhestrau aros, gan gynnwys cydbwysu'r hyn a allai fod yn ystyriaethau sy'n gwrthdaro o ran angen clinigol a hyd yr amser aros.
16. Faint o gleifion sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestrau aros yn eich bwrdd iechyd o ganlyniad i arferion dilysu rhestrau aros.
17. Mae £20 miliwn y flwyddyn wedi'i fuddsoddi gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r broses o roi dull sy'n seiliedig ar werthoedd ar waith ar gyfer adfer yn y tymor canolig, gyda ffocws

ar wella canlyniadau sydd o bwys i gleifion. Sut mae buddsoddiad fel hwn yn ategu'r gwaith y mae byrddau iechyd yn ei wneud i fynd i'r afael â'r ôl-groniad.

## Perfformiad ariannol

---

Rydym wedi ystyried sefyllfa ariannol y byrddau iechyd yn ystod ein gwaith craffu ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a 2023-24, gan gynnwys i ba raddau y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, h.y. eu dyletswyddau i reoli eu hadnoddau o fewn terfynau cymeradwy dros gyfnod treigl o dair blynedd; ac i baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig dros gyfnod treigl o dair blynedd a gymeradwyir gan Weinidogion. Yn anffodus, dangosodd ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2023-24 ddirywiad mewn sefyllfaoedd ariannol, gyda chwech allan o'r saith bwrdd iechyd yn rhagweld (fel ym mis Ionawr 2023) gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn.

18. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol eich bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn, a'r rhagamcan diwedd y flwyddyn ar gyfer 2023-24, gan gynnwys a ydych yn rhagweld y byddwch yn cyflawni eich dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 2014. Os nad ydych yn disgwyl cyflawni'r dyletswyddau hyn yn 2023-24, eglurwch pam, a pha gamau a gymerir (a phryd) i sicrhau y bydd y dyletswyddau'n cael eu cyflawni yn 2024-25.





Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board

Ysbyty Athrofaol Cymru  
University Hospital of Wales  
UHB Headquarters

Heath Park  
Cardiff, CF14 4XW

Eitem 6.28

Parc Y Mynydd Bychan  
Caerdydd, CF14 4XW

Eich cyf/Your ref:  
Ein cyf/Our ref: SC/CT  
Welsh Health Telephone Network:

24 August 2023

By email

Russell George MS  
Chair, Health & Social Care Committee  
Senedd Cymru  
Cardiff Bay  
Cardiff CF99 1SN

Dear Russell

**NHS Waiting Times**

Thank you for your letter of the 26<sup>th</sup> July in relation to the evidence session of the 12<sup>th</sup> of July. In relation to the additional questions, I am pleased to enclose a document outlining responses to your queries with relevant examples.

Yours sincerely

**Paul Bostock**  
**Chief Operating Officer**

cc Suzanne Rankin, Chief Executive, Cardiff & Vale UHB

encl



1. The data released on a health board by health board basis shows there is variation across health boards about the length of waits in different specialties and progress made in tackling the waiting times backlog. Which specialties are most challenging for your health board, and what action is being taken to address the waiting times in those specialties

Response:

In writing our IMTP for the 2023/23 financial year we identified 6 specialties that can be identified as challenging. This is due to a demand and capacity deficit. The 6 specialties were:

- a. Gynaecology
- b. General Surgery
- c. Urology
- d. ENT
- e. Ophthalmology
- f. Orthopaedics

The Health Board continues to look for opportunities to implement additional capacity as well as productivity and efficiency improvements to support the reduction in long waiting patients. We are introducing additional capacity from September 2023 and this will be dedicated to the longest waiting patients.

2. What role have you/has your health board had in advising the Minister for Health and Social Services on setting the current targets (including in relation to which specialties are, or are not, included). Should health boards have a greater role in identifying the targets.

Response:

Through our regular performance meetings with the NHS executive and Welsh Government we have focussed on an open and transparent position of our waiting lists and opportunities for improvement. Through this we are clear of the specialties which hold the greatest challenge for us as a Health Board. In terms of the current targets, they are set by Welsh Government, and it is our view that the final position on targets should remain set in this way rather than a provider responsibility. This has the potential to be counterproductive. In terms of the future for setting targets it would be the Health Boards goal to continue to have an open and transparent dialogue with Welsh Government colleagues on our ability to improve within the resources that we have available.

3. The Welsh Government's Planned Care Recovery Plan sets out five recovery targets for health boards to deliver. The first two targets have been missed. Can you confirm whether your health board is on track to meet the revised targets (in relation to target 1 and 2) and to meet the other three targets on time. What do your current projections show in terms of when your health board will achieve each of the recovery targets.

Response:

The five recovery targets are as follows:

- No one waiting longer than a year for their first outpatient appointment by the end of 2022.
- Eliminate the number of people waiting longer than two years in most specialties by March 2023.
- Eliminate the number of people waiting longer than one year in most specialties by Spring 2025.

- Increase the speed of diagnostic testing and reporting to eight weeks and 14 weeks for therapy interventions by Spring 2024.
- Cancer diagnosis and treatment to be undertaken within 62 days for 80% of people by 2026.

The health Boards have developed plans for the revised ministerial standards to be achieved by December 2023 and March 2024. We are currently on track to deliver against these standards and have a risk management plan for the known risks in sustained delivery.

In relation to the Cancer standard the health board has focussed work ongoing to continuously improve the cancer position.

In relation to diagnostics and therapies standards, there are currently plans to deliver this standard in the majority of specialties. There are challenges within Audiology and endoscopy which the health Board is currently working through in order to be clear on the improvement trajectories.

4. Are there particular specialties or roles in relation to which your health board is facing specific workforce challenges in relation to recruitment and/or retention. If so, what actions are being taken to address them, and are these included in your IMTP (please can you provide the Committee with a copy your latest IMTP).

Response:

Within our annual plan submission to Welsh Government we have outlined our approach to our people and culture plan. Recruitment and retention need to be considered as part of a wider plan that embeds value at all stages of employment. This is the approach within our planning. In terms of the detailed approach for specific hard to recruit to areas this is something which we task the individual teams within the health board in developing. This supports the need to nuance our approach according to the specific workforce group.

Examples of difficult to recruit to teams include Emergency unit Nursing, paediatric Nursing and theatre staff. There are a number of approaches being undertaken to improve the overall staffing levels in these and other teams. This includes redesigning the workforce and considering alternative skills mix through utilising band 3 and 4 staff to support the registered workforce.

5. What actions are being taken in your health board to improve working conditions and wellbeing for healthcare staff.

Response:

Prior to the pandemic, the NHS was facing tremendous challenges in terms of colleague wellbeing, staff shortages, retention and infrastructure. The response to the pandemic itself has seen tremendous innovation and resilience in the face of unprecedented physical and emotional strain and challenge, and recovery has brought additional complexity to an already fragile situation.

In light of this, the UHB has developed a People and Culture Plan that directly aligns with the strategic direction of the organisation and national strategic documents including A Healthier Wales, The National Workforce Strategy for Health and Social Care, and The Wellbeing of Future Generations Act, ensuring a whole system approach. Integral to the People and Culture Plan is the understanding that to achieve our strategic ambition and priorities and provide the best care to our patients and communities, we are completely dependent on our workforce being engaged, motivated, healthy and well. To enable this, our people need to have access to timely and quality education and development; be positioned correctly through effective workforce planning and workforce models to deliver the best quality healthcare; have access to the necessary resources; and be supported by compassionate leaders within an inclusive, compassionate and innovative organisational culture.

To enable this, the following list provides examples of actions that have been taken, and planned actions over the coming months:

